

***Barti Ddu* T. Llew Jones**  
– **nofel antur ôl-drefedigaethol?**

Awen Meleri Gruffydd Schiavone

Thesis wedi'i gyflwyno ar gyfer gradd  
Meistr mewn Athroniaeth

Prifysgol Caerdydd

Mawrth 2014



# Crynodeb

Prif ffocws y traethawd yw nofel antur Gymraeg i blant a ysgrifennwyd gan T. Llew Jones, *Barti Ddu* (1973). Cwestiynir yn gyntaf i ba raddau mae'r nofel yn cydymffurfio â genre y stori antur, ac yn ail ceir dadansoddiad o'r nofel trwy ddefnydd y theori ôl-drefedigaethol. Mae'n draethawd sy'n cyfuno dau faes academaidd cymharol newydd yn nhermau Cymru a'r Gymraeg – maes Llenyddiaeth Plant, a maes Ôl-drefedigaethedd. Mae'r traethawd, felly, yn cyflwyno syniadau newydd am ffyrdd o ddadansoddi llenyddiaeth Gymraeg, ac yn fwy penodol, llenyddiaeth Gymraeg a ysgrifennwyd ar gyfer plant.

## DATGANIAD

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd .....(nodwch MCh, MD, MPhil, PhD ac ati, fel y bo'n briodol)

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 3

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

# Cynnwys

<b>Diolchiadau</b>	t. v
<b>Rhai Termau</b>	t. vi
<b>Pennod 1 – Cyflwyniad</b>	t. 1
a) Nod ac Amcanion y Traethawd	
b) Llenyddiaeth Plant a T. Llew Jones	
c) Y Fframwaith Theoretig a'r Fethodoleg Ymchwil	
<b>Pennod 2 – <i>Barti Ddu</i> fel Stori Antur</b>	t. 21
a) Cyflwyniad	
b) Nodweddion a Datblygiad y Genre	
c) <i>Barti Ddu</i> a Genre y Stori Antur	
i) <i>Barti Ddu o Gasnewy' Bach</i>	
ii) <i>Barti Ddu</i> fel Stori Antur	
<b>Pennod 3 – Darlleniad Ôl-drefedigaethol o <i>Barti Ddu</i></b>	t. 50
a) Cyflwyniad	
b) Cymeriadau	
i) Arallrwydd	
ii) Y Benywaidd	
iii) Cymysgrywedd a Dynwared	
a) Iaith	
b) Gofod a Lle	
<b>Casgliad</b>	t. 89
<b>Llyfryddiaeth</b>	t. 96

## Diolchiadau

Yr wyf yn ddyledus iawn i nifer o bobl am eu cymorth wrth gwblhau'r traethawd hwn. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch yn arbennig i T. Llew Jones am ysgrifennu yn greadigol – heb y llenyddiaeth hon ni fyddai dechrau na diwedd i'r traethawd hwn. Diolch hefyd iddo am gadw dyddiaduron, a diolch i'w deulu am ganiatáu i'r dyddiaduron fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Dywedodd ei hun, ar ddiwrnod olaf 1972: 'Gobeithio yr â'r dyddiaduron a sgrifennais ar hyd y blynyddoedd i'r Llyfrgell Genedlaethol ... a wyf na wel rhywrai – yn yr oesoedd a ddêl – ryw ddiddordeb ynddynt'. Diolch hefyd i'w feibion, Emyr Llywelyn ac Iolo Ceredig Jones am roi'r hawl i mi ddyfynnu o'r dyddiaduron hynny.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r sawl sydd wedi cynnig sylwadau gwerthfawr wrth i mi lunio'r traethawd hwn. Diolchaf yn bennaf i Dr Siwan Rosser, fy mhrif gyfarwyddwr, am ysgogi'r diddordeb mewn Llenyddiaeth Plant, ac am barhau'n frwdfrydig drwyddi draw. Diolch hefyd i'm hail gyfarwyddwr, Yr Athro Sioned Davies, ac i'r ddwy ohonynt am eu hamser, eu hamynedd, a'u sylwadau craff ac adeiladol. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r canlynol am eu sylwadau a'u cymorth pellach: Yr Athro Diarmait Mac Giolla Christ, Dr Simon Brooks, Yr Athro Colin H. Williams, Dr Dylan Foster Evans, Dr E. Wyn James a sawl un a gyfarfûm mewn cynadleddau yng Nghymru a Gwlad Pwyl.

Cydnabyddaf Wobr G. J. Williams, trwy law Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a'm galluogodd i ymgymryd â'r radd hon yn rhan amser. Rwy'n ddiolchgar hefyd am gymorth ariannol Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ac Y Gyfadran Saesneg, Prifysgol Adam Mickiewicz, Poznań a'm galluogodd i fynychu a chyflwyno papurau mewn cynadleddau. Diolch hefyd i'r sawl fu'n cydweithio â mi yn fy swyddi rhan amser am eu cefnogaeth, ac i'r myfyrwyr yn Adran Ieithoedd a Llenyddiaeth Geltaidd, Poznań am eu diddordeb a'u brwdfrydedd.

Carwn hefyd ddiolch i fy nheulu a'm ffrindiau am eu cefnogaeth frwd a'u diddordeb yn fy ymchwil. Diolch i'm rhieni am fy magu gyda chariad at lyfrau a dysgu, ac i bawb arall fu'n glust ac yn gefn dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn bennaf oll, mae'r diolch mwyaf yn mynd i'm cymar, Owen, am ei gefnogaeth a'i frwdfrydedd rhyfeddol, am ei gynhالياeth a'i gariad, ac yn fwy na dim, am gredu.

# Rhai Termau

Dyma eglurhad byr o rai termau allweddol a ddefnyddir yn y traethawd hwn – mae'r esboniadau yn cymhwyso yr hyn a olygir wrth y termau at bwrpas y traethawd hwn.<sup>1</sup>

Alltud (*Exile*): Unigolion neu grwpiau o bobl a orfodwyd i adael eu mamwlad, ac sy'n parhau i ymdeimlo eu bod yn perthyn i famwlad. Gellir defnyddio'r term hefyd wrth gyfeirio at unigolion/grwpiau o bobl sy'n parhau i fyw yn gorfforol yn eu 'mamwlad', ond bod synnwyr o ddadleoliad. Gall fod yn 'wirioneddol' neu'n 'drosiadol', yn 'wirfoddol' neu'n 'anwirfoddol'.

Cenedl (*Nation*): cymuned o bobl sydd o bosib yn rhannu iaith, diwylliant, ethnigrwydd, hanes a llinach.

Cenedlaetholdeb (*Nationality*): y berthynas rhwng unigolyn a'i genedl neu wladwriaeth.

Cenedligrwydd (*Nationhood*): y cyflwr neu'r ansawdd o gael statws cenedl ar wahân ac annibynnol.<sup>2</sup>

Cymysgrywedd (*Hybridity*): rhywbeth sy'n gymysg ei darddiad neu ei gyfansoddiad – yn ei ffurf symlaf cyfeiria at gymysgedd. Gweler y bennod agoriadol am drafodaeth bellach.

Dadleoliad (*Displacement/Dislocation*): yr hyn sy'n ymwneud â gorfodaeth ar rywun i newid lle neu leoliad. Mae'n ymwneud â sefydlogi, mudo, neu ymyrraeth, neu gyfuniad ohonynt.

Deuoliaeth Agwedd (*Ambivalence*): y cyflwr o gael teimladau croes/gwrthgyferbyniol cydamserol tuag at rywun neu rywbeth.

Diaspora (*Diaspora*): unrhyw un sy'n byw y tu allan i'w famwlad draddodiadol.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup>Am ddiffiniadau pellach a manylach, gweler: *An Introduction to Post-Colonial Theory* (1997) P. Childs & P. Williams; *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (1998) Ashcroft et al.; *Postcolonial Studies: The Key Concepts* (2000) Ashcroft et al.; a *Beginning Postcolonialism* (2000) J. McLead.

<sup>2</sup>Yn ôl R. M. Jones (1992), mae gwahaniaeth semantaidd rhwng cenedligrwydd a chenedlaetholdeb: 'Mae craidd cenedligrwydd yn y gorffennol gan arwain ymlaen at y presennol, a chraidd cenedlaetholdeb yn y dyfodol' (t. 187).

<sup>3</sup>Cyfeiria'r term gwreiddiol at friad Duw i Iddewon Israel gael eu 'gwasgaru' ar draws y byd.

Disgwrs (*Discourse*): y casgliad o ystyron a geir mewn trafodaethau.

Dwyreinioldeb (*Orientalism*): y term a ddefnyddir am ddynewarediad, neu bortread, o agweddau diwylliannau'r Dwyrain Canol a Dwyrain Asia gan Americanwyr ac Ewropeaid. Ers gwaith Edward Said (*Orientalism*, 1978), dechreuwyd defnyddio'r term i gyfeirio at agweddau nawddoglyd cyffredinol Gorllewinwyr tuag at gymdeithasau'r Dwyrain Canol, Dwyrain Asia, a Gogledd Affrica. Gweler trafodaeth bellach yn y bennod gyflwyniadol.

Dynwared (*Mimicry*): y weithred, neu'r ymarferiad, o efelychu neu ddynewared. Mewn ôl-drefedigaethedd cyfeirir at y bobl drefedigaethedig yn dynwared iaith, edrychiad, gwleidyddiaeth, neu/a diwylliant eu trefedigaethwyr.

Ethnigrwydd (*Ethnicity*): perthyn ethnigrwydd i grŵp ethnig penodol. Adnabyddir y grŵp trwy nodwedd gyffredin ymysg ei aelodau, megis iaith, tafodiaith, diwylliant ac etifeddiaeth.

Ffin (*Border*): gair sy'n cyfeirio at fan ffiniol sy'n nodi terfynau ac yn gwahanu rhwng gofodau.

Gwladgarwch (*Patriotism*): cariad ac ymroddiad at wlad.

Gwladwriaeth (*State*): ardal ddaearyddol sydd â threfn lywodraethol.

Gwrthdrefedigaethol (*Anti-Colonial*): gwrthwynebu ac/neu ymwrthod â threfedigaethedd.

Gwrywdod (*Masculinity*): y cyflwr o fod yn wrywaidd; neu'r hyn a ystyrir yn draddodiadol yn nodweddiadol o wryw.

Hunaniaeth (*Identity*): y nodweddion sy'n pennu pwy neu beth yw rhywun neu rywbeth.

Imperialaeth (*Imperialism*): ehangu awdurdod cenedl trwy gaffael tiriogaeth neu osod tra-arglwyddiaeth wleidyddol neu economaidd dros genhedloedd eraill.

*Subaltern*: yr israddol i'r trefedigaethwyr yn nhermau cymdeithasol, gwleidyddol a daearyddol.

Tra-arglwyddiaeth (*Hegemony*): pennaf ddylanwad un wladwriaeth dros wladwriaeth/au arall/eraill.



Trawsgynefino (*Transculturation*): newid diwylliannol a achosir trwy gyflwyno elfennau o ddiwylliant estron. Fe'i bathwyd gan Fernando Ortiz ym 1940 i ddisgrifio cyfuno a chydgyfarfod diwylliannau.

Trefedigaeth (*Colony*): gwlad neu ardal dan reolaeth gwlad arall; y gymuned a grëir wrth i bobl ymgartrefu mewn gwlad tra'n cadw perthynas â'r famwlad.

Trefedigaethedig (*Colonised*): ardal ddaearyddol, neu bobl, sydd wedi eu trefedigaethu gan allanwyr.

Trefedigaethedd (*Colonialism*): y broses o drefedigaethu.

Trefedigaethu (*Colonize/Colonise*): ffurfio neu greu trefedigaeth mewn man penodol; meddiannu lleoliad neu diriogaeth ar gyfer defnydd yr hunan; ymgartrefu gyda'r trefedigaethedig.

Trefedigaethwyr (*Colonists*): y bobl sy'n trefedigaethu; y bobl sy'n ymgartrefu mewn trefedigaeth; y bobl sy'n sylfaenu trefedigaeth.

Ymerodraeth (*Empire*): grŵp helaeth o wledydd neu wladwriaethau dan uwchdeyrnasiad un awdurdod.

Yr Arall / Arallrwydd (*The Other / Otherness*): yr hyn sy'n wahanol i'r hunan; yr hyn sy'n gwrthgyferbynnu gyda'r hyn sy'n wybyddus neu'n gyfarwydd.



# **Pennod 1**

## **Cyflwyniad**

## a) Nod ac Amcanion y Traethawd

Yn y traethawd hwn, ceir astudiaeth o nofel antur T. Llew Jones, *Barti Ddu* (1973), yn bennaf trwy ddefnyddio beirniadaeth lenyddol ôl-drefedigaethol. Cynhyrchodd T. Llew Jones, 'brenin awduron llyfrau plant Cymru ... [a'r] awdur plant Cymraeg mwyaf poblogaidd erioed' (Jones, G. W. 2003, 3), nifer fawr o destunau llenyddol – y mwyafrif ohonynt wedi'u hysgrifennu ar gyfer plant neu bobl ifainc. Straeon antur yw genre ei nofelau enwocaf, ac yma ceir trafodaeth o'i gyfraniad i'r genre hwn gan fanylu ar y nofel *Barti Ddu*. Ymhellach, ceir yn ei waith gyfeiriadaeth at Gymreictod a hunaniaeth Gymreig yn fynych, a gellid dweud bod rhai o'r nofelau antur yn wrthdrefedigaethol neu'n ôl-drefedigaethol eu natur. Cwestiwn ymchwil cyntaf y traethawd hwn ydyw i ba raddau y mae'r nofel yn cydymffurfio â nodweddion genre y stori antur, a cheir ym Mhennod 2 drafodaeth ar ddatblygiad y genre yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal â dadansoddiad o *Barti Ddu* fel nofel antur ac iddi elfennau trefedigaethol. Ail gwestiwn ymchwil y traethawd hwn ydyw i ba raddau y mae T. Llew Jones yn mynd y tu hwnt i gyflwyno stori antur draddodiadol, ac yn amlygu elfennau ôl-drefedigaethol yn *Barti Ddu*, a cheir ym Mhennod 3 ddadansoddiad ôl-drefedigaethol o'r nofel.

Bydd y traethawd hwn yn torri tir newydd trwy gymhwyso theori ôl-drefedigaethedd i lenyddiaeth Gymraeg i blant am y tro cyntaf. Y mae astudiaethau academiaidd o faes lenyddiaeth plant yn gymharol ifanc. Er bod cyhoeddi llyfrau ar gyfer plant a phobl ifainc wrth galon y system addysg a'r diwydiant cyhoeddi cyfrwng Cymraeg, mae astudio lenyddiaeth plant fel maes academiaidd eto i'w ddatblygu yng Nghymru; tan yn ddiweddar iawn, ychydig ymdriniaethau a gafwyd yn y maes, ac mae'r mwyafrif yn tueddu i fod â gogwydd hanesyddol, neu addysgol, a disgrifiadol yn hytrach na beirniadol.<sup>4</sup> Mae'r maes ymhell o fod wedi ei fapio'n llawn felly. Oherwydd y bwlch amlwg, ni chynigiwyd (yn y Gymraeg, neu am lenyddiaeth Gymraeg i blant) corff gwreiddiol o wybodaeth a dysg. Y mae lenyddiaeth plant yn bwnc academiaidd dilys oherwydd gall ddangos y berthynas rhwng lenyddiaeth plant a'r byd, ein ffordd o fyw, a'n ffordd o feddwl (Rose 1984). Bydd y traethawd hwn yn dangos y modd y gall

---

<sup>4</sup>Rhai o'r cyhoeddiadau pwysicaf: *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950* (1983) M. & G. Jones; *Llyfrau Plant yng Nghymru 1900-1991* (1997) d. e.; erthygl 'Llenyddiaeth Gymraeg i blant: arolwg o'r sefyllfa bresennol' gan G. D. Jones yn *Planet* (1997); pennod 'Children's Literature in Welsh to 1950' gan M. Phillips yn *A Nation and its Books* (1998) gol. P. H. Jones & E. Rees; ac erthygl 'Language, Culture and Identity in Welsh Children's Literature: O. M. Edwards and *Cymru'r Plant 1892-1920*' gan S. Rosser yn *Codladh Céad Bliain: Cnuasach Aistí ar Litriocht na nÓg* (2012) gol. R. Nic Congáil.

llynyddiaeth Gymraeg i blant fod yn ddrych i bryderon am iaith, diwylliant a hunaniaeth gan roi cyfle i ddarllenwyr ifainc ddathlu eu hunigrywiaeth.

## b) Llenyddiaeth Plant a T. Llew Jones

Ar un lefel, mae diffinio llenyddiaeth plant yn syml. Deellir ei fod yn cyfeirio at destunau a ysgrifennir i'w darllen gan blant a phobl ifainc, ac wedi eu gosod yn adrannau plant a/neu bobl ifainc mewn llyfrgelloedd a siopau llyfrau (Reynolds 2011, 1). Ar y llaw arall, gellir dadlau bod diffinio llenyddiaeth plant yn gymhleth, ac aeth Jaqueline Rose mor bell ag awgrymu 'amhosibilrwydd' ('impossibility' 1984, 13) llenyddiaeth plant. Yn wir, nid oes corff clir o lenyddiaeth plant – ni ellir gosod terfynau clir i lenyddiaeth plant yn ôl cynnwys, themâu, arddull, genre, hyd, nac edrychiad. Ar un llaw, llenyddiaeth plant yw'r unig gategori, bron iawn, o lenyddiaeth a ddiffinnir yn gyfan gwbl gan ei gynulleidfa fwriadedig – mae'r mwyafrif o'r hyn a labelir yn llenyddiaeth plant wedi'i dargedu at gynulleidfa benodol. Ond ar y llaw arall, mae'r ffiniau yma'n cael eu croesi a'u gwthio wrth i blant ddarllen 'llynyddiaeth oedolion', ac wrth i oedolion ddarllen 'llynyddiaeth plant'.<sup>5</sup> Arwain hyn at ddadlau ynghylch addasrwydd llenyddiaeth i blant ac oedolion. Ymhellach, mae llenyddiaeth plant, yn bennaf, wedi'i hysgrifennu gan oedolion gan beri rheswm arall i gwestiynu posibilrwydd bodolaeth 'llynyddiaeth plant' o gwbl.

Ceir cymhlethdodau pellach wrth gategoreiddio oherwydd syniadau amrywiol am blentyndod.<sup>6</sup> Mae syniadau am bryd mae plentyndod yn cychwyn neu'n gorffen, beth mae plant yn ei wneud neu'n ei ddeall, a beth sydd ei angen ar blant, yn amrywio'n fawr yn amseryddol ac yn ddaearyddol. Mae gan fwy neu lai bob diwylliant ei llenyddiaeth i blant, ac mae nifer o blant o wahanol ddiwylliannau yn gyfarwydd â chymeriadau a straeon o ddiwylliannau eraill.<sup>7</sup> Mae llenyddiaeth plant yn cwmpasu nifer o wahanol fathau o lenyddiaeth (e.e. straeon tylwyth teg, chwedlau, hwiangerddi, gemau cyfrifiadurol, ac yn y blaen) o bob cyfnod hanesyddol, boed wedi eu hysgrifennu'n

---

<sup>5</sup>Mae poblogrwydd nofelau megis cyfresi *Harry Potter* (1997-2007) J. K. Rowling a *His Dark Materials* (1995-2000) Phillip Pullman ymysg oedolion wedi profi bod modd i oedolion fwynhau nofelau a fwriadwyd ar gyfer cynulleidfa ifanc, yn yr un modd ag y gall plant fwynhau rhai nofelau a fwriadwyd ar gyfer oedolion. Enghreifftiau o lenyddiaeth na fwriadwyd ar gyfer plant, ond sydd bellach yn destunau y mae plant yn eu darllen yw *Robinson Crusoe* (1719) Daniel Defoe, ac *A Child Called It* (1995) Dave Pelzer.

<sup>6</sup>Am drafodaeth bellach am ideoleg 'plentyndod', mae *Centuries of Childhood* (1962) Philippe Ariés yn gyflwyniad hygyrch. Dadl Ariés yw mai creadigaeth cymdeithas yw plentyndod, nid rhywbeth naturiol. Ceir ymdriniaethau pwysig yn y maes gan Jean-Jacques Rousseau (*Émile, or On Education*, 1762, cyfieithiad: 1979), ac yn fwy diweddar Hugh Cunningham (*The Invention of Childhood*, 2006).

<sup>7</sup>Er enghraifft: *Pinochio* (Yr Eidal); *Tintin*, (Gwlad Belg); *Asterix* (Ffrainc); a *Pippi Longstocking* (Sweden).

fwriadol ar gyfer plant, wedi eu mabwysiadu gan gynulleidfa ifanc, neu yn draddodiadol yn cael eu darllen gan blant ond bellach gan ysgolheigion yn unig. Cymhlethir astudio llenyddiaeth plant ymhellach gan yr amrywiaeth o ymdriniaethau yn y maes; mae meysydd addysg, cymdeithaseg, llyfrgellyddiaeth, datblygiad plentyn, hanes llyfr, a seicoleg, yn ogystal â llenyddiaeth, oll wedi cyfrannu ymdriniaethau pwysig at y maes. Yn wir, yn aml mae'n amhosibl ystyried llenyddiaeth plant heb gyfeirio at y meysydd eraill hyn (Pearson 2011, 4).

Dim ond ers y 1970au mae llenyddiaeth plant wedi dod yn bwnc academaidd a astudir o ddifrif,<sup>8</sup> ac mae megis cychwyn yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg i blant. Anwybyddwyd y maes cyhyd oherwydd fe'i gwelwyd yn ymylol – a all testunau sydd *ddim ond* i blant fod yn ddigon cymhleth a phwysig i haeddu ystyriaeth ysgolheigion? Yn gyntaf, roedd yn ymylol oherwydd statws israddol y 'plentyn' mewn cymdeithas, a'r gred fod plentyndod yn gyflwr anghyflawn.<sup>9</sup> Yn ail, nid ystyrid testunau ar gyfer plant fel rhan o'r canon llenyddol – tybid fod llenyddiaeth plant yn rhy naif a chyfyng, ac nid yn ddigon cymhleth na phwysig i'w derbyn yn rhan o'r canon nac i deilyngu ystyriaeth academyddion (Williams, M. W. 1997, 40). Yn y degawdau diwethaf mae pwysigrwydd meddwl yn feirniadol am lenyddiaeth plant wedi ei gydnabod gan adrannau prifysgolion, ac ers troad y ganrif, mae llenyddiaeth plant wedi datblygu'n fwyfwy poblogaidd fel pwnc i'w astudio.<sup>10</sup> Dadleuodd Peter Hunt, os yw llenyddiaeth yn 'texts which engage, change and provoke intense responses in readers' (1999, 1) yna mae testunau i blant yn anorfod mor berthnasol â'r rheiny i oedolion.<sup>11</sup> Mae'r mwyafrif ohonom yn dod ar draws llenyddiaeth plant mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn ein bywydau, a chan ei fod yn genre mor doreithiog, sy'n rhan o fywydau cynifer o bobl, mae pwysigrwydd meddwl yn feirniadol am lenyddiaeth plant bellach wedi'i gydnabod. Ceir modiwl ac arbenigedd yn y maes yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd erbyn hyn – ac felly caiff llenyddiaeth Gymraeg i blant sylw beirniaid llenyddol. Serch hynny,

---

<sup>8</sup>Cynhaliwyd y gynhadledd gyntaf ('Internationalism in Children's Literature') yn y maes ym 1979. Trefnwyd y gynhadledd gan y *Children's Literature Association*, ac fe'i cynhaliwyd ym Mhrifysgol Toronto, Canada.

<sup>9</sup>Am drafodaeth bellach, gweler: *Childhood in the Middle Ages and the Renaissance: The Results of a Paradigm Shift in The History of Mentality* (2005) a olygwyd gan Albrecht Classen; ac *Understanding Children's Literature* (1999) a olygwyd gan Peter Hunt.

<sup>10</sup>Er enghraifft, gellir derbyn MPhil, PGDip a PhD mewn 'Children's Literature' o Brifysgol Roehampton, Lloegr; ac mae degau o Adrannau ac Ysgolion mewn Prifysgolion ar draws y byd yn cynnig modiwlau is-raddedig yn y maes.

<sup>11</sup>Mae'r rheiny sy'n astudio llenyddiaeth plant yn defnyddio llawer o'r syniadau beirniadol a theoretig a ddefnyddir wrth astudio 'lenyddiaeth oedolion', tra ar yr un pryd yn aml yn ychwanegu neu'n eu haddasu (trwy gyfuno genres neu theorïau).

mae'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith leiafrifol, a Chymru'n genedl fechan, yn golygu fod astudio llenyddiaeth Gymraeg i blant yn bwnc ymylol o fewn iaith a chenedl ymylol. Enfawr yw'r bwch yn y maes felly, a bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at lenwi rhywfaint ar y bwch hwnnw.

Crefyddol ac addysgiadol oedd gogwydd yr ychydig enghreifftiau Cymraeg cynharaf y gellid eu categoreiddio fel 'llynyddiaeth plant',<sup>12</sup> tra yn y Saesneg cafwyd nofelau megis *Robinson Crusoe* (1719) a *Gulliver's Travels* (1726) – straeon antur sy'n parhau'n glasuron. Gwir dweud ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng y llyfrau a fwriadwyd ar gyfer plant, a'r rheiny y bwriadwyd i oedolion eu darllen, ac felly ymddengys mai prin iawn yw'r nifer o destunau Cymraeg i blant cyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid ystyriwyd plant yn wahanol i oedolion ar y pryd,<sup>13</sup> heblaw am eu hoedran a'u diffyg profiad; ac felly er i eiriau megis 'plant', 'plentyn' ac 'ieuenctid' ymddangos mewn testunau, nid oes sicrwydd bod y cynnwys yn addas ar gyfer darllenwyr ifainc (Phillips, M. 1998, 381). Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafwyd newid graddol yn agwedd awduron Cymraeg tuag at blant, a'r math o lyfrau yr ystyrid yn addas ar eu cyfer, a gellir honni ei bod hi'n hen bryd hefyd o ystyried y cynnyrch a fodolai yn y Saesneg ar y pryd: 'rhyfeddod a lol i'r Sais bach, difrifoldeb a chydwybod i'r Cymro bach' (Isaac 1983, 10). Roedd dylanwadau cymdeithasol, addysgol, economaidd, crefyddol a gwleidyddol yn y wlad yn 'cyffroi diddordeb cynnes mewn plant' (R. T. Jones 1974, 161), gan roi goleuni ar y ffaith bod byd plentyndod yn hollol wahanol ac yn sefyll ar wahân i fyd yr oedolyn (Isaac 1983, 11). Serch hynny, parhaodd y diffyg llyfrau Cymraeg i blant, ac roedd llawer o'r cynnyrch a fodolai yn gyfieithiadau o'r

---

<sup>12</sup>Roedd Anghydfurfiaeth a diwylliant y cyfnod yn golygu bod dylanwadau crefyddol cryf ar unrhyw gynnyrch llenyddol. Roedd marwolaeth plant yn beth cyffredin, ac roedd llenyddiaeth yn ymateb i hyn mewn modd crefyddol. Eglura Menna Phillips (1998, 381), 'The uncertain nature of life makes the urgency with which religious works stressed the need for salvation all the more understandable; the work of saving young souls could not begin too soon'. Mae'r cynnyrch cynnar Cymraeg y gellir ei nodi fel llên plant oll yn grefyddol ac addysgiadol ei naws a'i fwriad. Enghreifftiau amlwg yw: *Yr ABC neu'r Catecism i'w ddysgu gan bob Plentyn cyn ei ddwyn i'w gonffyrmio gan yr Esgob* – cyhoeddiad gan Eglwys Loegr ym 1633; *Gwagedd Mebyd ac Jeungtid yn yr hwn y dangosir natur lygredig pobl jeuainc, ac y cynhygir moddion er eu duwygiad* – cyfieithiad gan Thomas Baddy a gyhoeddwyd yn Llundain gyntaf ym 1728, ac yna ym 1739 a 1759; *Llywyr Hyfforddiant y Plentyn Bach i Fywyd Tragwyddol* – cyfieithiad gan Theophilus Evans ym 1750; *Blodau i Blant* – gan Peter Williams ym 1758; ac *Anrheg i Blentyn, sef Hanes Cywir am Ddychweliad Grasol, Bucheddau duwiol, a Marwolaethau Dedwyddol, amryw Blant Ieuainc* – cyfieithiad gan Thomas Jones ym 1816. Cyn y rhain, yr oedd rhai enghreifftiau o gynnyrch a fyddai o bosib yn addas i'r darllenydd ifanc, ond nid oeddent yn benodol ar gyfer y plentyn. Testunau megis: *Salmau Cân* – deunydd syml i'w ddysgu ar lafar gan Edmwnd Prys ym 1621; *Beibl Bach*, a gyhoeddwyd ym 1630; a cherddi'r Ficer Prichard a gyhoeddwyd ym 1659, 1660, 1672, ac 1681.

<sup>13</sup>'Before there could be children's literature, there had to be children' – dyma eiriau John Rowe Townsend ym 1965 (17), ac yn wir mae datblygiad llenyddiaeth plant yn mynd law yn llaw â datblygiad syniadau am blentyndod.



Saesneg.

Yn dilyn Deddf Addysg Balfour ym 1902, rhoddwyd ystyriaeth i le'r Gymraeg mewn ysgolion gan yr Awdurdodau Addysg, ac erbyn y 1920au roedd athrawon wedi disodli'r pregethwyr fel awduron plant. Daeth genres newydd megis y nofel hanes, y nofel ddirgelwch, a'r stori antur yn boblogaidd. Cafwyd blas ar ffantasi ac antur yng ngwaith poblogaidd Edward Tegla Davies (1880-1967): 'dyma blant o gig a gwaed, plant yn siarad Cymraeg, ac yn fwy na dim, plant direidus, castiog a plant [*sic*] fel ninnau, oedd yn casáu dysgu a dweud adnod' (Owen, D. 1983, 100).<sup>14</sup> Roedd Elizabeth Mary Jones (1877-1953), neu 'Moelona',<sup>15</sup> ac R. Lloyd Jones (1876-1959),<sup>16</sup> yn awduron eraill a gyflwynodd straeon antur poblogaidd i blant. Un datblygiad pwysig arall yn y maes oedd cynhyrchu llyfr plant fu'n ffefryn am flynyddoedd – *Llyfr Mawr y Plant*, a olygwyd gan Jennie Thomas a J. O. Williams.<sup>17</sup> Ynndo cafwyd anturiaethau cymeriadau enwog megis Wil Cwac Cwac a Siôn Blewyn Coch – cymeriadau hoffus a drosglwyddwyd i sgrin y teledu yn ddiweddarach. Serch y datblygiadau uchod, 'nid oedd y ddarpariaeth a gynigai'r wasg i blentyn o Gymro ar ddechrau'r pedwar degau yn wahanol iawn i'r hyn a gawsai ei fam a'i dad i'w ddarllen genhedlaeth yn gynt' (Hughes, G. 1983, 83). Eithriad i'r pedwardegau 'tywyll' (Hughes, G. 1983, 85) o ran cynnyrch oedd gwaith Elizabeth Watkin Jones (1888-1966) – gyda llwyddiant straeon hanesyddol ac antur megis *Luned Bengoch* (1946).<sup>18</sup> Yn dilyn dadrithiad ysbrydol yn sgil y ddau Ryfel Byd, roedd crefydd ar drai, ac mae'n dilyn felly bod dylanwad crefydd a'i fodolaeth mewn llenyddiaeth yn lleihau. Cafodd y cyfnod ddylanwad ar fywyd cymdeithasol a diwylliannol y wlad, ac mae'r cynnydd mewn deunydd amrywiol o lenyddiaeth Gymraeg i blant yn un datblygiad amlwg a ddaeth yn ei sgîl. Un o'r awduron toreithiog llwyddiannus am yr hanner canrif nesaf oedd T. Llew Jones (1915-

---

<sup>14</sup>Roedd Tegla yn olygydd cylchgrawn plant Wesleidd *Y Winllan* rhwng 1920-1928. Ynndo cynhwysid ei nofelau ei hun, ynghyd â gwaith gan Kate Roberts, a storïau Joseph Jenkins ac Elisabeth Watkin Jones.

<sup>15</sup>Cynhyrchodd sawl llyfr addysgol megis *Cyfres Plant y Dydd* (1928-1932), ond hefyd nifer o nofelau ac iddynt gynnwys oedd yn amrywio o gefndir gwledig Cymru (*Rhamant y Rhos*, *Teulu Bach Nantoer*) i ymweliad â'r Swistir (*Cwrs y Lli*) a llongdrylliad ym Môr y De (*Breuddwydion Myfanwy*).

<sup>16</sup>Roedd R. Lloyd Jones (1876-1959) yn arbenigo yn y stori antur, ac yn bennaf byd y morwr mewn nofelau fel *Ynys y Trysor* (1925), *Mêt y Mona* (1929) ac *Ym Môr y De* (1936), roedd yn cynnig i'r darllenydd 'a view of the world that was very different from that provided by earlier Welsh authors' (Phillips, M. 1998, 383), ac mae rhai'n tybio y 'dylid ei restru yn sicr ymhlith y cynharaf o storiwyr dawnus i blant yng Nghymru' (Jones, G. 1983C, 109).

<sup>17</sup>Yn ôl Menna Phillips (1998, 383), dyma: 'one of the First attempts in Welsh to imitate the popular English annuals'.

<sup>18</sup>Dywed R. M. Thomas: 'y mae straeon hanes Elizabeth Watkin Jones yn bwysig yn natblygiad llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer plant' (1983, 57) gan iddi gael llwyddiant a phoblogrwydd gyda storïau hanesyddol megis *Luned Bengoch* (1946), *Y Dryslwyn* (1947), *Esyllt* (1951) a *Lois* (1955).

2009) a ddilynodd ôl traed R. Lloyd Jones ac Elizabeth Watkin Jones gyda'i straeon antur oedd yn cynnwys cymeriadau hanesyddol Cymreig.

At bwrpas yr astudiaeth hon, dewiswyd testun awdur a ddywedodd iddo 'fynd ati i lunio nofelau i blant' (Jones, T. Ll. 1968, 5). Plant oedd y gynulleidfa darged felly, er bod y nofel *Barti Ddu* 'yn apelio at bob oed' (Thomas, D. A. 1974, 7). Oherwydd iaith y nofel, gellid tybio nad yw'n enghraifft o lenyddiaeth plant sydd wedi croesi ffiniau daearyddol a diwylliannol.<sup>19</sup> Ar y llaw arall, mae poblogrwydd y nofel ymysg darllenwyr Cymraeg wedi goresgyn prawf amser, a'r nofel wedi ei hail-argraffu droeon.<sup>20</sup> Apeliodd y nofel hon fel un i ffocysu'r traethawd arni gan fod sefyllfa *Barti Ddu* yn un ddiddorol – mae iddi gymysgwch o nodweddion trefedigaethol ac ôl-drefedigaethol.

---

<sup>19</sup>Er, mae'n ddiddorol nodi i'r cymeriad hanesyddol, Barti Ddu (neu, Roberts, fel y cyfeirir ato yma), gael ei enwi yn un o'r nofelau enwocaf a astudir ym maes llenyddiaeth plant ac ôl-drefedigaethedd – *Treasure Island* (1883, 88) R. L. Stevenson.

<sup>20</sup>Argraffwyd y nofel gyntaf ym 1973, ac fe'i had-argraffwyd eto ym 1991, 1995, 2003 a 2009.

### c) Y Fframwaith Theoretig a'r Fethodoleg Ymchwil

Oherwydd y cymysgwch o elfennau trefedigaethol ac ôl-drefedigaethol yn *Barti Ddu*, dewiswyd y fframwaith theoretig ôl-drefedigaethol wrth ei dadansoddi. Isod ceir crynodeb o nodweddion y theori sy'n berthnasol i'r traethawd hwn a'r modd y gellid elwa o gymhwyso'r theori i'r nofel dan sylw.

Beth yw'r theori, ac a allwn ei defnyddio wrth ymdrin â Chymru, y Cymry a'u llenyddiaeth? Yn syml, mae ôl-drefedigaethedd yn ddisgwrs ddeallusol ôl-fodernaidd sy'n cynnwys adweithiau a dadansoddiadau o etifeddiaeth ddiwylliannol drefedigaethol. I rai, mae'n label pwrpasol ar gyfer holl gyflwr y byd cyfoes (Childs & Williams 1997, 2); i eraill, term academiaidd yn unig ydyw. Mae'r maes wedi bod yn tyfu yn gyflym ers y 1970au gydag ymddangosiad ymdriniaethau gan ysgolheigion megis Frantz Fanon,<sup>21</sup> Edward Said,<sup>22</sup> Gayatri Spivak,<sup>23</sup> a Homi K. Bhabha,<sup>24</sup> a'r astudiaeth *The Empire Writes Back: Theory and Practice in Post-Colonial Literatures* (Ashcroft et al. 1989).<sup>25</sup>

Mae'r term 'ôl-drefedigaethol' yn awgrymu bod cyfnod arbennig wedi dod i ben, ac yn fwy penodol, bod cyfnod o 'drefedigaethu' wedi gorffen, hynny yw, bod cenedl wedi ennill annibyniaeth oddi wrth bŵer allanol.<sup>26</sup> Awgrymodd Ahmed (1995, 9) y term 'traws-hanesyddol', gan ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n bodoli drwy'r amser mewn un rhan o'r byd neu'r llall – 'so that everyone gets the privilege sooner or later, at one time or another, of being coloniser, colonised and post-colonial – sometimes all at once'; tra bo Ashcroft et al. (1998, 2) yn defnyddio'r term wrth drafod yr holl ddiwylliant a

---

<sup>21</sup>Frantz Fanon (1925-61), i rai, yw'r 'founding father of anti-colonial theory' (Young 1995, 161). Ei weithiau enwocaf a mwyaf dylanwadol yn y maes yw *Black Skin, White Masks* (1952); *A Dying Colonialism* (1959); *The Wretched of the Earth* (1961); *Toward the African Revolution* (1964).

<sup>22</sup>Edward Said (1935-2003) a fathodd y term 'orientalism' ym maes ôl-drefedigaethedd. Prif ymdriniaethau yn y maes yw *Orientalism* (1978); *Nationalism, Colonialism and Literature* (1990); *Culture and Imperialism* (1993).

<sup>23</sup>Disgrifiodd Gayatri Chakravorty Spivak (1942- ) ei hun fel 'practical Marxist-feminist-deconstructionist' (Perumalil 2009, 347). Mae'n bennaf adnabyddus am ei gwaith *Can The Subaltern Speak?* (1988) a'i chyfieithiad o waith theori dadadeiladwaith Jaques Derrida.

<sup>24</sup>*Nation and Narration* (1990); *The Location of Culture* (1994) yw ymdriniaethau enwocaf a mwyaf dylanwadol Homi K. Bhabha (1949- ) yn y maes.

<sup>25</sup>Ers hynny, defnyddir y term 'ôl-drefedigaethol' (*postcolonial*) yn hytrach na 'trydydd byd' (*third world*) neu 'cymanwlad' wrth ddisgrifio llenyddiaeth y manau a wladychwyd gan drefedigaethwyr Ewropeaidd.

<sup>26</sup>I Dirlik (1994, 339), cyfeiria'r term at y cyfnod sy'n dilyn trefedigaethu, pan, ymysg pethau eraill, mae pobl yn dechrau anghofio am ei effeithiau. Serch hynny, ni ddefnyddir y term mewn ffyrdd mor syml, 'post-colonialism can in no sense be regarded as a fully achieved state' (Childs & Williams 1997, 7) gan nad yw'r trefedigaethu bob tro wedi dod i ben pan ddefnyddir yr ansoddair hwn, a throeon eraill fe'i defnyddir ymhell ar ôl annibyniaeth.

effeithir/wyd gan y broses ymerodrol o ddechrau trefedigaethu hyd heddiw.<sup>27</sup> Nid oes daearyddiaeth amlwg i'r ôl-drefedigaethol; mae yma 'extreme unevenness: we are dealing with different empires, different needs, different strategies, different trajectories of expansion or contraction, different levels of territorial penetration, control and exploitation' (Childs & Williams 1997, 10). Yn gyffredinol, mae ôl-drefedigaethedd yn astudiaeth o'r rhyngweithio rhwng ymerodraethau Ewropeaidd a'r cymdeithasau a wladychwyd ganddynt yn y cyfnod modern. Mae'r rhestr o drefedigaethau felly yn un hir. Fe'i defnyddir hefyd wrth ymdrin â lleoliadau sydd wedi'u heffeithio gan drefedigaethedd, ond nid o reidrwydd wedi eu trefedigaethu (Porter 1985, x). Gall achosi cymhlethdod pan mae'n dod at leoliadau sy'n parhau i fod dan bwerau'r trefedigaethwyr, e.e. Ynysoedd Falkland a Puerto Rica, ac yn ddadleuol o bosib Gogledd Iwerddon a Chymru. Ar ben hynny, ceir nifer o wledydd sy'n parhau, yn dilyn annibyniaeth, i fod dan ddylanwad, neu hyd yn oed dan bŵer gwleidyddol, economaidd a diwylliannol y trefedigaethwyr, sy'n ymestyn i fod yn sefyllfa o neo-ôl-drefedigaethedd. Mae'n bosib nad yw dylanwad ymerodrol yn dod i ben wrth i'r grym hwnnw ddod i ben, felly (Childs & Williams 1997, 5). Yn syml, nid oes llinell eglur rhwng y lleoliadau sy'n ôl-drefedigaethol a'r rhai nad ydynt – mae pob sefyllfa yn unigryw.<sup>28</sup>

Mae mwy na thri chwarter poblogaeth y byd heddiw wedi eu dylanwadu mewn rhyw ffordd neu ei gilydd gan brofiad o drefedigaethu, ac mae llenyddiaeth yn cynnig un modd pwysig o fynegi'r canfyddiadau newydd yn ystod, neu yn dilyn, y broses o drefedigaethu (Ashcroft et al. 1989, 1). Cyfeiria'r term 'llynyddiaeth ôl-drefedigaethol' at lenyddiaeth a ysgrifennwyd mewn lleoliadau sy'n flaenorol, neu ar hyn o bryd,

---

<sup>27</sup>Â JanMohamed (1985) gam ymhellach trwy wahanu'r 'ôl-drefedigaethol' yn ddau gyfnod, sef y 'dominant' a'r 'hegemonic'. Tra bo Slemon (1991, 3) yn cyfaddef bod diffiniadau'n amrywio'n fawr: 'but for me the concept proves most useful not when it is used synonymously with a post-independence historical period in once-colonised nations, but rather when it locates a specifically anti- or post-colonial discursive purchase in culture, one which begins in the moment that colonial power inscribes itself onto the body and space of its Others and which continues as an often occluded tradition into the modern theatre of neo-colonialist international relations.'

<sup>28</sup>Yn ôl Mishra & Hodge (1993, 289) nid yw ôl-drefedigaethedd yn 'homogeneous category, either across all postcolonial societies or even within a single one. Rather, it refers to a typical configuration which is always in the process of change, never consistent with itself'. Cred rhai (megis McClintock 1992, ac Ahmed 1995) bod y term yn annerbyniol gan ei fod yn rhoi bri i drefedigaethu fel nodwedd sy'n rhan o adeiladwaith hanesyddol pobl ac yn awgrymu ymrwymiad wrth nodweddion a chysyniadau trefedigaethol, ac felly i raddau'n ail-leoli ac yn ail-ganoli trefedigaethedd. Â Shohat (1992, 104) ymhellach: 'the globalizing gesture of 'the post-colonial condition', or 'post-coloniality', downplays multiplicities of location and temporality as well as the possible discursive and political linkages between 'post-colonial' theories and contemporary anti-colonial, or anti-neocolonial struggles and discourses.'

wedi'u trefedigaethu, neu lenyddiaeth sy'n ymdrin yn benodol â threfedigaethedd. Mae llenyddiaeth ôl-drefedigaethol wedi datblygu trwy nifer o gamau y gellid eu disgrifio fel datblygiadau o ymwybyddiaeth genedlaethol ac ymdrech i wahaniaethu oddi wrth y canol ymerodrol. Gellir rhannu'r astudiaeth o lenyddiaeth ôl-drefedigaethol yn ddau (Lye 1997). Yn gyntaf, yr astudiaeth o'r modd y mae llenyddiaeth gan y trefedigaethwyr yn gwyrddroi profiad a gwirioneddau'r bobl drefedigaethedig gan eu hisraddio. Yn ail, y ffocws ar lenyddiaeth gan bobl a wladychwyd sy'n ymdrechu i fynegi eu hunaniaeth ac adfer eu gorffennol yn wyneb arallrwydd anochel y gorffennol hwnnw, boed yn eu hiaith eu hunain, neu yn iaith 'y canol', sef iaith y trefedigaethwyr (Ashcroft et al. 1989, 5-6). Gall hefyd ymdrin â'r modd y mae llenyddiaeth yn adfeddiannu nodweddion diwylliannol y lleoliadau a drefedigaethwyd. Yr hyn sy'n eu gwneud yn amlwg ôl-drefedigaethol i Adam a Tiffin (1991, xii) yw'r 'resistance to colonialism, colonialist ideologies and their contemporary forms and subjectifactory legacies'. Mae'r math yma o lenyddiaeth yn sefyll allan gan ei fod wedi 'mynd tu hwnt' i drefedigaethedd a'i ideolegau, 'broken free of its lures to a point from which to mount a critique or counter-attack' (Childs & Williams 1997, 4). A yw Cymru a'r Cymry yn ôl-drefedigaethol felly, a sut mae modd dadansoddi ei llenyddiaeth yn nhermau ôl-drefedigaethedd?

Wrth ymdrin â Chymru nid oes 'single magic theory of postcoloniality' (Chun 2000, 379). Nid oes amheuaeth nad oes modd ymdrin â'r termau 'trefedigaethol' ac 'ôl-drefedigaethol' wrth drafod Cymru oherwydd presenoldeb Lloegr (Phillips, R. 2005, 101); serch hynny, rhaid cwestiynu yn gyntaf berthynas Cymru a threfedigaethedd. Gellid dadlau mai rhan o Brydain fu Cymru ers amser maith, ac na ellir ymdrin â'r uned fel un ar wahân. Dadleuodd Chris Williams (2005, 11) mai'r term 'ôl-ymerodraethol' fyddai orau ar gyfer disgrifio Cymru, gan nad yw wedi bod yn drefedigaeth ers yr unfed ganrif ar bymtheg. Ymhellach, gellid mynd mor bell â dadlau bod Cymru'n 'wlad sy'n trefedigaethu eraill ac nid yn drefedigaeth ei hun' (Evans, D. F. 2006, 46) oherwydd ei pharodrwydd i chwarae rhan amlwg yn y broses o greu Ymerodraethau Prydeinig. Oherwydd yr amwysedd hwn, prin y mae'r term 'ôl-drefedigaethol' wedi ei ddefnyddio wrth ddisgrifio Cymru. Dywed O. Thomas (2006, viii) fod hyn yn syndod 'o gofio mai Cymru fu trefedigaeth gyntaf Lloegr'. Cytuna R. R. Davies (1974, 3) ei bod yn rhyfeddol na fu mwy o ddefnydd o'r term o fewn ymdriniaethau hanesyddol o Gymru gan fod Cymru, ar gyfnodau amrywiol, wedi/yn arddangos cynifer o nodweddion cymdeithas drefedigaethol. Mae R. W. Jones (2005, 27) yn honni ei bod yn 'hard to imagine that anyone could seriously seek to deny that Wales was an English colony

from the conquest until the Acts of Union'. Mae felly'n awgrymu cyfnod penodol pan ddaeth trefedigaethu i ben, sy'n arwain at ddealltwriaeth bod Cymru, fel uned, yn ôl-drefedigaethol. Ar y llaw arall, os na dderbyniwn fod Cymru wedi bod nac yn drefedigaeth fel y cyfryw, mae modd dadlau y gellir cymhwyso theori ôl-drefedigaethol wrth drafod cymunedau fel Cymru, 'sydd wedi byw dan gysgod neu fawd cymunedau neu wladwriaethau eraill ac felly wedi rhannu rhai o'r un profiadau â threfedigaethau 'swyddogol' (Foster Evans, D. 2006, 45).

Beth bynnag fo barn rhywun am Gymru fel uned 'drefedigaethol' neu 'ôl-drefedigaethol', mae'n anodd gwadu'r ymdeimlad o 'ongoing cultural colonialism' yng Nghymru: 'Wales may not have seen armies of occupation for some time, but it has felt the economic and cultural consequence of imperialism, and it has suffered its paralysing side-effects, the colonized mentality' (Bala 2005, 234). Trwy'r ymdeimlad o hunaniaeth a pherthynas pobl a thiriogaeth ceir ymatebion amrywiol sy'n arwain at fwy o gwestiynau ynglŷn â pherthnasedd y defnydd o'r termau dan sylw. Rhaid cytuno gyda sylw R. Williams (2003, 7): 'to the extent that we are a people, we have been defeated, colonized, penetrated, incorporated ... you don't live for centuries under the power of others and remain the same people'. Eir i'r afael â'r holl brosesau a fframweithiau meddyliol sy'n rhan o drefedigaethu wrth ddefnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol', a gall hynny ddigwydd trwy edrych ar 'gyfnodau cynnar y trefedigaethu yn ogystal ag ar gyfnodau sy'n dilyn dad-drefedigaethu. Un rhan bwysig o'r maes yw'r gred bendant fod dulliau a strwythurau o feddwl trefedigaethol yn parhau ymhell wedi i'r trefedigaethu 'swyddogol' ddod i ben' (Foster Evans, D. 2006, 45). Gellid cytuno â Hall sy'n dadlau mai ffantasi yw 'fully unified, completed, secure and coherent identity' (Hall, S. 1992, 277). Mae'n theori sy'n ymdrin â syniadau am newid hunaniaeth ac ail-greu'r syniad o genedl a'r hunan, ac sy'n gallu bod yn berthnasol i bob cyfnod mewn amser, gan fod pob cenhedlaeth yn creu delwedd ohoni ei hun (Cox & Dyson yn E. Jones 2008, 41). Does dim amheuaeth felly bod y theori 'of immediate relevance to and for a nation such as Wales, which has relied in recent centuries on a fairly self-conscious imagining of nation' (Bohata 2004, 2).<sup>29</sup>

---

<sup>29</sup>Cynnwys y cysyniad o ddychmygu cenedl yr elfen o'r 'arall', 'a disposition towards solidarity with one's own group as well as towards excluding the "others" from their constructed collective' (Wodak et al. 1999, 4). Gall y trefedigaethwyr ddangos deuoliaethau mewn agwedd tuag at yr Arall, 'as both fearful and envious of him, as both derisive of the Other and, apparently, desiring to be in his place' (Jordan 2005, 63), nid yw'r trefedigaethedig byth yn gyfangwbl wrthwynebus i'r trefedigaethwyr – mae'n sefyllfa hybrid (Aschroft et al. 1998, 13).

Yn ei hastudiaeth o nofelau Cymraeg, sylwodd E. Jones ar y tebygrwydd rhwng yr ôl-drefedigaethol a'r ôl-fodern oherwydd y cysyniad o roi llais i'r di-lais, gwêl eu bod yn lleisio protest y rhai a wêl Gymru fel cenedl ar gyrion y sefydliad Prydeinig (2008, 231). Y mae'r syniad o agwedd a llais yr 'ymylol' yn bwysig i'r theori, yr 'ymylol' bobl hynny y mae Bhabha yn eu galw'n rai ar gyrion 'gofod cenedl' (1997, 30).<sup>30</sup> Sylwodd Raphael Samuel fod hanesyddiaeth wedi gorbwysleisio canologrwydd hanes Lloegr, gan wthio'r ymylol ymhellach i ffwrdd. Dangosodd y ffyrdd roedd y disgysiau amgen, neu'r 'island stories', yn gwneud Seisnigrwydd yn broblematic, ac yn ein gwahodd i'w weld fel un ymysg nifer o ethnigau cystadleuol (1998, 28), gan edrych ar genedl nid fel un prif ddiwylliant ond yn hytrach fel 'union of multiple identities' (Brockliss & Eastwood, 1997). Un o'r elfennau mae Fanon yn ei henwi fel rhan o ymateb ôl-drefedigaethol yw bod cenedl sydd â'i bryd ar ennill ei rhyddid yn ceisio'r hawl i weld ei hanes, a hynny yn 'whole, coherently, integrally' (Said 1995, 259). Dyna a geir felly mewn sawl nofel hanes, sef ymdrech amlwg i geisio poblogeiddio hanes adferedig cenedl. Noda E. Jones (2008, xvii) fod yr ymdrech yma'n amlwg yng Nghymru yn y 1960au, gyda'r 'dyhead ... am wybod mwy am hanes Cymru, ac ag ymdrech haneswyr proffesiynol ac eraill i'w diwallu'. Yn yr un cyfnod roedd y syniad o Gymru fel trefedigaeth yn un 'pwysig yn rhethreg y mudiad iaith a'r mudiad cenedlaetholgar ... roedd y mudiad hwnnw hefyd yn drwm dan ddylanwad gweithiau gwrthdrefedigaethol o Gymru' (Foster Evans, D. 2006, 45), ac ar ddechrau'r 1970au (cyfnod cyhoeddi Barti Ddu) dadleuodd Ned Thomas y gellid ystyried 'llynyddiaeth o Gymru yng ngoleuni llynyddiaeth y Gymanwlad, gan wneud cysylltiad uniongyrchol rhwng Cymru a'r gwledydd a fuasai, neu a oedd, yn rhan o'r Ymerodraeth'. Yn fuan wedyn, cafwyd Raymond Williams (2003, 9) yn disgrifio diwylliant Cymru fel 'a post-colonial culture'. Yng nghanol y bwrlwm hwn, cyhoeddodd T. Llew Jones nifer o gyfrolau ar gyfer plant – sawl un yn ymweld â'r gorffennol ac yn arddangos llais ôl-drefedigaethol, ac yn y penodau sy'n dilyn trafodir y modd y defnyddiodd yr awdur hanes er budd cyflwyno arwr o'r gorffennol mewn llynyddiaeth Gymraeg i blant. Pa nodweddion ôl-drefedigaethol eraill sy'n berthnasol i'r nofel dan sylw, a sut ydym yn elwa o ddadansoddiad ôl-drefedigaethol ohoni, felly?

Nodwyd eisoes mai nofel antur sydd dan sylw yn y traethawd hwn. Fe gysylltwyd y

---

<sup>30</sup>Mae llais 'ymylol' yn dathlu cymysgrywedd a hunaniaeth doredig, yng Nghymru gallai gynnig 'a privileged angle of observation, a place from where one can relate Wales to England and Wales to its own history and myth, to the various "imagined communities" which constitute the idea of "Wales" as the nation experienced by different people at different times' (di Michele 1993, 30).

genre antur gyda threfedigaethedd a'r byd ymerodrol gan sawl un, a hynny i'w weld orau gyda'r nofel a gysylltir gan amlaf â'r genre antur, *Robinson Crusoe* (McGillis 1999b, xxvii). Nodweddwyd y genre antur y tu allan i Gymru gan awduron Saesneg megis Rudyard Kipling a Rider Haggard.<sup>31</sup> Ymdriniwyd â'r llenyddiaeth yn nhermau 'trefedigaethedd' am resymau amlwg – disgrifiwyd ynddynt orchfygiad pobl a ddarluniwyd yn israddol (ac fel dihirod gwyllt, yn aml) gan ddynion gwynion uchelwrol. Trafodwyd y straeon fel enghreifftiau o lenyddiaeth sy'n hyrwyddo'r Ymerodraeth Brydeinig gyda'r bwriad o ddylanwadu ar feddylfryd darllenwyr a datblygiadau trefedigaethol y dyfodol. Ymdriniwyd ymhellach â'r llenyddiaeth yn nhermau 'ôl-drefedigaethedd' wrth i feirniaid mewn lleoliadau trefedigaethedig ymwrthod â'r darluniau hyn o bobl israddol, a chwestiynau i ba raddau mae'r llenyddiaeth yn mynd y tu hwnt i drefedigaethedd.<sup>32</sup> Cwestiynir yn y traethawd hwn yr hyn sy'n digwydd felly yn *Barti Ddu*, sef nofel Gymraeg i blant sy'n arddangos deuoliaeth trwy bortreadu môr-leidr (dihiryn israddol, i bob pwrpas) mewn stori antur (genre Prydeinig, am wynion uwchraddol, i bob pwrpas). Môr-ladron a geir yn *Barti Ddu*, a sylwodd Nodelman ar y cyswllt rhwng dihirod a bachgendod: 'many children's books focus on a solitary male bravely confronting danger and being deemed a hero as a result of it ... many books present masculinity as a force in opposition to the law, to manners and to the social fabric ... the boys who are praised tend to be the lawless outsiders, not the law-abiding plodders ...' (2002, 11). Ymhellach, cysylltwyd arwyr o ddihirod gyda system hierarchaidd drefedigaethol: '... for a long time our conscious minds have been fettered by stories and images that serve to maintain a dominator system ... the all too familiar archetype of the hero as killer (all the way from Odysseus to Rambo) inculcates the minds of both men and women with the notion that domination and conquest serve to justify men's domination over [others]' (Zweig, C. 1990, 35). Yn ei waith dylanwadol *Culture and Imperialism*, ffocysodd Said ar y berthynas rhwng ffuglen ac imperialaeth, gan ddymuno gweld eraill yn dadansoddi nofelau sy'n ail-gynhyrchu ideoleg ymerodrol. Yr hyn a geir ym Mhennod 2 yw

---

<sup>31</sup>Ganwyd Kipling ym Mombay ym 1865, ond symudodd ei deulu i fyw yn Lloegr pan oedd yn 5 oed. Mae'n enwog am ei straeon antur i blant, megis *The Jungle Book* (1894) a *Kim* (1901); ei straeon byrion, gan gynnwys *The Man Who Would Be King* (1888); a'i farddoniaeth, gan gynnwys *The White Man's Burden* (1899). Yn y gerdd hon ceir y gyfeiriadaeth gyntaf ar syniadaeth 'Baich y Dyn Gwyn' – sef cysyniad ideolegol yng ngwasanaeth imperiaeth y Gorllewin. Poblogeiddiwyd yr ymadrodd gan drefedigaethwyr fel cyfiawnhad dros imperialaeth.

Awdur straeon antur oedd Haggard, sy'n enwog am sefydlu genre llenyddol y *Lost World*. Ei nofel enwocaf yw *King Solomon's Mines* (1885), a dyma'r nofel gyntaf yn y Saesneg i gael ei lleoli yn Affrica.

<sup>32</sup>Gweler McGillis, gol. (1999); Meek, gol. (2001); Ní Bhroin (2005b); Lassén-Seger (2006); a Coghlan & O'Sullivan, gol. (2011).



dadansoddiad o *Barti Ddu* fel nofel sy'n amlygu'r hyn alwodd Stephens yn: 'the hegemonic masculinity's obsession with power and control' (2002, xiii), gan ymateb ychydig i ddymuniad Edward Said.

Ym Mhennod 3, rhoddir sylw i'r cysyniad o arallrwydd a gwahaniaeth. Ym 1978, cyhoeddodd Said ei waith enwocaf, *Orientalism*, ac ynddo ffocysir ar y syniad o arallrwydd. Gan ganoli ei ddadl ar y ddeuoliaeth rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain, beirniadodd y term *Orientalism* fel rhywbeth gwrthgyferbyniol i'r Gorllewin, neu'r *Occident*. I Said, golygai'r *Orient* bopeth mae'r Gorllewin yn ei weld yn israddol, anfoesol neu'n negyddol, hynny yw, yr 'arall' i'r *Occident* moesol. Mae'n dadlau bod *Orientalism* yn ffantasi orllewinol gelwyddog am Asia a'r Dwyrain Canol sy'n israddio'r bobl, gan fawrygu'r Gorllewin. Casgla fod y Gorllewin yn paentio darlun israddol, difreintiedig o'r Dwyrain – lle rhyfedd, benywaidd a gwyllt, gan roi cyfle i'r Gorllewin ddarlunio'u hunain fel rhywbeth uwchraddol – lle blaengar, rhesymegol, cryf, gwrywaidd a dinesig. Aeth Bhabha â'r syniad am arallrwydd ymhellach, trwy weld gwerth mewn dadansoddi'r 'gwahaniaeth' a amlygir mewn ôl-drefedigaethedd. Ym Mhennod 3 cwestiynir pwy yw'r israddol, y rhyfedd, a'r anifeilaidd, gan ddadansoddi arwyddocâd hynny yn nhermau ôl-drefedigaethol.

Un arallrwydd amlwg yn y genre antur yw'r gwahaniaethu cenedl, ac israddio'r benywaidd. Dadansoddir ym Mhennod 3 y modd y portreedir y benywaidd yn *Barti Ddu*, gan gwestiynu arallrwydd ac israddoldeb y fenyw. Rhoddir yma sylw i gysyniadau'r theoriwraig Spivak am roi llais i'r distawedig, yr hyn y galwodd hi'n *subaltern* – y trefedigaethedig ar un llaw, a'r benywaidd mewn stori antur ar y llaw arall. Beirniada Spivak y rhai sy'n anwybyddu 'diwylliannau'r arall' (y *subaltern*), gan gynnig dulliau y gallai'r Gorllewin eu defnyddio i hunan-feirniadu syniadaeth orllewinol o'u dealltwriaeth o'r hyn a geir mewn ôl-drefedigaethedd. Casgla fod 'no space' (1988, 303) i'r *subaltern* 'siarad' a gwneud eu diddordebau a'u profiadau'n wybyddus i eraill ar eu termau eu hunain. Yma, gwelir theori ôl-drefedigaethedd yn cyffwrdd â theori ffeminyddiaeth. Fel y trefedigaethedig, mae menywod wedi rhannu profiadau o orthrwm, ac wedi cael eu gorfodi i fynegi eu hunain yn iaith y gormeswyr, ac felly eu gorfodi i greu eu hiaith a'u 'llais' eu hunain. Ym Mhennod 3, trafodir amwysedd pŵer y fenyw yn y nofel, a'r modd y mae'r amwysedd yma'n nodweddiadol o lenyddiaeth ôl-drefedigaethol (Mallan 2002, 22).

Amwysedd pellach sy'n haeddu sylw yn y traethawd hwn yw'r cysyniadau a fathwyd gan Bhabha – cymysgrywedd (*hybridity*) a dynwared (*mimicry*). Yn ôl Bhabha, mae'r termau yma'n disgrifio'r ffyrdd mae'r bobl a drefedigaethwyd wedi gwrthsefyll pŵer y trefedigaethwyr gan achosi newid i awdurdod pŵer. Un ffurf ar ddynwared a ddisgrifir gan Frantz Fanon yn ei gyfrol enwocaf, *Black Skin, White Masks*. Yma, gwelir dylanwad Sigmund Freud a Jacques Lacan arno, gyda dadansoddiad o effeithiau seicolegol pobl dduon yn dilyn trefedigaethedd. Mae'n dadlau bod y bobl dduon wedi'u trawsnewid, nid yn unig fel gwrthrychau trefedigaethedig dan gyfundrefn imperialaidd Ffrainc, ond hefyd yn fewnol a seicolegol – eu hewylllys wedi trawsnewid i fod yn wyn, fel eu bod bellach gyda chroen du dan fwgwd gwyn. Mae'n honni bod y duon wedi ymddieithrio oddi wrth eu diwylliant eu hunain yn dilyn ymdeimlad o israddoldeb a grëwyd gan y trefedigaethwyr – y bobl wynion. Awgryma bod trefedigaethedd yn arwain at y ddealltwriaeth mai hanes, diwylliant, iaith, arferion, a chredoau'r trefedigaethwyr yw'r norm, a'u bod yn uwchraddol i'r diwylliant brodorol lleol. Pwysleisia Fanon bod angen deall y broses yma er mwyn darganfod dull o'i drawsnewid yn ôl, gan ddechrau gydag ymwrthod â'r trawsnewid o ddu i wyn. Mae'n cynnwys dad-drawsnewid, o ganlyniad i fethiant y trawsnewid. Yn yr un modd, dywed yn *The Wretched of the Earth* (1963) bod y brodorol wedi eu creu a'u trawsnewid gan drefedigaethedd i fod yn 'frodorol' – wedi eu gorfodi i weld eu hunain fel yr arall, dieithriaid yn eu diwylliant, iaith, a'u tir eu hunain. Yma, mae'n amddiffyn y defnydd o drais gan bobl a drefedigaethwyd fel dull o frwydro am annibyniaeth, 'decolonisation is always a violent phenomena' (1963, 27). Edrychir ym Mhennod 3 ar y gymysgrywedd a'r dynwared sy'n rhan o gymeriadau, ac yn rhan o fywyd ar y môr.

Math arall o gymysgrywedd yn y nofel yw'r defnydd o iaith. Eglura Ashcroft et al. (1989, 7) y modd y mae iaith yn troi'n rhywbeth hierarchaidd gyda phob testun nad yw yn iaith y canol yn cael ei ystyried yn israddol, ac felly yn iaith y perifferi, gan ddadlau bod ymwrthod â defnyddio iaith y canol yn profi ymddangosiad llais ôl-drefedigaethol effeithiol. Ym Mhennod 3, ceir dadansoddiad o'r nodweddion ieithyddol yn *Barti Ddu*, gan drafod arwyddocâd y defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal ag elfennau megis tafodiaith, yn nhermau cymysgrywedd ac arallrwydd. Themâu eraill y gellid eu trafod yn nhermau perifferi yn y nofel ydyw gofod a lle. Yn ôl Ní Dhuibhne: 'literary theorists have identified borderlands as transitional places of special significance' (2001, 29). Ymhellach dadleua Said: 'the outlying regions of the world have no life, history, or culture to speak of, no independence or integrity worth representing' (1993, xix). Ym

Mhennod 3 ystyrir arwyddocâd Cymru, yn y nofel, fel lleoliad a wthiwyd i'r ffiniau yn nhermau ôl-drefedigaethol, yn ogystal â gofod y môr fel un liminal, ffiniol, a di-dir. Arwain hyn at gwestiynau ynglŷn â hunaniaeth, a chyswllt gofod a hunaniaeth.

Elfen bwysig mewn llenyddiaeth ôl-drefedigaethol ydyw'r sylw a roddir i leoliad a dadleoliad, ac felly'r argyfwng o safbwynt hunaniaeth. I Glissant, ac eraill, mae hanes a llenyddiaeth yn cerdded law yn llaw, ac felly mae gwahanol hanes yn awgrymu gwahanol lenyddiaeth, ac yn fwy penodol, llenyddiaeth genedlaethol a grëir fel 'the self assertion of new peoples, which one call their rootedness and which is today their struggle' (1989, 101). Y mae'r syniad a'r ddelwedd o wreiddiau yn nodwedd hollbwysig, oherwydd gwelir cyswllt rhwng pobl a thir, a'r nodweddion penodol sydd ynghlwm â lleoliad (Braithwaite 1979). I ategu hyn, dywed Lye fod llenyddiaeth ôl-drefedigaethol yn arddangos arallrwydd a gwrthsafiad ac wedi'i ysgrifennu o brofiadau lleol penodol (1997). Fel y nodwyd eisoes, mae *Barti Ddu* yn nofel am fôr-leidr, ac felly mae'n dilyn nad yw wedi'i leoli mewn gofod 'tir' penodol. Cwestiynir ym Mhennod 3 yr hyn sy'n digwydd yn *Barti Ddu* pan fo arwr y stori wedi ei ddadleoli a'i dynnu o'i 'wreiddiau' ac felly yn 'ddi-dir'.

Ynghlwm wrth y syniad o 'wreiddiau', yn ôl Fanon, mae brwydro yn erbyn trefedigaethedd yn cynnwys y broses o 'hawlio'n ôl' eu hanes eu hunain gan y trefedigaethwyr, yn hytrach na derbyn fersiynau negyddol neu anweledig y trefedigaethwyr o'u hanes, 'it is the fight for national existence which sets culture moving and opens to it the doors of creation' (1963, 197). Pwysleisia bwysigrwydd diwylliant a chynrychiolaeth y gorffennol fel rhan hanfodol o ffurfio cyfnod ôl-drefedigaethol annibynnol a chadarnhaol. Mae'r pwyslais ar greu neu ail-ddarganfod fersiynau newydd o hanes i raddau'n debyg i waith yr ôl-strwythurwr Michel Foucault. Mae'r pwyslais pennaf ar fodolaeth 'ymwybyddiaeth genedlaethol', a'i fod yn bodoli'n unig os yw'r 'native decides to put an end to history of colonization ... and to bring into existence the history of the nation – the history of decolonization' (Fanon 1963, 51). Pwysleisia Fanon bod rhaid i '[e]very man or woman bring the nation to life by his or her action' (1963, 132). Yn ôl Stephens: 'texts for young audiences are not mere narratives, but have an orientation toward models and ideologies already present in culture and, by giving these narrative form, may reinforce them and refract them back to the culture ...' (2002, 40). Yn y rhan olaf o'r traethawd, trafodir y modd y defnyddiodd yr awdur arwr a digwyddiadau o'r gorffennol, a chwestiynir y modd y mae'r nofel yn

ymateb i gyflwr y presennol gyda'r posibilrwydd o effeithio ar y dyfodol.

Arwain hyn at arwyddocâd y nofel yn nhermau adeiladu cenedl a hunaniaeth – sef y prif reswm am y defnydd o theori ôl-drefedigaethol ar gyfer yr ymchwil hwn. Gan mai llenyddiaeth plant yw un o'r ffyrdd cyntaf y daw plentyn ar draws stori, mae'n chwarae rhan bwysig yn y modd yr ydym yn meddwl am, ac yn deall, y byd a'r hunan (Rose 1984). Mae llenyddiaeth plant yn elfen ddiwylliannol sy'n cyffwrdd bron â phob unigolyn, 'the childness of a text can change the childness of the child, and vice versa' (Hollindale 1997, 47). Yn aml, llenyddiaeth plant yw'r bachyn sy'n meithrin diddordeb mewn darllen a llenyddiaeth.<sup>33</sup> Mae gan lenyddiaeth plant ddylanwad cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol o bwys wrth fod y syniadau, moesau, a'r gwerthoedd a gyflwynir ynddynt yn dylanwadu ar y darllenwyr (Meek 1996, 2). Nodwyd gan Reynolds (2011, 4) y gall testunau a ysgrifennwyd ar gyfer plant hefyd fod yn ffynhonnell wybodaeth hanesyddol bwysig, gan gyflwyno gwybodaeth am blant y gorffennol a'u hamgylchfyd. Mae'n ffynhonnell hefyd a all gyflwyno gwybodaeth am gymdeithas, eu trefniant, a'r modd y rheolwyd hwy. Â Reynolds ymhellach drwy egluro:

this is not a straightforward process; traditional ideas may be preserved in earlier texts, or deliberately promoted in conservative contemporary works or unconsciously perpetuated in those that uncritically hold up a mirror to current social trends. At the same time, many stories given to children today are retellings of traditional stories ... and adjust the schemata by which we interpret the world. The dialogue they create between old and new ways of thinking can be another way both to sow and nurture the seeds of social change, as seen in the way children's literature has contributed to developments in the areas of equality and diversity ... writing for children is a rich but for long undervalued source of information about culture as well as a contribution to it. (2001, 5)<sup>34</sup>

Mae llenyddiaeth plant yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am ddiwylliant – ffynhonnell a danseiliwyd am amser maith (Galway 2008).

---

<sup>33</sup>Disgrifiodd yr ysgolhaig Bedwyr Lewis Jones y modd yr ysbrydolwyd ef yn llwyr gan stori antur E. Morgan Humphreys: 'Rwy'n dal i gofio darllen Dirgelwch Gallt y Ffrwd am y tro cyntaf, yn hogyn tua'r deg oed ... Fe'm cyfareddwyd ganddo ... Wrth ddarllen roeddwn i'n byw'r digwyddiadau – yn dal fy ngwynt yn stydi'r gweinidog yn y nos, yn cyffio i gyd wrth groesi'r twll arswydus yn yr ogof. Mae cyffro'r darlenniad cyntaf hwnnw yn para yn y cof o hyd.' (1983, 47).

<sup>34</sup>Un enghraifft dda o stori o'r fath yw chwedl yr Hugan Fach Goch. Rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif cafwyd degau o fersiynau o'r chwedl, a gellid honni bod yr addasiadau yn ddrych i'r cymdeithasau a'u creodd hwy. Gweler: *The Trials and Tribulations of Little Red Riding Hood* (1993) a olygwyd gan Jack Zipes – mae'r darluniadau ynddynt eu hunain yn dangos llawer o'r trawsnewid hwn. Mae bodolaeth a phoblogrwydd clwb darllen y *Letterbox Library* – sy'n arbenigo mewn cynnig catalog llyfrau arbennig sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth ers 1983 – yn brawf o'r datblygiad hwn, ac hefyd yn brawf o'r angen am fodolaeth clwb o'r fath.

Mae'r traethawd hwn yn ymwneud â pherthynas llenyddiaeth plant a chymdeithas, diwylliant ac iaith. Yn y gorffennol, mewn disgwrs am lenyddiaeth Gymraeg, ni chafwyd ymdriniaethau manwl â'r dulliau y mae llenyddiaeth plant wedi cynnig golwg ar y gymdeithas a'r diwylliant a'i creodd. Trwy astudio llenyddiaeth plant, gellir cyfrannu at ddealltwriaeth newydd o hanes llenyddol cenedl a phobl, a swyddogaeth y llenyddiaeth hon yn natblygiad syniadaeth am hunaniaeth Gymraeg a Chymreig. Yn yr unig gyfrol Gymraeg sy'n astudiaeth o lenyddiaeth plant, *Dewiniaid Difyr* (Jones, M. & Jones, G. gol. 1983),<sup>35</sup> honna Prichard (60) bod 'ysgrifennu ar gyfer plant yng Nghymru yn grwsâd, yn grefft, neu'n gelfyddyd. I lawer, crwsâd ydyw. Cariad at iaith sy'n ysbrydoli'r awduron hyn ac yn eu cynhyrfu'. Dros y blynyddoedd cafwyd awduron yn ysgrifennu oherwydd eu bod yn teimlo'r angen am lyfrau yn yr iaith Gymraeg er parhad yr iaith. Gwelwyd, yn yr un modd, awduron yn ysgrifennu megis 'crwsâd' gan hyrwyddo bywyd Cymreig, neu'r hyn, o bosib, y mae'r awduron neu'r gymdeithas ar y pryd yn tybio yw bywyd Cymreig, neu nodweddion Cymro neu Gymraes dda. Mae'r berthynas rhwng awdur o oedolyn, a darllynydd o blentyn, yn un glòs iawn, ac felly hefyd yn un ddylanwadol; gall llenyddiaeth plant, felly, fod yn arf bwysig i bobl sydd am hyrwyddo syniadau. Gall llenyddiaeth feithrin balchder cenedlaethol a theyrngarwch yn ei darllenwyr a chynorthwyo yn y broses o ddod i adnabod yr hunan, yn ogystal â dod i adnabod bwriad neu deimladau awdur. Yn yr un modd â chynnig drych i fwriad awdur, gall llenyddiaeth plant fod yn ddrych i'r gymdeithas sy'n ei chynhyrchu. Mae bodolaeth math penodol o lenyddiaeth yn awgrymu rhai pethau am y cyfnod a'r bobl a gynhyrchodd y llenyddiaeth. Mae'n bosib i lenyddiaeth gynnig golwg ar bryderon neu obeithion cymdeithas a gall stori gynnig dealltwriaeth o arferion cymdeithas cyfnod penodol. Trafodir yma'r modd yr hyrwyddir Cymreictod yn *Barti Ddu*, a'r modd y ceisir ennyn teimladau o hunaniaeth ac o berthyn, yn ogystal ag ystyried i ba raddau mae'r nofel dan sylw yn cynnig drych i'r cyfnod a'i creodd, ac ym mha fodd y mae'r cyfnod a'i creodd wedi dylanwadu ar y nofel.

Pwrpas yr ymchwil a'r astudiaeth hon yw cyflwyno syniadau newydd am fodd o ddarllen a deall testun penodol, sef testun llenyddol i blant. Mae theorïwyr wedi dadlau mai'r ffurf lenyddol orau ar gyfer dychmygu'r genedl yw'r nofel, gan na all unrhyw

---

<sup>35</sup>Fel y nodwyd, ychydig o ymdriniaethau Cymraeg a geir yn y maes. Rhai o'r pwysicaf heblaw am *Dewiniaid Difyr* (1983) a olygwyd gan Mairwen a Gwynn Jones yw'r erthygl 'Llenyddiaeth Gymraeg i blant: arolwg o'r sefyllfa bresennol' (1997) gan Gwilym D. Jones; erthygl 'Darganfod Plant Bach: Sylwadau ar Lenyddiaeth Plant yn Oes Victoria' (1974) gan R. Tudur Jones; a'r erthyglau 'Children's Literature in Welsh to 1950' (1998) yn 'A Nation and its Books: a History of the Book in Wales' (1998) gan Menna Phillips.

ffurf arall gynrychioli mor effeithiol y syniad o 'special community ... moving calendrically ... through time', sef yr hyn sy'n creu cenedl fodern (Anderson 1983, 25-26). Rhaid ystyried, hefyd, fod gan y nofel ffuglennol y gallu i 'probe in detail and depth the multiform social and psychological effects on individuals and communities of such a phenomenon as postcolonialism, it is not surprising that it is primarily the novelists of a nation who have hitherto traced the literary record of its encounter with colonization or imperialism' (Aaron 2005, 137).

Bydd yr ymchwil hwn yn defnyddio syniadau theori ôl-drefedigaethol i ymdrin â nofel Gymraeg i blant a gyhoeddwyd ym 1973. Gobeithir ateb cwestiynau ynglŷn ag amwysedd hunaniaeth y môr-leidr o Gymru, a rôl y môr fel lleoliad ar gyfer arbrofi â chysyniadau ôl-drefedigaethol am y canol a'r perifferi. Ymdrinnir hefyd â'r modd y mae'r awdur yn edrych i'r gorffennol am ysbrydoliaeth ac yn defnyddio'r nofel hanes fel arf adeiladu-cenedl. Cwestiynir yr hyn y gall y llenyddiaeth ei ddysgu inni am y gymdeithas a'r cyfnod a'i creodd. Y bwriad yma yw: '[to] begin a discussion rather than end it' (Thomas, A. 2005, 86). Edrychir yn gyntaf ar *Barti Ddu* fel enghraifft o nofel antur, gan ystyried pa mor 'Brydeinig' a 'threfedigaethol' yw'r nofel ar y naill law, cyn symud ymlaen i ystyried pa mor 'Gymreig' ac 'ôl-drefedigaethol' yw'r nofel ar y llaw arall.

## **Pennod 2**

***Barti Ddu* fel Stori Antur**

## a) Cyflwyniad

Defnyddir yr enw 'stori antur' (*adventure story*) neu 'nofel antur' (*adventure novel*) i gyfeirio at genre o straeon a nofelau sy'n cynnwys antur, taith gyffrous, ymladd gelynyion a diwedd glo buddugoliaethus, fel ei phrif thema (Reynolds 2011, 83). Gall gynnwys ystod eang o sefyllfaoedd – o fordaith ar y moroedd mawr i gyrch at ganol llywodraeth lygredig, neu o chwilfa drysor i orchest fentrus o waith ditectif. Yn ddiau, mae'r genre wedi chwarae rhan allweddol ym myd llenyddiaeth plant (Pearson 2011, 90). Ond mae'r amrywiaeth eang o gyfrolau a elwir yn rhai 'antur' yn cymylu ffiniau'r genre gan groesi a/neu gyfuno sawl genre; yn wir, gellid cytuno mai 'few texts can be regarded as *only* adventure' (Grenby 2008, 172). O ganlyniad, ceir cymysgedd o genres yn aml o fewn straeon antur, megis ffantasi, ffuglen hanesyddol, straeon teuluol, straeon ysgol, ac yn y blaen. Fodd bynnag, er yr amrywiaeth posibl o destunau y gellir eu galw'n 'straeon antur', mae gan y genre ei hunaniaeth neilltuol arbennig ei hun, ac mae'n bosibl olrhain llinyn clir o wreiddiau'r genre yn y ddeunawfed ganrif hyd heddiw.

Yn y bennod hon, ceir golwg ar nodweddion yr hyn a labelir yn 'stori antur Brydeinig', a datblygiad y stori antur i blant yng Nghymru a thu hwnt, cyn trafod *Barti Ddu* T. Llew Jones fel stori antur ac iddi elfennau trefedigaethol y stori antur Brydeinig.

## b) Nodweddion a Datblygiad y Genre<sup>36</sup>

Mae antur yn rhan greiddiol o bob chwedloniaeth. Yn yr Oesoedd Canol byddai plant ac oedolion Cymru wedi gwrandao'n astud ar straeon o'r Mabinogion, ac yn Lloegr ceid chwedlau megis *Bevis of Hampton* (mewn testun ers y 13eg ganrif) a *Robin Hood* (mewn testun ers y 15fed ganrif) (Butts 1996, 326). Yn ddiweddarach, ceid llenyddiaeth antur yn y Saesneg megis straeon cyffrous am anturiaethau morwrol *Robinson Crusoe* (1719) Daniel Defoe a *Gulliver's Travels* (1726) Jonathan Swift. Er bod y testunau hyn wedi eu bwriadu ar gyfer cynulleidfa o oedolion, nododd Jean-Jacques Rousseau (yn ei destun dylanwadol *Émile* ym 1762) mai dyma'r unig lyfrau addas i'r ifainc ar y pryd.

---

<sup>36</sup>Am ymdriniaethau cyffredinol ar y genre antur gweler: *Children's Literature: An Illustrated History* (1995) a olygwyd gan P. Hunt; *Written for Children: An Outline of English-Language Children's Literature* (1983) gan J. R. Townsend; a *Deconstructing the Hero: Literary Theory and Children's Literature* (1997) gan M. Hourihan.



Sefydlwyd nifer o brif nodweddion genre y stori antur adnabyddus gan *Robinson Crusoe* (1719), nofel sy'n adrodd stori Crusoe, y morwr a gafodd ei longdryllio ar ynys ddiffaith (Pearson 2011, 92). Yn ystod y stori caiff Crusoe ei brofi dro ar ôl tro gan wynebu sefyllfaoedd sy'n ei orfodi i ddangos dewrder, cryfder corfforol a hunangynhaliath. Mae hefyd yma thema grefyddol gref sydd yn y bôn yn ddameg fwriadol i arddangos pwysigrwydd ufudd-dod, ffyddlondeb, ac ymdrech yr unigolyn. Tra ar ynys bellennig caiff Crusoe ei orfodi i feistroli sgiliau a fyddai'n ei alluogi i fyw yn annibynnol mewn lleoliad naturiol. Unwaith mae'n arddangos ei rinweddau crefyddol, ei feiddgarwch a'i hunandibyniaeth, mae'r naratif yn ei wobrwyo gydag achubiaeth a dychweliad at gymdeithas. Mae'r manylion ymarferol yn y stori yn fodd o addysgu'r darlennydd am hanes naturiol a sgiliau goroesi, tra ar yr un pryd yn cynnig addysg grefyddol a moesol (Pearson 2011, 93). Mae'r nodwedd hon i'w chael mewn nifer o straeon antur. Ceir mewn nofelau antur nifer o ddisgrifiadau diddorol, gan alluogi'r darllenwyr i ddychmygu eu hunain yn yr un mathau o sefyllfaoedd. Trwy gyflwyno'r broses o arbrofi a rhesymu fel sgil goroesi pwysig, mae awduron straeon antur yn ceisio annog darllenwyr i ddatblygu'r dyhead i ddysgu sgiliau cyffelyb eu hunain.<sup>37</sup>

Roedd gwaith Defoe mor boblogaidd nes iddo arwain at gyfres o ddynwarediadau trwy Ewrop a elwir yn *Robinsonades*, sef testunau a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer cynulleidfa o blant.<sup>38</sup> Gwelwyd addasiadau Cymraeg o *Robinson Crusoe* (1719) Defoe. Yr enghreifftiau cyntaf oedd: *Bywyd hynod a gweithredoedd rhyfeddol y dewr a'r gwrol Robinson Crusoe* gan awdur/on dienw yn y blynyddoedd 1795 [argraffwyd gan J. Tye], 1810 a 1816 [J. Evans], 1824 a 1825 [John Jones], 1839 [T. Price], 1842 [L. E. Jones], 1857 [J. Jones]. Ceid hefyd *Bywyd ac anturiaethau rhyfeddol Robinson Crusoe, yr hwn a fu byw wyth mlynedd ar hugain mewn ynys anghyfannedd, wedi ei fwrw yno pan dorrodd y llong arno* (1800) gan awdur dienw [cyhoeddwyd gan H. Humphries]; *Robinson Crusoe Cymreig* (1857) gan Hugh Williams a William Rees [John Williams]; *Bywyd ac anturiaethau rhyfeddol Robinson Crusoe* (1860) [E. Jones]; *Helyntion Robinson Crusoe* (1923) [Southall a'i Gwmni]; a *Bywyd ac anturiaethau Robinson Crusoe (gwaith Daniel Defoe)* (1928) [Gwasg Prifysgol Cymru]. Gan na nodir yn

<sup>37</sup>Nodwedd sy'n amlwg mewn testunau megis *The Children Of The New Forest* (1847) gan F. Marryat, ac yn ddiweddarach gyfres *The Famous Five* (1942-63) gan Enid Blyton.

<sup>38</sup>Daw'r term o'r Almaeneg *die Robinsonade* sy'n cyfeirio at genre Ewropeaidd o straeon antur realistig (Phillips, Richard 1997, 6).

wahanol, ymddengys mai addasiadau Cymraeg ar gyfer oedolion oedd y rhain; serch hynny, ni ellir bod yn sicr na'u darllenwyd gan blant. Un o'r *Robinsonades* Saesneg enwocaf oedd *The Swiss Family Robinson* (1812) gan Johann Wyss (1743-1818), a ysgrifennwyd yn fwriadol ar gyfer diddanu ac addysgu meibion yr awdur. Seiliodd ei gymeriadau ar ei feibion, gan ychwanegu cryfderau ac arbenigeddau, a thrwy hyn arddangos y modd y gall pobl wahanol gyfrannu at gymunedau mewn ffyrdd gwahanol. Ceid un *Robinsonade* gyda theitl Cymraeg, sef *Yr Ynys Unyg* (1852) gan Julia De Winton. Saesneg yw iaith y ffuglen hon, ac fe'i addaswyd yn *Welsh Family Crusoes* (1857) gan awdur di-enw yn ddiweddarach, gan dderbyn cynulleidfa fwy eang na'i ragflaenydd (Phillips, Richard 1997, 35).

Mae lleoliad y straeon antur fel arfer yn anghyfarwydd ac yn aml yn egsotig. Mae'r lleoliadau hyn yn ychwanegu drama i'r stori ac yn fynych yn gweithredu fel modd symbolaidd o atgyfnerthu'r syniad o rwystrau moesol y mae'r arwr yn brwydro i'w gorchfygu. Yn ôl Butts (1996, 326), dangosodd Walter Scott (1771-1832), trwy ei ramant hanesyddol *Waverley* (1814), nad oedd rhaid i straeon antur cyffrous fod wedi eu lleoli ar ynys bellennig, ac y gallent fod yr un mor gynhyrfus wedi eu lleoli yn y gorffennol, a bu i'w lwyddiant yn hyn o beth fod yn fodd o sefydlu'r nofel hanes. Dilynwyd Scott gyda nofelau tebyg gan J. F. Cooper (1789-1851), yn eu mysg *The Pioneers* (1823), am ymdrechion Ewropeaid i hawlio Gogledd America. Ar yr wyneb, dywed straeon antur ychydig iawn wrthym am 'gartref', gan ganolbwyntio ar yr hyn alwodd Campbell yn 'zone unknown' antur, gofod anghyfarwydd lle mae trysor a pherygl i'w cael (Campbell 1949, 580). Er nad oedd awduron fel Defoe, Scott a Cooper o bosib yn bwriadu i'w nofelau gael eu darllen gan blant, fe'u mabwysiadwyd ganddynt yn awchus (Butts 1996, 326).

Cysylltwyd syniadau am imperialaeth â'r stori antur yn fuan iawn wrth i sawl un sylwi mai dameg o drefedigaethu Prydeinig oedd bywyd Crusoe ar ei ynys bellennig gyda'i was croenddu (Butts 1996, 326). Ceir thema adeiladu-ymerodrol gref yma – gorchfyga Crusoe yr ynys ac yn ddiweddarach y brodorion, gan greu ei deyrnas ei hun lle mae'n cymryd mantais o reolaeth lwyr. Arweiniodd y diddordeb hwn yng ngweithredoedd cyffrous imperialaeth Brydeinig mewn lleoliadau pell i ffwrdd at hinsawdd ddiwylliannol ym Mhrydain a ddatblygodd yr awydd mewn plant i ddarllen am anturiaethau a chanddynt arwyr o'r un oedran. Cyd-ddigwyddai'r chwant am straeon antur gyda datblygiad Prydain fel ymerodraeth bwerus, ac felly'r diddordeb yn yr

Ymerodraeth Brydeinig:

Children's Literature became boys' literature; it focused its attention on the Empire and the Frontier; and the virtues it taught were dash, pluck, and lionheartedness, not obedience, duty and piety. (Green 1980, 220)

Cynrychiolai'r arwyr, mewn llenyddiaeth Saesneg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefydliad y goron a gwerthoedd yr Ymerodraeth Brydeinig (gweler gwaith F. Marryat a G. A. Henty er enghraifft). Un o nodweddion cryfaf y genre, yn gyffredinol, yw'r gred dros gyfiawnder meddiannu tiriogaeth dramor, a'r honiad fod yr Ymerodraeth Brydeinig yn offeryn dihafal o harmoni a chyfiawnder – derbyniwyd y ddelwedd hon gan amlaf yn anfeiriadol gan y nofelwyr (Butts 1996, 332). Tan yn ddiweddar, ychydig enghreifftiau o ferched a welwyd mewn straeon antur, a byddent yn chwarae rhannau bychain yn unig yn yr anturiaethau – gwerthoedd gwrywaidd oedd, ac sydd, flaenaf yn y genre antur.<sup>39</sup> Gwryw gwyn, uchelwrol fyddai'r arwr gan amlaf yn ôl Dryden (2000, 8), cymeriad cryfach a mwy deallus na'r cymeriadau benywaidd, pobl o dras wahanol, neu rai o ddsbarthiadau is cymdeithas.

Yn ôl Butts (1996, 330), nodwedd bwysig i'r genre yw'r cyfuniad o'r hynod a'r tebygol – ni fyddai stori ac iddi ddigwyddiadau diflas yn cyffroi'r darlennydd; ond, ar y llaw arall, byddai cyfres o ddigwyddiadau hynod yn rhy anghredadwy i'r darlennydd. Cynnwys y straeon ddigwyddiadau anghyffredin ond heb fod yn anghredadwy, a rhaid iddynt ddatblygu'n naturiol o gynnwys y stori er mwyn sicrhau bod gan y darlennydd hyder yn y stori. Y dull gorau o wneud hyn, fel arfer, yw dewis arwr sy'n fachgen cyffredin yn ei ardegau, bachgen o deulu parchus ond nid o gartref cyfoethog. Nid bachgen arbennig o alluog nac analluog, ond cymeriad gyda digon o synnwyr cyffredin a hyder i fentro. Mae dechrau'r stori fel arfer yn disgrifio'r arwr ifanc mewn argyfwng sy'n rhoi cipolwg ar ei ddewrder. Gan amlaf, â Butts ymlaen i egluro, o ganlyniad i argyfwng teuluol, gadawa'r arwr ei gartref, ac â ar daith hir a pheryglus er mwyn chwilio am berthnasau newydd neu i wella ei fywyd rywle arall; mae hefyd yn gyffredin i'r arwr fod yn blentyn amddifad, neu iddo golli ei dad yn fuan yn y stori.

---

<sup>39</sup>Gweler y drafodaeth ar *Luned Bengoch* (1983) gan Elizabeth Watkin Jones yn yr adran nesaf o'r bennod hon. Enghraifft ddiweddar, mewn llenyddiaeth Saesneg, o arwres mewn antur (a ffantasi) yw cyfres boblogaidd Phillip Pullman, *His Dark Materials* (1995-2000). Dilyna'r gyfres anturiaethau merch yn ei harddegau, Lyra, a'i chyfaill, Will. Er mai benywaidd yw'r prif gymeriad, mae hi'n domboi, ac felly'n arddangos nodweddion rhinweddol bachgendod. Yn ddiweddarach, ymddangosodd cyfres *The Hunger Games* (2008-2010) gan Suzanne Collins sy'n adrodd am ferch yn ei harddegau sy'n brwydro, yn gorfforol, am ei bywyd. Yn y 1950au a'r 1960au ymddangosodd genre lled-newydd a labelir yn 'Girls with Guns' mewn llenyddiaeth (yn cynnwys merched fel prif gymeriadau cryf sy'n ymladd), ond yn bennaf mewn animeiddiad a ffilm.

Dadluedd Bristow (2009, 137), 'the adventure story ... would take a boy into areas of history and geography that placed him at the top of the racial ladder and at the helm of all the world'. Dengys nifer o'r testunau yr angen i orchfygu'r gwyllt, gan bwysleisio uwchraddoldeb hiliol Ewropeaidd (Pearson 2011, 99). Dadluedd Bristow (2009, 141) i'r genre symud o fod yn boblogaidd i fod yn barchus wrth i Brydain chwilio am ddulliau o ddod â bechgyn dosbarth gweithiol i gyswllt â syniadaeth ymerodrol, gan gynnig modd atyniadol o ddysgu am hanes, daearyddiaeth a gwerthoedd angenrheidiol ar gyfer gwasanaethu'r Ymerodraeth Brydeinig. Ceid, felly, destunau megis gwaith R. M. Ballantyne (e.e. *The Coral Island*, 1857), yn dathlu dyfeisgarwch, dewrder a gwerth bechgyn Prydeinig mewn straeon taith i diroedd tramor (Pearson 2011, 100).

Yn aml, caiff yr arwr gwmni cyfaill ffyddlon yn ystod ei daith, weithiau ar ffurf dirprwy dad (dyn hŷn felly), neu weithiau ffrind o blith y brodorion (Butts 1996, 331). Er yn berson cyffredin mewn sawl ffordd, mae'r arwr yn aml yn berchen ar allu arbennig sy'n angenrheidiol iddo yn ystod ei antur, ac wrth i'r arwr barhau gyda'i daith fe wyneba amrywiaeth o anawsterau sy'n bygwth ei gyrch; datblyga'r stori trwy gyfres o argyfyngau bychain cyn cyrraedd uchafbwynt y stori, sy'n aml yn frwydr waedlyd yn erbyn y gelyn (Butts 1996, 331). Fel arfer, mae'r arwr yn goroesi, a thua diwedd y stori caiff ei wobrwyo gyda chyfoeth a pharch (Hourihan 1997, 9-10). Mae 'diwedd glo hapus' yn nodwedd gref gan amlaf:

the firm closure in these stories insists upon the particular values of the hero and his world, but the closure is meaningful in itself for it implies that unequivocal success is attainable, that all problems are soluble, that certainty is possible. (Hourihan 1997, 52)

Serch hynny, weithiau mae'r diwedd glo'n fwy na'r 'diwedd glo hapus' confensiynol – weithiau mae'r arwr yn darganfod y gwir am ei deulu, ac felly ei wir hunaniaeth, ond gan amlaf mae'n dychwelyd adref yn gyfoethog ac at groeso cynnes ei deulu (Butts 1996, 331).

Gan amlaf, yn enwedig yn nechreuadau'r genre, byddai'r arwr yn weddol dduwiol; ond, er i'r arwr ddangos awydd i wneud yr hyn sy'n iawn bob tro, erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif fe'i portreadir yn aml yn fwy seciwlar a chenedlaetholgar (Butts 1996, 330). Er nad yw crefydd yn amlwg yn y straeon antur a gynhyrchwyd o ail ran y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, amlygant fwriad yr awduron i arwain y darllenwyr tuag at

deyrngarwch, dewrder a gonestrwydd, gan amlygu agwedd hierarchaidd tuag at gymdeithas, a gwahaniaethu ar sail rhyw (Butts 1996, 331-2). Gall y stori antur gynnig arwyr a dihirod sy'n cadarnhau gwerthoedd ac ideoleg y cyfnod ysgrifennu yn hyn o beth.

Fodd bynnag, gallai'r straeon antur adlewyrchu agweddau mwy amwys tuag at yr ymerodraeth, ac un enghraifft o hyn, yn ôl Pearson (2011, 100) yw *Treasure Island* (1883) R. L. Stevenson. Er bod llawer o nodweddion y stori antur ymerodrol yma, mae ambell elfen sy'n cyfleu amwysedd. Mae Jim, y prif gymeriad, yn hytrach na bod yn symbol o foesoldeb, dewrder, a gwroldeb Prydeinig, yn cael ei atynnu at y môr-ladron yn un peth; ac mae'r ynys, yn hytrach na bod yn lleoliad dan reolaeth Jim, yn ynys felltgedig sy'n achosi iddo ddioddef hunllefau erchyll. Serch hynny, sefydlwyd yn *Treasure Island* nifer o'r elfennau a welir yn ddiweddarach mewn testunau antur traddodiadol i blant, megis y môr-leidr ungoes, parot y môr-leidr, a'r 'Smotyng Du' (sef yr hyn a roddwyd i fôr-ladron er mwyn datgan rhybudd swyddogol o golli lle ar y llong). Erbyn cyfnod *Treasure Island*, roedd cyflwyno deunydd darllen 'antur' i blant yn faes llenyddol enfawr ar y pryd – gyda chyfnodolyn *The Union Jack: Tales for British Boys* (1880-1883) a llyfrau straeon antur yn cael eu cyhoeddi gan fwy neu lai bob gwasg gyhoeddi yn Lloegr.<sup>40</sup> Fe welwyd hyd yn oed y Gymdeithas Tractiau Crefyddol (*Religious Tract Society*) yn lansio ym 1879 y *Boy's Own Paper* (1879-1967),<sup>41</sup> ac fe ddilynodd nifer o'r gweisg eraill y syniad hwn nes bod dros gant o gylchgronau seciwlar ar gyfer bechgyn wedi eu cyhoeddi ym Mhrydain rhwng 1855 a 1901, gan ddenu cyfraniadau gan yr enwocaf o awduron straeon antur y cyfnod (Butts 1996, 329).<sup>42</sup>

Tua'r un cyfnod datblygodd y stori antur Gymraeg yng nghyfnodolion plant Oes Fictoria ond araf iawn oedd datblygiad y genre yn y Gymraeg oherwydd dylanwad natur

---

<sup>40</sup>Golygwyd *The Union Jack: Tales for British Boys* (1880-1883) gan W. H. G. Kingston (1814-1880), ac yn ddiweddarach G. A. Henty (1832-1902). Daeth Henty yn un o awduron mwyaf toreithiog straeon antur bechgyn yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg (er enghreifftiau *Out on the Pampas: The Young Settlers* ym 1871 a *With Clive in India: or the Beginnings of Empire* ym 1884).

<sup>41</sup>Yn cyd-redeg â'r *Boy's Own Paper* cafwyd *Girl's Own Paper* (1880-1956), cynnwys disgwyliadwy sydd iddynt – antur, annibyniaeth, gwyddoniaeth a goroesiad i'r bechgyn, a pherthnasau emosiynol, bywyd cartref (domestig), gwniadwaith a hufen croen i'r merched. Dylid nodi mai dyma hefyd gyfnod *Alice's Adventures in Wonderland* (1865) gan Lewis Carroll, sydd wedi peri dadlau dros rywioldeb a rôl cenedl rhywiau.

<sup>42</sup>Awduron megis R. M. Ballantyne (1825-1894), W. H. G. Kingston (1814-1880) ac R. L. Stevenson (1850-1894). Mae'n ddiddorol sylwi i nifer o'r awduron hyn fyw bywydau anturiaethus iawn eu hunain cyn setlo i ysgrifennu, a gellir tybio i hynny ddylanwadu'n gryf a'u hysbrydoli i ysgrifennu deunydd o'r fath.

Rhai o'r cyfnodolion eraill ymddangosodd o fewn y genre oedd *Boys of England* ym 1867; *Sons of Britannia* ym 1876; *The Halfpenny Marvel* ym 1893; *The Union Jack* ym 1894; a *Pluck* ym 1894.

grefyddol y cyhoeddiadau. Ym 1879, cafwyd *Anturiaethau Albert Maywood: neu Fywyd ymysg Indiaid America* gan Thomas Levi ar ffurf nofel gyfres yn *Trysorfa y Plant*, cylchgrawn y Methodistiaid Calфинаidd i blant. Gwelwyd trwy'r anturiaethau hyn fod yr awydd am antur yn dechrau cydio gan fod y rhain yn wahanol iawn i gynnwys arferol y cylchgrawn, gyda'i stori gyffrous ac eithriadol o dreisgar (ceir elfennau o ladd a dial yma). Fel y dengys Rosser (2009, 133), nid darlun realaidd o gysylltiad ymfudwyr gwyn â brodorion America a geir yma, ond defnydd o ddelwedd lenyddol boblogaidd yr 'Indiaid Cochion' er budd hybu ac addysgu Cristnogol. Dengys Rosser fod y stori hon, dan ddylanwad trwm ffuglen Saesneg, ar ffurf 'rhamant y ffin' (*frontier romance*), a chafwyd nifer o'r straeon hyn yng nghylchgronau'r cyfnod ar gyfer oedolion.<sup>43</sup> Gresynai Daniel Owen fod cynifer o straeon y cyfnod yn ddim 'ond adlewyrchiadau ac efelychiadau o nofelau Saesneg' (Millward 1973, 245), ac addasiad o nofel Americanaidd oedd stori *Albert Maywood* hefyd (Rosser 2009, 134).

Pan gyflwynwyd *Treasure Island* (1883) Stevenson, ni cheid yng Nghymru ar y pryd destun gwreiddiol tebyg iddo yn y Gymraeg. Dengys E. Morgan Humphreys fod nifer o ddarllenwyr brwdfrydig troad y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn troi at ddarllen cyfrolau Saesneg er mwyn derbyn deunydd anturus. Yn ei Ragymadrodd goleuedig i'w gyfrol *Dirgelwch yr Anialwch ac ystraeon ereill* noda:

Bwriadwyd y llyfr yn bennaf ar gyfer bechgyn yn yr oed hwnnw pryd y teimlir dyddordeb mewn anturiaethau a bywyd gwyllt yn yr awyr agored. Hyd y gwn i ychydig iawn o ystraeon ar bynciau felly a ysgrifennwyd yng Nghymraeg, a bu raid i lawer o honom ddarllen llyfrau Saesneg er mwyn cael yr hyn oedd arnom ei eisiau. Mewn canlyniad peidiasom a darllen Cymraeg am gyfnod lled faith ... Hoffwn pe medrid cadw bechgyn Cymru Fydd rhag yr un brofedigaeth, canys colled anadferadwy i fachgen ydyw colli ei gysylltiad, hyd yn oed am dymor, â llenyddiaeth ei wlad a'i iaith ei hun. Os rhydd yr ystraeon hyn ryw faint o bleser i fechgyn, ac os gwnânt rywbeth i fagu ynddynt ryw faint o flas ar ddarllen Cymraeg, byddaf yn ddigon boddlon. (1911, 5)

Awdur a deimlai fod yna fwlch wedi bodoli mewn llenyddiaeth Gymraeg addas i blant tra'n ddarllenydd ifanc ei hun, ac yn ymgeisio i lenwi rhywfaint ar y bwlch hwnnw, a geir yma. Gresyna mai deunydd cyfrwng Saesneg yn unig a fodolai ar gyfer bodloni'r awch am antur a welid ymysg darllenwyr y Gymraeg. Mae'n amlwg fod ganddo deimladau cryf ynglŷn â'r cysylltiad rhwng unigolyn, llenyddiaeth a chenedl, a dymuna i'w nofel ef fod yn fwynhad i fechgyn gan eu hybu i ddarllen mwy o Gymraeg. Ceir

---

<sup>43</sup>Er enghraifft, *Yr Anwariad Gwyn* (1866-7); *Brynteg, neu Hawl i'r Tir* (1870-1); *Yr Ail Bwyth neu Y Waredigaeth Wyrthiol* (1874) – oll yng nghylchgrawn oedolion *Baner ac Amserau Cymru*.

yma felly'r elfen o wasanaethu iaith ynghyd â chenedl.

Ddechrau'r ugeinfed ganrif, gyda datblygiadau gwyddonol a thechnolegol pellgyrhaeddol, cafwyd newid yng nghynnwys y straeon antur Saesneg i fechgyn, gydag ymddangosiad ceir ac awyrennau. Gyda dirywiad yr Ymerodraeth Brydeinig a rhyfeloedd ar y gorwel, pylu hefyd a wnaeth y diddordeb mewn gwaed a therfysg. Serch hynny, roedd y genre antur ar y cyfan yn bell o fod yn farw – yn hytrach, newidiodd a datblygodd ei gymeriad. Dylanwadwyd ar y maes o'r 1930au ymlaen gan waith W. E. Johns (1893-1968) a gyhoeddodd dros gant o nofelau am y cymeriad *Biggles* (1932-1968) a'i anturiaethau. Rhoddodd hyn werth newydd a gwahanol i arwriaeth a gwladgarwch. Er mai adloniant oedd ei brif fwriad, fel ei ragflaenwyr fe deimlai'r angen i addysgu:

I teach a boy to be a man, I teach sportsmanship according to the British idea ... I teach that decent behaviour wins in the end as a natural order of things. I teach the spirit of team work, loyalty to the Crown, the Empire and to rightful authority. (Trease 1965, 80)

Parhaodd thema Prydeindod yn amlwg yn y testunau hyn felly.

Eisoes soniwyd am gyfraniad E. Morgan Humphreys, 'un o bennaf arloeswyr ysgrifennu straeon ar gyfer bechgyn yn Gymraeg' (Jones, B. L. 1983, 47), ar droad y ganrif. Parhaodd i gyflwyno testunau Cymraeg i blant, a chafwyd saith nofel Gymraeg i blant rhwng 1911 a 1951 ganddo. Ceir ynddynt sôn am deithio, llofruddio, gwaith ditectif, brwydro, dewrder, cyffro, môr-ladron, smyglo, rhyfeloedd, llongddrylliad, cariad, trysor, gwrthryfeloedd a rhywfaint o hanes Cymru. Yn sicr, 'yn hanes llenyddiaeth antur yn Gymraeg maent yn gam pwysig ymlaen' (Jones, B. L. 1983, 49). Dangosir rhywfaint o ddylanwad nofelau Saesneg cynharach arnynt, gyda benthyciadau megis 'y dyn drwg yn dwyn treftadaeth yr arwr' o *Kidnapped*, a 'miwtini, trysor a map' o *Treasure Island* (Jones, B. L. 1983, 50). Yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, ymunodd awduron eraill ag ef, megis R. Lloyd Jones gydag wyth o nofelau antur yn y 1920-30au. Ceir blas ar y môr yn *Ynys y Trysor* (1925), *Atgofion Hen Forwr* (1926), *Mêt y Mona* (1929), ac *Ym Môr y De* (1936), a cheir ynddynt drysor, dihirod, gwledydd pell, llongddrylliadau, lladd, ynysoedd pellennig a digon o nodweddion bywiog a chyffrous;

plant, ran amlaf, yw prif gymeriadau ei nofelau, hogiau oedd â'u bryd ar fynd i'r môr ... hawdd yw dychmygu pleser plant yn yr ugeiniau wrth ddarllen ei waith, gan mor wahanol oedd y deunydd i lawer o'r hyn a gynhyrchwyd cyn hynny. (Jones, G. 1983a, 109)

Wrth i lenyddiaeth plant ddatblygu'n fwyfwy seciwlar o ddechrau'r ugeinfed ganrif, gwelwyd awduron yn ymryddhau o afael llenyddiaeth efengylol Oes Fictoria. Datblygiad yw hwn sydd yn mynd law yn llaw â datblygiad y stori antur Gymraeg, wrth i awduron beidio â themlo dyletswydd bellach i addysgu a diwygio'r darllenwyr.

Ganol yr ugeinfed ganrif, chwaraeodd straeon antur mewn cyd-destunau hanesyddol ran bwysig yn natblygiad y genre, gydag ymddangosiad *Bows Against the Barons* (1934) gan G. Trease a *The Eagle of the Ninth* (1954) gan R. Sutcliff.<sup>44</sup> Ym 1946 yng Nghymru, cafwyd yr argraffiad cyntaf o *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin Jones. Dyma nofel gan athrawes, gyda chymeriad benywaidd yn nheitl y nofel, ac felly o bosib yn brif arwres y nofel (gyda'i chyfaill Rhys Fychan fel cymeriad cydradd o ran pwysigrwydd, ac Owain Glyndŵr fel arwr cefndirol). Gwelir yma nodweddion cyffredin y genre antur, megis trysor, ogof, carcharu a rhyddhau arwyr, llongddrylliad, a diwedd glo hapus. Cyfnod Gwrthryfel Glyndŵr sydd yma, gyda'r gwrthryfelwyr Cymreig yn ennyn cydymdeimlad llwyr. Ceir yma anturiaethau Luned Bengoch a Rhys Fychan (arwyr dewr, herfeiddiol a bonheddig) wedi'u lleoli yn Nant Gwrtheyrn; mae'r cymeriadau yn fodlon peryglu eu bywydau er achos Glyndŵr. Cyfiawnheir achos y gwrthryfel yn y nofel oherwydd i'r awdures ddarlunio'r sefyllfa mewn modd eithafol trwy bortreadu'r Saeson fel cenedl farus a thrachwantus sy'n gorthrymu'r Cymry.

Dechreuodd ysgrifenyddwyr y 1950au a'r 1960au ymateb i sefyllfaoedd gwleidyddol eu bywydau, a daeth straeon rhyfel yn rhan bwysig o ddatblygiad y genre antur. Un o'r nofelau rhyfel enwocaf yw *The Silver Sword* (1956) gan I. Serrailier, sy'n ein hatgoffa o'r traddodiad antur a grëwyd yn *Crusoe* wrth i griw o blant greu cymuned eu hunain yng ngwylltir gweddillion y rhyfel.<sup>45</sup> Gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd, datblygiadau cymdeithasol a dadleniadau newydd trwy'r radio a'r teledu, dechreuwyd gweld y byd fwyfwy fel pentref byd-eang. Yn ôl Butts:

The ideology of an expanding and self-confident British empire, which had underpinned the rise of the nineteenth-century adventure story, was gradually eroded, and its replacement by a troubled, multiracial and democratic humanism sought new forms of story-telling. (1996, 335)

---

<sup>44</sup>Awduron eraill oedd yn ysgrifennu straeon hanesyddol oedd G. Avery, H. Burton, C. Harnett, K. Peyton a B. Willard.

<sup>45</sup>Nofelau plant eraill sydd wedi'u gosod mewn cyfnod rhyfel ac yn defnyddio nodweddion y genre antur i drafod pynciau gwleidyddol yw *I Am David* (1963) gan A. Holm, a *The Other Side of Truth* (2000) gan B. Naidoo. Yn 2007 cafwyd addasiad Cymraeg o nofel Morris Gleitzman *Boy Overboard* (2003), *Bachgen yn y Môr*, gan Elin Meek, sy'n trafod sefyllfa wleidyddol Affganistan ac antur dau blentyn wrth geisio gwireddu eu breuddwydion.



Cafwyd datblygiadau pellach tua'r 1950au pryd y gwelwyd arwyr o gymeriadau difreintiedig yn dod i'r amlwg yn hytrach na'r gwych a'r anhygoel (Butts 1996, 335-6).<sup>46</sup> Yn ddiweddarach gwelwyd merched yn chwarae rôl bwysicach yn y nofelau antur, a'r dyfodol yn lleoliad amseryddol poblogaidd. Parhau mae'r datblygiadau yn y stori antur wrth i gymdeithasau cyfoes newid a datblygu.

Gwelwyd bod ffiniau'r genre antur Prydeinig, fel y'i ceid gan Defoe ac eraill yn ddiweddarach, yn niwlog, ond mae nifer o elfennau sydd wedi nodweddu'r genre ar draws y canrifoedd, ac mae llenyddiaeth antur hyd heddiw yn glynu at nifer o'r nodweddion hynny. Mae'r gwahaniaeth rhwng straeon antur i oedolion a straeon antur i blant hefyd yn niwlog. Mae hanes y genre yn cynnig enghreifftiau clir o ffiniau hydraiddd ffuglen plant – ymddangosodd *Robinson Crusoe* Daniel Defoe (1719), *Gulliver's Travels* Jonathan Swift (1726) a *Last of the Mohicans* James F. Cooper (1896) fel llyfrau i oedolion yn wreiddiol, ond fe'u haddaswyd yn gyflym iawn ar gyfer darllenwyr ifainc. Yn yr un modd, yn llawer mwy diweddar, ymddangosodd cyfresi antur a ffantasi *Harry Potter* (1997-2007) J. K. Rowling a *His Dark Materials* (1995-2000) Philip Pullman fel llyfrau i blant yn wreiddiol, ond cawsant groeso gan gynulleidfaoedd o oedolion yn gyflym iawn.<sup>47</sup>

Gellid dadlau, fel y gwnaeth Campbell (1949) a Butts (1996), fod straeon antur gyda'u defnydd o blotiau fformwlaig a chymeriadau stoc/stereotypeip, mewn dyled i strwythur y chwedlau gwerin traddodiadol. Enghraifft yw'r strwythur o adael cartref a mynd ar daith, cyn dychwelyd yn arwr llwyddiannus megis mewn straeon tylwyth teg. Sefydlwyd ac adeiladwyd prif nodweddion y stori antur fodern yn llenyddiaeth Saesneg y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Llenyddiaeth a ysgrifennwyd yn bennaf ar gyfer plant, ac yn bennaf ar gyfer bechgyn, yw'r straeon antur hyn. Mae'r prif nodweddion hyn i'w gweld mewn llenyddiaeth antur hyd heddiw. Dros y canrifoedd, ni

---

<sup>46</sup>Dewisodd R. Sutcliff (1920-1992) arwr anabl yn yr Oes Efydd ar gyfer *Warrior Scarlet* (1958), a disgrifiodd L. Garfield bortreadu bywyd lleidr pocedi yn *Smith* (1967) (Butts 1996, 336).

<sup>47</sup>Er i *His Dark Materials* gael ei marchnata ar gyfer cynulleidfa ifanc, nid oedd yn fwriad gan yr awdur i'r gyfres fod ar gyfer cynulleidfa ifanc yn unig: 'I don't think about the readers at all ... I'd like the largest audience possible, please. When you say, "This book is for children", what you're understood as saying is "This book is NOT for adults." I don't want that. I'd like to think that I'm telling the sort of story that holdeth children from play and old men from the chimney corner ... Everyone is welcome, and no one is shut out' (gweler cyfweiliad di-enw, di-ddyddiad ar-lein: *The Man Behind the Magic: An Interview with Philip Pullman*). Yn ogystal, mae llyfrau ffeithiol am anturiaethau a theithiau wedi gwneud cyfraniad pwysig i'r genre; enghraifft o hyn yw'r cyfrolau ac addasiadau i blant o gofnodion ymchwiliadau James Cook yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

welwyd mewn llenyddiaeth Gymraeg gymaint o straeon antur ag a geid yn Saesneg.

Gellid cytuno â G. Jones pan ddywed:

ac ystyried fod môr ar dair ochr i'n gwlad, a thraddodiad mynd i'r môr yn gryf mewn llawer ardal, mae'n rhyfedd na fuasai gennym fwy o nofelau yn ymwneud â themâu morwrol – llongdrylliadau, môr ladron, ymfudo, smyglo ac anturiaethau yn y gwledydd pell. (1983c, 107)

Rhaid oedd aros hyd nes 1960 pryd y cyflwynodd T. Llew Jones arwyr tra gwahanol i blant Cymru, yn fôr-ladron, lladron pen ffordd a therfysgwyr. Dyma arwyr mwy lliwgar a llai parchus o lawer nag a geid mewn llenyddiaeth Gymraeg flaenorol i blant. Dyma gymeriadau a fyddai'n aml iawn yn ymddangos fel dihirod yn hytrach nag arwyr.

Nesaf, edrychir yn fanwl ar gyfraniad T. Llew Jones, ac ar y modd y mae un o'i nofelau enwocaf, *Barti Ddu*, yn cyfateb i'r genre yma.

## c) *Barti Ddu* a Genre y Stori Antur

### i) *Barti Ddu o Gasnewy' Bach*

Cyhoeddwyd *Barti Ddu o Gasnewy' Bach* ym 1973 gan Wasg Christopher Davies, Llandybïe; gydag argraffiadau pellach ohoni ym 1991, 1995 (Gwasg Christopher Davies) a 2003 (Gwasg Gomer). Ar glawr pob cyhoeddiad o'r nofel, *Barti Ddu* yn unig a geir fel teitl; ychwanegir *o Gasnewy' Bach* ar y clawr mewnol. Ceir dwy bennod ar hugain yn cynnwys y bennod â'r teitl *Diweddglo*; mae hyd pob pennod yn amrywio, a cheir tua 65,000 o eiriau yn y nofel. Ni cheir unrhyw ddarluniau yn y nofel, ac mae llun y clawr yn amrywio rhwng argraffiadau. Ar glawr blaen y gwreiddiol ceir darlun llaw du a gwyn o ddwy long ar fôr tymhestlog, gyda llun o ddyn yn gorwedd ar ei fol ac wedi'i glymu ar y clawr cefn. Ar glawr 1991 a 1995 gwelir paentiad llaw mewn lliwiau daearol o ddwy long ar fôr tawel. Mae clawr yr argraffiad diweddaraf, 2003, yn bortread lliwgar o fôr-leidr mewn dillad crand, gyda phistol mewn un llaw, a chleddyf yn y llall; y tu cefn iddo ceir darlun o faner y môr-ladron sef penglog ac esgyrn croes (yr hyn a adnabyddir fel y *Jolly Roger*).<sup>48</sup> Ceir argraffiad o ran o'r nofel mewn casgliad o waith yr awdur, *Trysorfa T. Llew Jones* (tt. 15-20, 2004, golygwyd gan T. D. Jones). Cynnwys y gyfrol ran o *Barti Ddu*, sef rhan o Bennod 21 pan ddychwel Barti ac Abram i Gymru. Yn y casgliad hwn, ceir darlun tudalen lawn – darlun lliw o fôr-leidr ar draeth yn edrych ar ddyn mewn dillad plaen yn cerdded i ffwrdd, gyda sach ar ei gefn, gan chwifio. Mae'r môr-leidr mewn dillad crand gyda chlustlws aur yn ei glust, gwallt a barf hir, ddu, het â phlun ynddi am ei ben, cleddyf a phistol yn crogi o'i gorff, a sach yn ei law.

Ysgrifennwyd *Barti Ddu*, yn ôl dyddiaduron personol yr awdur, rhwng Ionawr 1971 a Mai 1972.<sup>49</sup> Rhwng diwedd 1973 a mis Mawrth 1974 cafwyd adolygiadau o'r nofel yng nghylchgronau a phapurau newydd *Y Genhinen*, *Barn*, *Y Cymro*, *Y Faner*, ac *Y Tyst*; a

<sup>48</sup> Dyma'r faner a welir yn y cyfryngau torfol gan amlaf pan bortreedir môr-ladron, er bod llawer iawn o faneri gwahanol wedi eu defnyddio, rhai du neu goch fel arfer, a'r bwriad oedd dychryn (Burl 1997, 29). Rhaid cofio fod gan y Barti Ddu go iawn ddwy faner y gwyddys amdanynt, ac mai ef oedd y cyntaf i gyflwyno'r ffaswn o faner ddu gydag esgyrn gwyn arni (Stevens 2011, 46). Ar faner bersonol Barti Ddu ceir darlun ohono'i hun yn gafael mewn awrwydr gydag ysgerbwd; mae'r ysgerbwd hefyd yn gafael mewn picell wenfflam, neu saeth, ac mae calon yn diferu tri dafn o waed o dan yr awrwydr. Mae ei ail faner yn enwocach (Breverton 2004a, 113); arni ceir portread o Barti Ddu yn gafael mewn awrwydr a chleddyf wenfflam, gyda'i ddwy droed yn sefyll ar ddwy benglog wedi'u labelu â *ABH* ac *AMH* – '*A Barbadian's Head*' ac '*A Martinican's Head*' – dyma'i ffordd o arddangos ei wylltineb at ymdrechion awdurdodau'r ynysoedd hynny i'w ddal (Cordingly 1995b, 116; Johnson 1998, 190, 202).

<sup>49</sup> Mae papurau T. Llew Jones ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Yma, cyfeirir at y dyddiaduron yn ôl dyddiad ysgrifennu'r sylwadau. Cafwyd hawl gan ddeiliaid yr hawlfraint i ddyfynnu o'r dyddiaduron yn y traethawd hwn. Mae rhifau galw'r dyddiaduron yn y Llyfrgell Genedlaethol fel a ganlyn: Dyddiadur 1971: LIGC Llsg 23816B; Dyddiadur 1972: LIGC Llsg 23817B; Dyddiadur 1973: LIGC Llsg 23818C; Dyddiadur 1974: LIGC Llsg 23819C.

chyfeiriwyd ati yn ddiweddarach mewn cyfweiliadau â T. Llew Jones.<sup>50</sup> Dengys y dyfyniadau dilynol o'r dyddiaduron y drafferth a gafodd T. Llew Jones wrth ysgrifennu'r nofel:

- 25 Mawrth 1971: '... araf iawn y mae'r gwaith yn dod yn ei flaen'  
 09 Chwefror 1972: "Barti Ddu' – stori anodd i'w sgrifennu yw hi'  
 10 Chwefror 1972: 'Yn ceisio sgrifennu tipyn ond yn methu'  
 29 Chwefror 1972: '... yn ceisio sgrifennu tipyn – dim ond rhyw 65 o linellau a rheini'n rhai sâl iawn'  
 11 Ebrill 1972: 'Mae'r nofel hon wedi mynd yn fwrn arnaf – a thebyg y bydd hi felly i'w darllen. Ond mae ynddi ddarnau gweddol a rhaid dal ymlaen sbo'  
 12 Ebrill 1972: '1000 o eiriau arall heddiw, ond mae'r stori'n ddifywyd'  
 24 Ebrill 1972: 'Mae fy nofel ... yn fwrn arnaf – ac ofnaf ei bod yn gwblw aflwyddiannus at hynny'  
 26 Ebrill 1972: 'Ceisio dod o hyd i rywfaint o ynni i fynd ymlaen a'r stori am Barti Ddu. Methu.'  
 02 Mai 1972: 'Gobeithio y caf fi well hwyl ar bethau ar ôl gorffen Barti Ddu'  
 12 Mai 1972: 'Mae Barti Ddu ar fin dod i ben – diolch i'r nefoedd'  
 16 Mai 1972: '... gweithio'n galed i orffen Barti Ddu. Mae'n nofel faith – ond mae'n fethiant llwyr. Dyna gyfaddefiad ynte?'  
 17 Mai 1972: 'Mae'r nofel ar stop yn awr eto. Methu'n lan a dod a hi i fwcwl'  
 22 Mai 1972: 'Fi'n gorffen sgrifennu ... ac rwyf wedi llwyddo i sgwennu stori sâl iawn er imi roi llawer o'm hamser a'm meddwl i'w gwneud yn stori dda. Fel yna y mae sbo. Fe ddylwn ei thafu i'r tân ond mae arnaf awydd cael y £150'

Ac yna, flwyddyn yn ddiweddarach, tra bo'r nofel yn y wasg:

- 26 Mehefin 1973: 'Y gweddill o broblemau hir Barti Ddu yn dod gyda'r post heddiw. Wrthyn nhw drwy'r dydd. Llawer o waith cywiro arnynt, gan mai Saeson yw'r cysodwyr mae'n debyg'  
 03 Hydref 1973: 'Cael copïau (12) o'm nofel newydd 'Barti Ddu' o Wasg y Dryw. Cael fy siomi'n fawr iawn gan nifer o wallau argraffu ynddi – sydd yn fy marn i yn ddigon i'w dinistrio i'r darllenwyr. Wfft i'r gweisg Cymreig. Maent yn gwblw amrhoffesiynol [*sic*]'  
 05 Hydref 1973: 'Fi'n ddig iawn fod Llyfrau'r Dryw wedi cawlio a dinistrio fy nofel Barti Ddu – y bum i'n gweithio mor galed wrthi – sgrifennu llythyr iddynt heddiw'

<sup>50</sup> Cyfweiliadau â'r awdur: *Llais Llyfrau* (10, Gaeaf 1968, 4-6); *Hamdden* (V, 46, Chwefror 1969, 127-8); *Y Cymro* (21 Medi 1976, 28; 28 Medi 1976, 28) *Barn* (210/211, Gorff/Awst 1980, 238-41); *Cyfaredd y Cyfarwydd* (Teifi 1982, 116-23); *Tivy-Side Advertiser* (5 Mawrth 1997, t. 6); *Y Faner Newydd* (22, Haf 2002, 42-3); *Taflen Adnabod Awdur* (Cyngor Llyfrau Cymru 2004).

yn gofyn iddynt alw'r copïau a ddsbarthwyd i'r siopau etc. yn ôl i gyd a mynd ati i ail-gysodi'r darnau sy'n tramgwyddo. Oni wnânt fe ysgrifennaf lythyr i'r Cymro a fydd yn poethi eu clustiau!

Yna, ymddengys iddo gael ei fodloni â'r gwaith argraffu yn y diwedd:

29 Tachwedd 1973: 'Copi diwygiedig, glân o Barti Ddu yn cyrraedd heddiw o'r diwedd'

Er mai i'r tân yr hoffasai T. Llew Jones weld ei nofel yn mynd ar un cyfnod, derbyniodd y nofel adolygiadau ac ymateb cadarnhaol ar y cyfan, bu 'yn ail yn siart y Cymro ... ar ôl bod am dair wythnos ar y top', a chafodd yr awdur gynnig cyfweliadau teledu a radio i'w thrafod (10 Ionawr 1974). Bu gwerthiant mawr arni, fel mae'r adargraffiadau'n awgrymu, ac mae'n debyg iddi werthu dros 600 o gopïau yn yr wythnosau cyntaf (04 Chwefror 1974). Canmolodd yr adolygiadau y plot storïol a'r ddawn ysgrifennu, a rhagwelodd R. Bryn Williams lwyddiant y stori fel hyn: 'Mentraf ddarogan y bydd y nofel hon yn glasur, os digwydd i'r iaith Gymraeg oroesi'r ganrif hon' (1974, 5). Yr unig negyddiaeth yn yr adolygiadau yw'r feirniadaeth o ddefnyddio'r Saesneg ar adegau, a defnydd yr awdur o sillgollau a dyfynodau (ceir mwy ar hyn yn y bennod nesaf).

Nid oes cyfeiriad at gynulleidfa darged yn y nofel ei hun. Serch hynny, gellir bod yn sicr mai ar gyfer plant yn bennaf yr ysgrifennodd T. Llew Jones y nofel: 'Yr oedd ar blant Cymru angen 'arwyr' meddai mewn ymateb i gwestiwn am *Barti Ddu* (Teifi 1982, 121), a mynegodd yn ei ddyddiadur personol cyn dechrau ei hysgrifennu: 'O, fe garwn i gael fy rhyddhau i sgrifennu i blant – mae gen i lawer o syniadau ond dim amser' (28 Mehefin 1971). Yn ddiweddarach yn ei ddyddiaduron mae'n sôn am y ffaith iddo gael blwyddyn yn rhydd o waith ysgolfeistr er mwyn canolbwyntio ar ysgrifennu i blant (cafodd sawl blwyddyn yn y diwedd), ac mae'n amlwg yn gyffrous ac yn newid byd iddo gan ei fod yn sôn am y peth yn ddyddiol rhwng Ionawr y 1af a'r 5ed (1972). Yn ychwanegol, mae'n debyg mai fel llyfr i blant yr hysbysebwyd y nofel (Evans, G. 1974, 5), ond sylwodd sawl un mai nofel addas i ddarllenwyr o bob oedran yw hi, a nofel a fyddai'n apelio at rai o bob oed (Evans, G. 1974, 5; Thomas, D. A. 1974, 7; Williams, R. B. 1974, 5). Cyn dadansoddi'r nofel, doeth o beth yma yw cynnig crynodeb o'i chynnwys er mwyn rhoi cefndir i'r drafodaeth sy'n dilyn.

Yn dilyn methiant i gipio dynion yn Abergwaun, mae John Davies yn perswadio Capten Warlow a'r *Press Gang* i edrych am griw yn

Nhreffdraeth. Ar noson ei briodas, caiff Bartholomew (Barti) Roberts ei gipio o'r pentref a'i orfodi i fod yn forwr ar long ryfel o Lynges y Frenhines Anne – y *Pembroke*. Caiff ef a thuag ugain o garcharorion eraill eu gorfodi i arwyddo cytundeb yn dweud mai gwirfoddolwyr ydynt. Yn fuan, daw Bartholomew yn gyfeillgar ag Abram Tomos, Cymro arall a gafodd ei orfodi i fod yn forwr yn yr un modd ag ef. O'r dechrau, mae Bartholomew am ddial ar y dynion sydd wedi peri'r fath newid yn ei fywyd, ac mae'n fodlon brwydro dros ei hawliau dynol; ond fel mae'n dysgu'n fuan iawn, nid peth hawdd yw mynnu hawliau pan ar fwrdd llong. Caiff y llong ei dinistrio mewn storm a daw y *Rover* i gynnig achubiaeth i'r criw pe cytunent ymuno â chriw'r *Rover* fel môr-ladron. Gan nad oes gobaith byw fel arall, ymuno â'r môr-ladron a wna'r dynion. Mae capten y *Rover*, Hywel Dafydd, yn Gymro, a buan y daw'n ffrind i Barti ac Abram gan addo helpu Barti i ddial. Byw bywyd y môr-leidr a wna Barti wedyn gan olynu Hywel Dafydd fel capten pan gaiff hwnnw ei ladd. Yn fuan caiff ei alw'n '*pistol-proof*' oherwydd ei ddawn i osgoi bwledi ac ymladd. Mae'n ymddangos fel petai'n mwynhau bywyd y môr-leidr, yn ennill cyfoeth, ac yn gwisgo'n grand, gan gael yr enw 'Barti Ddu' oherwydd ei farf ddu a'i groen lliw-haul tywyll. Trwy dwyll, mae'n colli ei long a'r trysorau sydd arni, a bellach yn hwylio'r *Familia Sagrada*. Mewn brwydr mae'n colli honno hefyd, cyn ail-fedyddio llong y *Greyhound* yn *Royal Fortune*. Yn dilyn anturiaethau, ymladd, a chreulondeb, mae Barti am ddychwelyd adref i Gymru at ei wraig. Er mai dyma'r prif fwriad trwy gydol y stori, caiff Barti ei ddenu gan anturiaethau a bywyd rhamantus y môr-ladron; a phan ddaw cyfle i ddychwelyd adref, darganfydda Barti fod ei wraig wedi ail-briodi a bod ei enw yn fawr yno – mae'n rhy beryglus iddo ail-gartrefu yng Nghymru. Wrth iddo hwylio'n ôl i fyw bywyd môr-leidr, mae Abram ar y llaw arall yn claddu ei arfau a'i orffennol, ac yn rhoi tro ar fywyd yn ôl ar dir sych Cymru. Deallwn mewn pennod ddiweddglo, sy'n epillog bywgraffyddol ei arddull, fod Barti, yn ddiweddarach, wedi ei saethu'n farw mewn ysgarmes yn erbyn Saeson llong y *Wennol*.

## ii) *Barti Ddu* fel Stori Antur

Stori antur a geir yn *Barti Ddu* T. Llew Jones, sef stori am daith gyffrous sy'n cynnwys risg a pherygl corfforol fel ei phrif thema. Cipir y prif gymeriad i fynd ar fordaith ar y moroedd mawr, ac fe'i gorfodir i ddangos arwriaeth trwy orchfygu cyfres o orchestion. Yn ôl Richard Phillips, 'European empires and European masculinities were imagined in geographies of adventure' (1997, 3). Mae cyswllt, felly, rhwng y genre antur a syniadau am ymerodraeth a bachgendod. Cyn symud ymlaen i drafod y modd y mae'r nofel *Barti Ddu* yn wrth- neu'n ôl-drefedigaethol (ac felly yn mynd y tu hwnt i gysyniadau am Ymerodraeth), canolbwyntir ar y modd y mae'r nofel yn cydymffurfio â'r genre antur, ac ar yr enghreifftiau o agweddau trefedigaethol a geir yn y nofel sy'n amlygu cenedlaetholdeb y Prydeiniwr.

I Green (1980) a Batchelor (1982), mae testun antur yn rhoi sylw i wedd bersonol yr

antur – mae'n adrodd am brofiadau personol unigolyn. Yn sicr ceir hyn yn *Barti Ddu*. Ond i Dryden (2000, 4), cynnwys y stori antur agenda cenedlaethol hefyd wrth i'r arwr brofi ei wroldeb ac arddel ei uwchraddoldeb hiliol Seisnig, gan wneud Seisnigrwydd, gwrywod, a'r genre antur yn annatod ynghlwm. Yn *Allan Quatermain* (1887) gan H. Rider Haggard, mae'r arwr yn datgan:

That is what Englishmen are, adventurers to the backbone; and all our magnificent muster-roll of colonies, each of which in time become a great nation, testify to the extraordinary value of the spirit of adventure which at first sight looks like a mild form of lunacy ... The names of those grand-hearted old adventurers who have made England what she is, will be remembered and taught with love and pride to little children. (1887, 101)

Roedd bod yn anturiaethwr yn rhan o fod yn Sais yn negawdau olaf Oes Victoria felly, a'r bri oedd ar greu cenhedloedd gwych o'r trefedigaethau. Mae'r nofel antur dan sylw yn cyflwyno i'w darllenwyr (sef plant), anturiaethwr sy'n arwr, gan sicrhau bod ei enw ar gof a chadw. Gellir dadlau ymhellach fod yr arwr yn ymddwyn megis trefedigaethwr gan greu ei genedl wych ei hun ar fwrdd ei long, ac o bosibl y tu hwnt i hynny – dros foroedd y byd. Ond tybed faint o drefedigaethwr yw'r prif gymeriad mewn gwirionedd, ac i ba raddau y mae *Barti Ddu* yn cyfateb i'r syniadau ymerodrol a geir yn y straeon antur Saesneg a drafodwyd uchod?

Yn wahanol i nifer o'r straeon antur cynnar Saesneg, fe ysgrifennwyd *Barti Ddu* ar gyfer cynulleidfa ifanc, ac nid ar gyfer oedolion. Nid yw hyn yn syndod wrth gofio i'r nofel gael ei chyhoeddi yn y 1970au yng Nghymru, dros ddwy ganrif a hanner yn ddiweddarach na'r nofelau antur dylanwadol cyntaf Saesneg a fabwysiadwyd yn eu tro gan ddarllenwyr ifainc. Erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, nid genre newydd ydoedd; yn hytrach roedd yn genre poblogaidd ym maes llenyddiaeth plant, a gwyddai'r awdur mai ar eu cyfer hwy yr oedd yn ysgrifennu (Jones, T. Ll. 1969, 127; Teifi 1982, 121).<sup>51</sup> Nid yw hyn i ddweud mai cynulleidfa ifanc yn unig oedd, ac sydd, yn mwynhau'r gyfrol dan sylw (fel y gwelwyd eisoes); ond gellir dadlau bod deunydd darllen i blant yn arbennig ddylanwadol ar y darllenwyr, ac felly mae cyflwyno syniadau am hunaniaeth mewn llenyddiaeth plant yn gallu bod yn arf pwysig i adeiladu hunaniaeth a chenedl.

---

<sup>51</sup>Er enghraifft, yr oedd darllenwyr llenyddiaeth Saesneg wedi cael 21 cyfrol yng nghyfres boblogaidd *The Famous Five* gan Enid Blyton rhwng 1942 a 1963. Hefyd, roedd genre *Gamebooks*, neu'r genre a adnabyddir yn aml fel *Dewis dy Dynged* (neu *Choose your own Identity*), wedi dod i amlygrwydd yn y 1940au ac wedi datblygu'n boblogaidd o'r 1970au ymlaen. Fel y nodwyd eisoes, yr oedd darllenwyr Cymraeg hefyd wedi cael rhywfaint o gyfrolau antur gan awduron megis E. Morgan Humphries yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, ac yna R. Lloyd Jones ac Elizabeth Watkin Jones ychydig yn ddiweddarach.

Seiliodd yr awdur arwr ei nofel ar gymeriad hanesyddol. Ganwyd John Roberts ym 1682 yng Nghasnewydd Bach, Sir Benfro.<sup>52</sup> Daeth yn fôr-leidr yn ystod cyfnod genedigaeth yr Ymerodraeth Brydeinig, ac fe'i hadnabyddid fel 'the greatest of the pirates' (Pringle 1953, 244). Hoffai yfed te – er mai rym â gysylltir gyda'r môr-leidr gan amlaf mewn ffuglen boblogaidd (Sanders 2007, 121; Johnson 1998, 183), ac fe barhaodd mewn rheolaeth yn hirach nag unrhyw gapten môr-ladron arall, gan ddinistrio mwy a gwneud mwy o ffortiwn nag unrhyw fôr-leidr blaenorol nac olynol, a bu i'w farwolaeth ddynodi diwedd 'Oes Aur Môr-ladrata' (Breverton 2004a, 161). Credir iddo gael ei hun mewn sefyllfa anochel a orfododd iddo droi'n fôr-leidr, ac mae'n debyg iddo ddweud: 'A merry life and a short one, shall be my motto' (Johnson 1988, 213-4). Ni ddewisodd yr awdur ddefnyddio prif gymeriad a oedd o gwmpas yr un oedran â'r gynulleidfa darged felly; yn hytrach fe'i disgrifir fel gŵr ifanc golygus (t. 17), ymladdwr dewr (t. 97), cyfaill ffyddlon (t. 122), ac arweinydd nerthol (t. 142). Defnyddiodd T. Llew Jones gymeriad go iawn, a gwybodaeth ffeithiol am y cymeriad hwnnw at bwrpas adlonni darllenwyr ifainc.<sup>53</sup> Yn hyn o beth, mae'r nofel yn pellhau oddi wrth y traddodiad antur poblogaidd. Nid oedd yn arferiad i'r cyfrolau Saesneg seilio eu cymeriadau ar bobl go iawn; serch hynny, yr oeddent yn ceisio efelychu gweithredoedd ymerodrol ac arwrol (yn eu tyb nhw) y trefedigaethwyr Prydeinig. Rhaid nodi yma nad T. Llew Jones oedd y cyntaf i ddefnyddio Barti Ddu mewn nofel antur. Yn wir, cyfeiriwyd at Gapten Roberts (a môr-ladron go iawn eraill) yn y nofel enwog *Treasure Island* (1883) gan R. L. Stevenson, nofel gyfieithodd T. Llew Jones i'r Gymraeg yn ddiweddarach (*Ynys y Trysor*, 1983, Cyfres Clasuron Mawr y Plant).<sup>54</sup>

Megis y stori antur draddodiadol mae'r nofel yn cydymffurfio â nodweddion y genre yn hyn o beth – mae digon o ddigwyddiadau cyffrous a realistig. Wrth drafod y rhan o'r

---

<sup>52</sup>Am fwy o wybodaeth hanesyddol, gweler *A General History Of Pirates* (1998) gan Capt. Johnson (yn wreiddiol ym 1724); *Under The Black Flag* (1995) gan D. Cordingly; *Black Bart* (1997) gan A. Burl; *If A Pirate I Must Be: The True Story Of Bartholomew Roberts, King Of The Caribbean* (2007) gan R. Sanders, a *The Book Of Welsh Pirates & Buccaneers* (2003) a *Black Bart Roberts: The Greatest Pirate Of Them All* (2004) gan T. Breverton.

<sup>53</sup>Gweler arwyddocad hyn yn nhermau ôl-drefedigaethedd yn y bennod nesaf.

<sup>54</sup>Y dyfyniad sy'n sôn am Bartholomew Roberts yn *Treasure Island* (1833) gan R. L. Stevenson: "No, not I," said Silver. 'Flint was cap'n; I was quarter-master, along with my timber leg. The same broadside I lost my leg, old Pew lost his daylight. It was a master surgeon, him that ampytated me – out of college and all – Latin by the bucket, and what not; but he was hanged like a dog, and sun-dried like the rest, at Corso Castle. That was Roberts' men, that was, and comed of changing names of their ships – Royal Fortune and so on. Now, what a ship is christened, let her stay, I says' (1833, 85). Enwir pum môr-leidr go iawn arall yn y nofel, sef William Kidd, Blackbeard, Edward England, a Howell-Davis, ac fe gynhwysir rhai digwyddiadau hanesyddol y cyfeirir atynt yn adroddiadau Johnson (1998).



nofel pan gaiff Barti ei chwipio gan y gath-naw-cynffon, dywed Teifi (1982, 37): 'rhaid canmol yr awdur am wybod ymhle i stopio yn y fan hon – llai o ddisgrifiad, a buasai'n ddiflas; mwy o ddisgrifiad, a buasai'n amhosibl ei ddarllen'. Pan holwyd yr awdur beth yw nodweddion stori gyffrous dda, ymatebodd:

wrth gwrs, rhaid wrth ddigon o ddigwydd. Ond rhaid osgoi *gormod* o ddigwydd neu fe ddinistrir yr holl beth. Rhaid i'r digwydd fod yn *gredadwy*. Gair pwysig iawn yw hwn. Nid yw'r nofelydd aflwyddiannus wedi cael y ddawn i wneud hynny. Mae'r peth mor syml â hynna. Yn y 'dweud' y mae'r gyfrinach, ac yn y bôn credaf fod rhaid bod yr awdur yn greadur digon naif i gredu yn ei ddychmygion ei hun! (Jones, T. Ll. 1969, 127)

Sicrheir bod gan y darlennydd hyder yn y plot trwy ddewis arwr sy'n berson cyffredin. Ni cheir llawer o wybodaeth am gefndir y prif gymeriad, ond mae'r ffaith mai pysgotwr (sydd hefyd wedi dysgu crefft y tŵr gan ei dad) ydyw yn profi'n syth i'r darlennydd nad person anghyffredin mohono. Gwyddys nad plentyn amddifad yw Barti megis nifer o arwyr y llyfrau antur. Er hynny, ni chyfeirir unwaith at ei fam yn y stori. Nid ymddengys yr arwr yn arbennig o alluog nac analluog ychwaith, ond yn sicr fe welir ynddo ddigon o synnwyr cyffredin ac ysbryd dewrder – nodweddion amlwg yn y straeon antur Prydeinig (Butts 1996, 331). Dengys yr arwr yr awydd i wneud yr hyn sy'n iawn, yn foesol a chyfiawn, fel y gwelir yn ddiweddarach yn y drafodaeth hon.

Er yn berson cyffredin, dengys yr arwr nodweddion arbennig sy'n profi'n amhrisiadwy iddo ar ei daith. O dderbyn diffiniad Richard Phillips o archdeip yr arwr mewn stori antur, 'solitary, romantic, brave, impractical, antisocial, masculine, white and European' (1997, 8), yna mae Barti Ddu yn arwr nodweddiadol o'r genre. Wrth ddadansoddi llenyddiaeth antur boblogaidd y genre *frontier romance*,<sup>55</sup> disgrifiodd Whitaker yr arwr fel a ganlyn:

a white male who has suffered a serious wrong at the hands of Native Americans, most often the massacre of his family. He becomes obsessed with revenge and is, ironically, more adept at the wilderness skills associated with natives – hunting, tracking, surviving in the forest – than the natives themselves. Although the Indian hater professes to seek justice for his slain family, he does not stop with the slaughter of the responsible individuals; it becomes his mission to kill all Indians whenever and wherever he encounters them. (2002)

---

<sup>55</sup>Yng Ngogledd America, cynhyrchwyd cannoedd o'r rhamantau hyn yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Allforwyd y chwedlau a'r syniadau i Brydain a thu hwnt (Rosser 2009, 134). Am drafodaeth gyffredinol gweler *Frontier: American Literature and the American West* (1965) gan Edwin Fussell, *The Frontier in American History* (2007) gan F. J. Turner, a *The Frontier Romance* (2012) gan J. Kleinfeld.

Dyma archdeip arwyr y *frontier* sydd yn y bôn yn debyg iawn i'r arwyr ym mhob stori antur Brydeinig. Mae Barti yn debyg am resymau amlwg – mae'n ddyn; mae'n groenwyn; mae'n cael cam; caiff rhai y mae'n eu caru eu lladd; o ganlyniad datblyga'r obsesiwn i ddial; dechreuwa fwynhau'r bywyd gwyllt gan ddatblygu sgiliau gwell na'r bobl a'i fradychodd; er mai dial yw'r prif ddymuniad nid yw'n pallu wedi'r dial hwnnw; ac fe ddatblyga'n rhyw fath o obsesiwn i ladd pob un o'r gelynyon *drwg* yma. Fel y gwelwn yn y bennod nesaf, yr hyn sy'n ddiddorol am fersiwn T. Llew Jones o'r stori antur yw mai'r Saeson yn y nofel yw'r prif elynion, a'r môr-ladron yn elynion eilaidd. Serch hynny, mae'r elfennau hyn o amlygu'r drwg, yr angen i ddial, a'r obsesiwn sy'n parhau y tu hwnt i'r dial yn nodweddu teip y genre antur Prydeinig. Rhaid wrth y ddeuliaeth 'da' a 'drwg' mewn antur, ac yma fe gyfiawnheir y lladd fel gweithred o ddial cyfiawn ar elynion mileinig. Yn ôl Zweig, mae'r arwr mewn straeon antur yn ymgolli mewn perygl a gwrthdaro, hyd nes: 'the adventurer's most serious obstacle is himself. The world extends before him like a fabulous text. Only his ability to "read" it is in doubt' (1974, 24).

Datblyga cymeriad Barti Ddu yn y nofel ac ymgolla ym mywyd y môr-ladron. Fe'i cyflwynir i'r darlennydd ar ddechrau'r nofel fel '(c)readur gwyllt ... yn rhy hoff o wisgo amdano'n wych ... a doedd ganddo ddim parch at bobl oedd yn well, ac yn uwch eu stad nag ef' (t. 15), 'yr oedd golwg wyllt, ffyrnig arno' (t. 20). Yn ddiweddarach, gwelir bod ei bersonoliaeth wyllt yn talu ar ei ganfed wrth iddo orfod ymateb i ergydion amryfal ac ymladd yn ffyrnig am ei fywyd. Er nad yw gwisgo'n grand mewn dillad moethus yn gymorth iddo ar ei daith, mae'n bosibl bod y nodwedd hon yn fodd o gyflwyno i'r darlennydd nad yw Barti'n berson hollol gyffredin wedi'r cwbl, ac mae'n gweddu'n addas i'r gymdeithas sy'n ei amgylchynu o'r cychwyn cyntaf. Cryfhau a wna'r hoffter o wisgo'n grand o dan ddylanwad Capten Dafydd: 'yn awr, ar ôl ymuno â'r môr-ladron, roedd wedi dechrau gwisgo dillad costus gwŷr bonheddig – wedi eu dwyn wrth gwrs' (t. 122). Mae'r gymhariaeth â boneddigion yn ei osod ar wahân i'r môr-ladron eraill sy'n frwnt a blêr yr olwg. Mae'n bosibl bod yr awydd i wisgo fel gwŷr bonheddig yn arwydd fod Barti eisiau dringo'n gymdeithasol – er mai person o gefndir gyffredin ydyw, mae wedi hoffi gwisgo'n grand erioed, ac mae'r awch yma'n arddangos yr elfen o hierarchaeth drefedigaethol hefyd, wrth i Barti ddymuno ymddangos yn uwch ei statws nag eraill. Dyma un cip ar Barti fel unigolyn uwchraddol, felly. Yn wir, mae'r ddelwedd o wisgo'n grand fel brenin cyfoethog a chanddo reolaeth lwyr dros eraill yn gyffredin yn

y genre antur (Hourihan 1997, 155). Fel y gwelwn yn nes ymlaen, mae Barti yn datblygu'n gymeriad o statws uwch sy'n arwain a rheoli eraill.

Tra ymhell oddi cartref, caiff Barti Ddu, megis holl arwyr y genre antur, ei orfodi i feistroli sgiliau penodol sy'n ei alluogi i oroesi. Wrth drafod arwyr yn y diwylliant gorllewinol, dadleua Hourihan: 'they are expected to be strong, brave and dedicated to the cause. They are expected to win ... and we welcome them home as national heroes' (1997, 15). Mae'r disgrifiadau o Barti yn sicr yn cyfateb i'r disgrifiad hwn. Caiff ei orfodi i fyw fel morwr, ac yn ddiweddarach fel môr-leidr, gan orfod delio â holl ofynion ei fywyd newydd. Y mae'n rhaid iddo feistroli sgiliau newydd, gan gynnwys ymladd, a hynny hyd farwolaeth. Y mae hefyd yn dysgu sut i ddychryn eraill; gall sefyll yn 'dal o flaen ei elyn yn disgwyl iddo gymryd y cam cyntaf ... Yn ystod gyrfa Barti Roberts, fe sylwodd llawer ar yr hynodrwydd yma yn ei gylch – y gallu i ymestyn yn dal pan fyddai'n paratoi i ymladd' (t. 85). Ac ymhellach, safai gelynyon 'mewn syndod ac ofn wrth ei weld yn nesáu tuag atynt, ac yn wir, dechreuodd rhai ohonynt gilio'n ôl o'r ffordd' (t. 93). Yn ogystal â dychryn eraill ac ymladd yn dda rhaid oedd iddo allu amddiffyn ei hun hefyd, ac fe'i gelwid yn '*pistol-proof*' gan lawer oherwydd ei allu annaturiol i osgoi cael ei daro gan fwledi, fel nodwedd y genre o gael gallu arbennig felly. Â'r cymeriad Dennis ymhellach gyda'r ofergoeledd hwn, trwy ystyried bod y 'gallu' hwn yn symbol amlwg mai Barti ddylai fod yn arweinydd newydd ar y criw, 'roedd e'n *pistol-proof*! Ac os oedd e – efallai y byddai ei griw hefyd!' (t. 97).<sup>56</sup>

Mae safiad moesol Barti yn broblematic. Er ei fod yn lleidr, dengys nifer o rinweddau megis ufudd-dod, ffyddlondeb, ac ymdrech yr unigolyn, ac fe'i gwobrwyir gydag achubiaeth a'r cyfle i ddychwelyd at gymdeithas ei famwlad. Yn ddiddorol iawn, nid yw Barti'n dewis aros yng Nghymru unwaith iddo ddychwelyd. Gellid dadlau nad oes ganddo ddewis; fel yr eglura'i gymar Abram wrtho, byddai dychwelyd yn ffôl, os nad

---

<sup>56</sup>Yn ogystal ag addysgu'r darlennydd am sgiliau goroesi ar y môr, ceir yma ychydig o wersi hanes. Fel y nodwyd eisoes, cymeriad hanesyddol ydyw Barti Ddu, ac mae rhai ffeithiau yn y nofel sy'n cyfateb i ffeithiau hanesyddol amdano. Ar ben yr addysg hanesyddol, ceir o bosibl rywffaint o addysg grefyddol a moesol megis yn nifer o'r straeon antur traddodiadol – gwelwyd cyfleoedd i ledu ffydd fel cyfiawnhad ychwanegol dros drefedigaethu (Hourihan 1997, 136). Dangosir elfen addysgol, a hyrwyddo democratiaeth hefyd, ym Mhennod 20 o'r nofel, wrth i'r môr-ladron benderfynu cynnal llys barn cyn gosod cosb, er mwyn penderfynu a oedd y bradwr Anstis yn euog ai peidio. Fe wnaethant hyn yn fwy o ran hwyl na dim arall, oherwydd fe wyddai pawb fod Anstis yn euog. Ond hefyd roedd hi'n hen arfer gan y môr-ladron i gynnal llysoedd tebyg pan fyddai unrhyw un wedi torri'r rheolau ar fwrdd y llong (t. 163). Roedd y môr-ladron yn credu'n gryf mewn rheolau: 'yn cadw at rhyw gôd ymddygiad rhyfeddol ymysg ei gilydd ... er mwyn hyrwyddo democratiaeth a chydreddoldeb ar fwrdd y llong, gan sylweddoli fod rhaid cydweithio a chyd-dynnu o fewn awyrgylch a sefyllfa mor glos a thynn' (Stevens 2012).

yn amhosibl, gan ei fod erbyn hyn yn enwog a mwy na thebyg yn cael ei erlid (t. 172). Enghraifft o ufudd-dod ydyw parch Barti at y rheol o gadw unrhyw ymladd gyda chydforwyr nes cyrraedd y tir sych. Er ei fod yn gandryll ac yn ysu am ddial (tt. 23, 44, 61, 65, 82, 85), mae'n cadw'n ufudd i'r drefn. Drwyddi draw arddangosir ffyddlondeb ac ymdrech yr unigolyn wrth i Barti ymdrechu i gadw at ei air a chyflawni ei ddymuniadau gwreiddiol o ddychwelyd at ei wraig yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n bosib mai hyn sydd i gyfrif am y ffaith nad yw'r arwr yn yfed unrhyw alcohol, megis y môr-ladron eraill ar y llongau, gan fynnu yfed te. Nid oedd y Barti Ddu go iawn, tra'n Gaptan, yn fodlon ymladd ar y Sul chwaith: 'ar fwrdd y llong ei hun, roedd e, er enghraifft, yn dweud wrth ei gyd-fôr-ladron nad oedden nhw'n cael ymosod ar longau ar Ddydd Sul o gwbl, er wrth gwrs bod digon o ladd, a llofruddio ar bob diwrnod arall, doedden nhw ddim yn cael cweryla, na rhegi, na chwarae cardiau ... [mae'n] adlewyrchu efallai ei gefndir anghydfurfiol e yn Sir Benfro, neu yr effeithiau hynny ar ei fywyd e' (Stevens 2012).<sup>57</sup>

Ar ôl cyfnod ar y môr, y mae Barti yn troi yn fôr-leidr gan sylweddoli hynny ym Mhennod 11 wedi iddo ymladd a lladd. Nid yn unig hynny, ond fe sylweddola:

roedd e wedi teimlo rhyw ias – rhyw lawenydd mawr – wrth neidio ar fwrdd y llong fasnach â'i gleddyf yn noeth yn ei law. Gwyddai'r foment honno ei fod, yn dawel bach, yn edrych ymlaen at y tro nesaf y byddai ef yn neidio trwy ganol y mwg ar fwrdd llong arall, â'i gleddyf yn ei law. (t. 80)

Mae'r elfen ymerodraethol o orchfygu a rheoli yn gryf yn y nofel, ac yn cael ei hamlygu fwy nag unwaith yng nghymeriad a gweithredoedd y prif gymeriad. Pan awgrymir y gallai Barti fod yn olynnydd i Gaptan Dafydd, er bod y syniad yn syndod iddo, dywed 'gan 'mod i'n fôr-leidr bellach beth bynnag, hidiwn i ddim bod yn gaptan arnyn nhw. Fe garwn i ... gael cyfle i arwain y bechgyn 'ma' (t. 100). Dengys barodrwydd i fod yn arweinydd, ar frig y system hierarchaidd, ac fe fychana'r criw ar unwaith trwy eu galw'n 'fechgyn'. Pan gaiff ei ethol yn gaptan y môr-ladron ym Mhennod 14, penderfyna ddial ar drigolion Portiwgeaidd Ynys y Tywysogion am ladd eu captan blaenorol. Eto, felly, gwelir y weithred drefedigaethol o orchfygu pobloedd, sef pobl ar y tir mawr yn yr achos hwn.

---

<sup>57</sup> Hefyd, roedd y Barti Ddu go iawn yn mynnu bod unrhyw gerddorion oedd yn gweithio ar ei longau yn cymryd diwrnod i ymlacio ar y Sul: 'The Musicians to have Rest on the Sabbath Day, but the other six Days & Nights, none without special favour' (Rheol XI, Johnson 1998, 181).

Erbyn Pennod 16, mae Barti yn mwynhau bod yn fôr-leidr ac yn fwyfwy, yn gapten 'a'i fryd ar ddwyn a lladd a dinistrio!' (t. 123). Yn null gweithredu trefedigaethol, mae'n creu ei deyrnas fechan ei hun ar fwrdd y llong gan fwynhau rheoli ei bobl, 'ac edrychai'n fwy tebyg i dywysog nag i fôr-leidr' (t. 130). Mae elfen o dwyll yn y bennod hon hefyd wrth i Barti arwain ei griw a'i long i ganol llongau Portiwgeaidd a'u twyllo i feddwl mai llong gyfeillgar ydyw cyn eu rheibio'n llwyr, megis trefedigaethwr. Ar un pwynt, gorchmyrna i'w ddynion 'weiddi a sgrechian fel haid o wrachod' (t.133), ac yna chwerthin yn wallgof ar draws y bae (t. 133) er mwyn dychryn y Portiwgeaid. Mae yma elfen o 'fwlio' felly, a hawlio statws hierarchaidd uwch trwy ddychryn a chreu anhrefn ymysg y bobl yr ymyrrir â hwy. Caiff Barti, wedi hynny, ei edmygu'n fawr gan ei griw am ei waith llwyddiannus a'i dactegau cyfrwys, gan ennill parch a chanmoliaeth un a edmygir fel arweinydd ac esiampl dda o fôr-leidr, 'wedi cyflawni gweithred y byddai sôn amdani'n mynd ar draws y byd i gyd. Ac nid oedd neb yn eu mysg y prynhawn hwnnw na fyddai'n barod i roi ei fywyd dros Gapten Roberts' (t. 135). Ymhellach, trwy ddwyn a hawlio eiddo eraill, defnyddia Barti ei rym dros eraill a thros eiddo fel trefedigaethwr ac un ar frig y system hierarchaidd.

Ym Mhennod 19, gorchfyga long y *Greyhound*, a'i chymryd fel ei long newydd – gweithred arall o ddwyn eiddo a thiriogaeth (os ystyriwn 'llongau' fel 'tiriogaethau' ar y môr). Megis Crusoe ar ei ynys, 'creating his own kingdom over which he enjoys absolute rule' (Pearson 2011, 99), mae Barti yn cymryd, ac yn teyrnasu 'tiriogaethau' o longau a'u pobl, gan ddatblygu'n gymeriad sy'n rheoli'r holl foroedd yn sgîl hyn. Yn wir, mae ei agwedd yn y bennod flaenorol yn ymdebygu i agwedd trefedigaethwr difeddwl. Pan yw Abram yn mynegi mai 'aur rhywun arall' yw'r hyn sydd ganddynt, mae Barti yn dangos syndod yn ei ymateb: "Pa waeth am hynny. Trwy ddwyn a lladd a sbeilio mae'r gwŷr bonheddig mwy yn y byd wedi dod yn gyfoethog, Abram. Rydyn ni wedi ennill yr aur 'ma mewn brwydr deg ...'" (t. 138). Megis gweithred drefedigaethol, felly, mae Barti yn gweld tegwch a chyfiawnder yn yr hyn mae'n ei wneud, neu o leiaf y mae'n twyllo ei hun fod ei weithredoedd yn foesol a bod rheidrwydd i'r peth.

Yn ddaearyddol a hanesyddol, mae Barti erbyn terfyn y nofel ar y brig wrth lyw'r holl fyd – fel sy'n nodweddiadol o destun ymerodrol yn ôl Bristow (2009, 137). Mae'r elfen o orchfygu'r gwyllt i'w chael yn y stori wrth i Barti lwyddo i orchfygu'r moroedd tymhestlog 'fel hen law' (t. 108), a'u rheoli tra bo'i enw'n wybyddus ar draws y byd fel môr-leidr peryglus. Rheola'r holl bobl sy'n hwylio'r moroedd felly, ynghyd â'u

gweithredoedd a'u llwyddiannau. Er iddo orchfygu tir y Portiwgeaid, nid oes enghreifftiau yn y nofel o feddiannu ac ymgartrefu ar dir tramor, na bod hynny'n weithred gyfiawn. Serch hynny, gellid dadlau fod yr arwr mewn ffordd yn meddiannu'r moroedd, rhywbeth sy'n dod yn naturiol i'r môr-leidr, gan atgyfnerthu dadl Hourihan: 'the West ought to dominate the rest of the world because of its natural fitness to do so' (1997, 14). Gellid dadlau, felly, fod y nofel yn cyflwyno syniadau am gyfiawnder rheoli lleoliad a phobl mewn modd trefedigaethol – boed y lleoliad hwnnw ar long, neu ar y moroedd mawr.

Ar ddechrau'r nofel, cipir Barti gan y *Press Gang* ac fe'i gorfodir i ymweld â lleoliadau pell i ffwrdd o'i gartref, o Gymru, ac o Brydain. Gan amlaf ni enwir yr union lleoliadau, ond awgrymir pa mor bell ydynt o Gymru trwy nodi nifer y dyddiau neu'r wythnosau y mae'r cymeriadau yn eu treulio ar fwrdd y llong. Yn wir, mae lleoliadau'r nofel yn cyfateb i'r nodwedd o leoliad anghyfarwydd a geir yn fynych yn y genre. Er mai un lleoliad egsotig a geir yn aml yn y straeon antur hynny, fe geir yn *Barti Ddu* gyfeiriadau at rai lleoliadau yr ymwelir â hwy yn ystod y stori. Cyfetyb y nofel felly i'r arfer o ddisgrifio gweithredoedd cyffrous mewn lleoliadau pell i ffwrdd. Er enwi rhai lleoliadau,<sup>58</sup> prif leoliad y stori yw'r môr. Oherwydd hynny, ceir yn y nofel lawer o eirfa dechnegol a phenodol i forwriaeth a hynny'n rhoi elfen addysgol i'r testun. Defnyddia'r awdur nifer o elfennau a welir mewn testunau antur cynharach a diweddarach i blant. Er enghraifft, ceir yn y nofel elfennau sy'n nodweddiadol o straeon antur môr-ladron. Un enghraifft yw'r defnydd o '(f)apiau a siartiau ... yr haul a'r sêr a'r cwmpawd' (t. 68) sydd i'w gweld mewn nifer o'r straeon antur sydd wedi eu lleoli ar y môr. Enghraifft arall yw'r gath naw cynffon (t. 40), sef chwip arbennig sy'n achosi poen eithriadol – caiff ei disgrifio yn y nofel pan gaiff Barti ei gosbi am ddyrnu'r mêr: 'cododd y bosn y chwip ... yr oedd ei chynffonnau'n goch ac yn driplan gwaed' (t. 42). Elfennau adnabyddus arall mewn hanesion am fôr-ladron, yn arbennig ym maes y cyfryngau gweledol, yw 'y planc', ac er na chaiff ei ddefnyddio yn y nofel, ceir sôn amdano wrth i griw Barti fygwth gorfodi'r morwyr sydd yn cadw caethweision duon i'w cherdded, ond 'neidiodd un o'r pymtheg i'r dŵr. Fe wyddai'n iawn beth oedd y planc, ac nid oedd am aros rhagor' (t. 153).

Ni ddewisodd T. Llew Jones ynys bellennig fel lleoliad i'w stori, na'r amser presennol

---

<sup>58</sup>Cyfeirir at Abergwaun a Threfdraeth ar ddechrau'r nofel. Teithir ar draws y byd wedyn, i leoedd megis Ynysoedd Dominica ac Ynysoedd y Tywysogion.

fel cyfnod y stori – yn hytrach, defnyddiodd y môr a lleoliadau amrywiol ar draws y byd, a'r gorffennol yn gefnlen i'r cyfan. Dangosodd hefyd, fel Walter Scott, y modd y gall cymeriadau amrywiol gyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at ddigwyddiadau a chymunedau, boed y rheiny'n 'gymunedau' ar fwrdd llong, neu'n gymunedau ar dir sych. Sylwodd Kidd (2000, 47) mai un nodwedd mewn testunau sy'n arddangos gwrywdod (neu fachgendod) yw cynnwys geirfa a chanddi gysyniadau megis 'cymuned', 'teyrnas', 'cyfnod', 'ar un amser'/'unwaith', a thrwy ddefnyddio'r nodweddion hyn, nid oes angen i'r awduron roi cyfrif am yr union leoliadau a gofodau. Ni cheir cyfeiriadau pendant at amser yn *Barti Ddu*; mae'r môr-ladron yn gymuned o bobl ac mae'r arwr yn creu ei deyrnas ei hun ar fwrdd y llong dros gyfnod o amser amhenodol.

Nid rheoli yw'r unig ffurf ar uwchraddoldeb yn y straeon antur; mae gwrywdod yn nodwedd uwchraddol ynddo'i hun, fel y dadleuodd Ruskin, 'man's power is active' a 'his energy [is] for adventure' (1865, 146). Mae'r testunau antur yn arddangos gwrywdod pendant – mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u hysgrifennu gan wrywod, am wrywod, ac ar gyfer gwrywod (Phillips, Richard 1997, 89). Oherwydd hyn, wrth drafod *Robinson Crusoe* a'r genre antur, datganodd Green (1990, 5): 'adventure is reading for men, not for readers'. Disgrifiodd Connell y term '*hegemonic masculinity*' (gwrywdod hegemonaid) fel: 'the configuration of gender practice which embodies the currently accepted answer to the problem of the legitimacy of patriarchy, which guarantees (or is taken to guarantee) the dominant position of men and the subordination of women' (1995, 77), sy'n cyfeirio at fersiynau o wrywdod traddodiadol, *macho*, a nodweddir gan dreisgarwch, gwylltineb, gwraig-gasineb, homoffobia, ac ansodau eraill negyddol (Stephens 2002b, ix). Er na cheir enghreifftiau o homoffobia na gwraig-gasineb yn *Barti Ddu*, mae'r nodweddion eraill yn amlwg yn y nofel, ac mae'r ffaith nad oes cymeriadau benywaidd ynddi yn nodwedd o'r genre antur: 'women play subordinate roles [in the hero story], in which their relative insignificance seems to 'go without saying' (Hourihan 1997, 15). Mae'r benywaidd yn naturiol ymylol yn y genre antur felly: 'they are the marginalised sisters, girlfriends, wives and mothers whom the boys leave behind' (Phillips, Richard 1997, 89).<sup>59</sup>

Wrth drafod gwrywdod mewn llenyddiaeth plant, sylwodd Nodelman bod cymeriadau gwrywaidd sy'n byw yn saff ac yn dilyn trefn y gyfraith yn cael eu gweld fel

---

<sup>59</sup>Ceir trafodaeth bellach ar safle'r fenyw yn y nofel yn y bennod nesaf, tt. 59-65.

cymeriadau sy'n arddangos rhinweddau naturiol fenywaidd, tra bo cymeriadau gwrywaidd y genre antur yn wahanol, yn anghymdeithasol a gwyllt: 'boys are wild things – animals' (2002, 4). Mae Barti i raddau helaeth iawn yn cyd-fynd â'r darlun gwrywaidd hwn; yn wir, mae rhai disgrifiadau ohono yn ei bortreadu fel rhywun sy'n ymddwyn yn anifeilaidd ac yn greulon (yn enwedig yn ei wylltineb). Aiff Mallan ymhellach gyda'r ddeuliaeth gwrywaidd-benywaidd trwy bwysleisio'r elfen dreisgar sy'n gysylltiedig â'r gwrywaidd: 'the warning male body signifies the masculine ideal of control, dominance, and mastery, and battle becomes the ultimate test of manhood, summarily sorting out the weak and the cowardly from the strong and heroic' (2002, 18) – er mwyn i Barti fod yn arwr a rheolwr felly, rhaid iddo ddangos ei gryfder dros eraill, eu gorchfygu fel trefedigaethwr. Wrth drafod triniaeth pobl wynion o bobl dduon dros y blynyddoedd, pwysleisiodd Fanon fod y duon wedi'u portreadu gan y gwynion fel gweinion, a'u gorfodi i dderbyn eu bod yn wan; 'the black is not a man' (1967a, 8) meddai, wrth i'r gwynion wneud iddynt deimlo yn israddol a phlentynnaidd (1967a, 11), 'the Negro is just a child' (1967a, 27) ychwanega. Megis y trefedigaethwyr gwyn yr oedd Fanon yn cyfeirio atynt, rhaid i Barti wahanu'r cryfion a'r arwrol oddi wrth y gweinion a'r llwfrgwn er mwyn ennill rheolaeth a goruchafiaeth.

Gan gydymffurfio ag arfer y genre antur, caiff yr arwr gyfaill ffyddlon ar hyd ei daith o'i dechrau i'w diwedd. Mae'r syniad o ennill cyfaill yn un cyfarwydd i'r genre. Yma, cyd-Gymro yw'r cyfaill, ac mae'n ffyddlon i Barti drwy gydol y daith. Abram Tomos yw'r cyfaill hwn, ac megis y syniad o ddirprwy dad, mae Abram yn ddyn hŷn sydd ar adegau yn cymryd rôl dadol.<sup>60</sup> Try Abram o fod yn ffigwr tadol i un sydd yn is i lawr y system hierarchaidd wrth i Barti ddod yn bwysicach ymysg y môr-ladron. Gwelwn Abram yn cyflawni swyddi bychain ar ran Barti gan ei wasanaethu mewn ffordd, er enghraifft ym mhennod 18 fe'i gwelwn yn agor cistiau a ddygwyd oddi ar long Bortiwgeaidd y *Familia Sagrada* (t. 136). Mae'n amlwg yn ystod ail hanner y nofel fod Abram yn poeni amdano ac am y newid yn ei gymeriad. Nid yw Barti bellach yn fodlon ystyried sylwadau a geiriau Abram, mae bywyd y môr-ladron wedi ei lyncu'n llwyr ac megis trefedigaethwr, mae Barti'n mwynhau'r bywyd moethus ar draul eraill.

---

<sup>60</sup>Disgrifir Abram Tomos ym mhennod gyntaf y nofel fel dyn dewr, mawr a chryf – ffigur cadarn felly. Nid yw Abram yn deall arferion y môr-ladron fwy nag y mae Barti, ond gyda'i gilydd maent yn dod yn gyfarwydd â hwy, ac mae Abram bob tro'n fodlon cynnig arweiniad i Barti. Yn fuan wedi cyfarfod, rhoddir Barti dan ofal Abram wedi iddo ddiodeff y gath naw cynffon, a gwelwn Abram fel ffigwr tadol/mamol iddo yng nghysgodion y stori drwyddi draw.



Cymeriad arall sy'n haeddu sylw fel cyfaill i Barti yw Capten Hywel Dafydd, Cymro Cymraeg arall fel Abram Tomos. Er nad yw ef yn ymddangos yn y stori o'i dechrau i'w diwedd, mae'n ddylanwadol iawn o safbwynt datblygiad Barti Ddu fel môr-leidr. Gellid i raddau gymharu Hywel Dafydd gyda'r arfer o gyflwyno brodorion fel cyfeillion yn y genre antur traddodiadol. Er mai Cymro yw Hywel Dafydd, y mae'n fôr-leidr profiadol pan gyfarfydda Barti ag ef, ac felly mae'n 'frodor' o fôr-leidr mewn ffordd. Eto, megis Abram Tomos, mae'n ddyn hŷn ac felly'n ffigwr tadol, ac mae'n addysgu a rhoi cyngor am fywyd y môr-ladron i Barti ac Abram, gan roi sylw ychwanegol iddynt gan eu bod yn Gymry Cymraeg (t. 60). Os cymerir llong y môr-ladron fel lleoliad 'lleol', megis y syniad o allu 'siarad yr iaith leol', mae Hywel Dafydd, fel 'brodor lleol' yn siarad iaith y môr-ladron ac yn deall yr arferion 'lleol'. Dyma, unwaith eto felly, ddilyn nodwedd y genre antur Prydeinig. Ond yma, ceir tro yn yr arfer gan mai Cymro yw Hywel Dafydd yn y bôn, ac yn ogystal â hynny mae'n colli ei fywyd mewn brwydr gan roi lle i Barti gymryd yr awenau fel arweinydd. Mae Barti hefyd yn dysgu gan Hywel Dafydd, sy'n gyn-fonheddwr o Sir Benfro (t. 60), sut i wisgo'n grand.

Yn dilyn prif nodweddion y genre, datblyga'r stori trwy gyfres o argyfyngau bychain, cyn taro uchafbwynt mawr y stori, sef brwydr waedlyd yn erbyn gwrthwynebwyr ac yna ymgais at ddychwelyd i Gymru. Goroesa Barti y frwydr hon, a chaiff ei wobrwyo ar ddiwedd y stori gyda chyfoeth a pharch – mae'n rheoli'r moroedd mawr, mae ganddo ddigonedd o gyfoeth, ac y mae wedi ennyn parch ei griw. Bu'n dyheu am gael dychwelyd adref a mynd yn ôl i fyw yn Nhrefdraeth. Ffawd a oedd wedi ei wneud yn fôr-leidr, a phan ddaw'r cyfle, mae'n dianc yn ôl i Gymru. Ond eto, ni all wadu bod bywyd y môr-ladron yn apelio ato (t. 123). Er mai diwedd glo hapus a geir fel arfer yn y genre, gellid darllen diwedd glo *Barti Ddu* fel un siomedig ar un wedd oherwydd dychwela Barti adref i ddarganfod fod pethau wedi newid er gwaeth. Cyn glanio ar dir Cymru, mae'n ymwybodol ei fod wedi dod adref, ond eto, 'ni theimlai lawer o lawenydd yn ei galon wrth lithro i mewn i fae Trefdraeth' (t. 168); mae'n dechrau hiraethu am fywyd y môr a'i long, ac am ei gyswllt gyda'i long, 'doedd hithau ychwaith ddim wedi ei bwriadu i fod yn fôr-leidr ... a thra oedd ei draed ar ei dec fe deimlai Barti'n gwbl ddiogel. Ond yn awr, wrth nesáu at y lan, fe deimlai'n anesmwyth' (t. 170).

Nid yw'n ddiogel iddo aros yn ei famwlad ac nid yw ei briod am gyd-fyw ag ef. Felly, er iddo ymddangos fel pe bai'n dychwelyd adref yn fuddugoliaethus, siom a methiant sy'n ei wynebu ac mae'n dychwelyd i'r môr. Mae'r tro annisgwyl yn y diwedd glo'n ddiddorol,

yn enwedig o ystyried barn yr awdur ei hun am apêl 'diwedd glo hapus' bob tro 'a'r da'n cael yr oruchafiaeth ar y drwg' (Jones, T. Ll. 1980, 241), lle bo hynny'n bosib:

O weld diwedd hapus ar broblemau pobl eraill, gall [y darllenydd] deimlo'n ddiogel wedyn y bydd ei broblemau ef (pa mor fach bynnag fônt) yn cael eu datrys ... Mae gan blant fywyd cyfan o'u blaenau i sylweddoli bryntni'r byd. (Teifi 1982, 31)

Mae'n bosibl fod yr awdur wedi dewis y diwedd glo hwn gan ei fod am gadw at ffeithiau hanesyddol, sef bod Barti Ddu wedi marw mewn brwydr ar y môr. Ond gwna hyn ar ôl cael dychwelyd adref i weld ei wraig a'i wlad, sef yr hyn yr oedd yr arwr yn dyheu amdano drwy gydol y stori. Mae'n darganfod y gwir am yr hyn sydd wedi digwydd gartref yn ystod ei absenoldeb, ac mae'n bosib bod darganfod nad yw ei wraig am gyd-fyw ag ef bellach yn fodd iddo ddarganfod ei wir hunaniaeth. Er nad yw Megan am gyd-fyw ag ef, eglura mai'r unig reswm am hynny ydyw'r ffaith fod ganddi faban bellach. Dywed wrth Barti: 'ti fydd piau'r lle blaena yn 'y nghalon i Barti ... os yw hynny'n rhyw gysur i ti ... a lle bynnag y byddi di'n teithio ... fe fydd rhan ohono i'n mynd gyda ti' (t. 181). Mae darganfod gwir hunaniaeth yn un nodwedd o'r genre, ac mae'n bosib mai hunaniaeth y môr-leidr felly ydyw gwir hunaniaeth Barti, ac nid Cymro 'da' sy'n dilyn y gyfraith ar dir sych. Er bod Barti yn dilyn yr arferiad yn y genre o ddychwelyd adref yn drymlwythog o gyfoeth mawr, mae'r nofel yn mynd yn groes i'r arfer gan nad yw Barti'n dychwelyd adref at groeso cynnes teulu a phriodas hapus. Gellir disgrifio'r nodweddion hyn yn yr arwr fel 'ei freuder er gwaethaf ei rym diysgog' y cyfeiriodd de Vries ato wrth ddisgrifio'r arwr (1963, 183) – cael ei ladd a wna Barti ar ddiwedd y nofel; dyn cyffredin ydyw ar ddiwedd y dydd. Trwy gydol y stori mae Barti yn arddangos nodweddion o argyfwng hunaniaeth trwy bendilio o deimlo'n hyderus a chyffyrddus fel môr-leidr, i deimlo mai yn ôl yng Nghymru y mae ei le. Mae'r trobwynt hwn yn y stori a chynlluniau'r arwr yn arddangos argyfwng pellach yn ei deimladau tuag at hunaniaeth, a chan fod ei wraig yn ei wrthod caiff Barti gau pen mwdwl ar ei argyfwng hunaniaeth trwy gael cadarnhad mai ar y môr fel môr-leidr mae ei ddyfodol – dyma ofod sy'n derbyn yr hyn ydyw bellach.

Gellid dadlau, felly, fod *Barti Ddu* yn enghraifft o un o naratifau mwy amwys y genre, megis *Treasure Island*. Yn yr un modd â'r nofel honno, ceir yn Barti Ddu nifer o'r nodweddion sy'n dynodi genre y stori antur ymerodrol, ond cynnwys hefyd elfennau hybrid sy'n arddangos amwysedd. Yn un peth, mae'r prif gymeriad yn oedolyn yn hytrach na chymeriad yn ei ardegau – cymeriad y gallai'r darllenwyr ifainc uniaethu ag

ef. Nid yw'r cymeriad yn llwyddiannus ar hyd ei daith, ac mae'n cael cyfnodau pan yw'n dioddef oherwydd diffyg hunanreolaeth. Dadleuodd Kestner (2012, 6) fod straeon antur yn hollbwysig o safbwynt cynnig delfryd o wrywdod, sef priodoleddau i ddarllenwyr eu hedmygu a'u dilyn. Fel y nodwyd eisoes, gellir dadlau bod cysylltiad clòs rhwng gwrywdod a Seisnigrwydd. Honnodd E. G. Salmon: 'it is impossible to overrate the importance of the influence of such a supply [of printed matter for the young] on the national character and culture' (1886, 248). Honnir bod y testunau yn cael dylanwad ar y darllenwyr ac ar eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth; gallant felly fod yn arf grymus wrth adeiladu ymerodraeth. Yr hyn sy'n wahanol yn *Barti Ddu* i'r genre antur Saesneg yw'r ffaith nad yw'r prif gymeriad yn cytuno â'r Saeson Prydeinig yn y nofel, a'i fod mewn gwirionedd am eu lladd. Yn y bennod nesaf, edrychir yn fanylach, felly, ar y modd y mae'r nofel a'i chymeriadau yn wahanol i'r genre antur traddodiadol Brydeinig, gan ddadlau ei bod, mewn gwirionedd, yn wrth- neu'n ôl-drefedigaethol.

## **Pennod 3**

### **Darlleniad Ôl-drefedigaethol o *Barti Ddu***

## **a) Cyflwyniad**

Trafodwyd eisoes y modd y mae'r nofel dan sylw yn dilyn, neu'n mynd yn erbyn, y nodweddion a geir yn y genre antur traddodiadol. Gwelwyd bod y stori antur fel genre yn cydio gyda syniadau am Ymerodraeth, bachgendod, a Phrydeindod. Yn y bennod hon ceir trafodaeth ar y modd y mae'r nofel yn mynd y tu hwnt i'r genre antur a'i gysyniadau, gan gynnig cysyniadau gwrth- ac ôl- drefedigaethol. Yn gyntaf, edrychir ar y cymeriadau yn y nofel, cyn dadansoddi'r cynnwys ieithyddol, a gofod a lle, fel elfennau sy'n arddangos syniadau gwrth- ac ôl- drefedigaethol.

## b) Cymeriadau

### i) Arallrwydd (*Otherness*)

Fel y gwelwyd yn y bennod gyntaf, mae 'arallrwydd' yn un o brif gysyniadau theori ôl-drefedigaethol. Mae'r 'Arall' (*Other*) yn aelod(au) o grŵp 'allanol' (*out-group*) sy'n cael ei feirniadu'n israddol ei hunaniaeth gan y grŵp 'mewnol' (*in-group*) – mae'r ffocws, felly, ar y 'gwahaniaeth' (*difference*). Cyflwynwyd syniadau Said a Bhabha am arallrwydd a gwahaniaeth eisoes, ac yma trafodir rhai o gymeriadau'r nofel yng ngoleuni'r syniadau hyn. Ceir yn *Barti Ddu* nifer o gymeriadau o gefndiroedd amrywiol, ac mae'n ddiddorol sylwi ar y carfanu, neu'r diffyg carfanu, a geir yn y nofel rhwng hunaniaethau gwahanol, nes mai anodd, ar adegau, yw gweld yr 'Arall' a'r 'gwahaniaeth'. Mae prif gymeriad y nofel, Barti, yn Gymro Cymraeg, a'r unig gymeriadau Cymraeg eraill a geir yn y nofel, heblaw am ddechrau a diwedd y nofel, yw Abram Tomos, Capten Hywel Dafydd a Chymro di-Gymraeg o'r enw John Davies. Mae'n arwyddocaol mai ar dir Cymru y mae'r cymeriadau ar ddechrau a diwedd y nofel, ac fe drafodir y syniadau am arwyddocâd tir a môr fel gofodau ôl-drefedigaethol yn nes ymlaen. Ar wahân i'r Cymry, cynnwys y nofel gymeriadau amlwg o Loegr, Iwerddon, Yr Alban, a Sbaen. Mae'n bosib iawn bod cymeriadau eraill o gefndiroedd gwahanol, ond ni roddir sylw i hynny yn y nofel. Mae hyn yn bwynt arwyddocaol – mae'r ffaith fod yr awdur yn dewis cynnwys cefndir hunaniaethol rhai cymeriadau penodol yn rhoi sylw i arallrwydd y cymeriadau o'u cymharu â'r prif gymeriad. Yn yr un modd, mae hefyd yn pwysleisio 'tebygrwydd' (*sameness*) yr arwr a'r cyd-Gymry.

Er nad yw i'w weld yn gyson yn y nofel, mae'r gwahaniaeth rhwng hunaniaeth Gymreig a hunaniaeth Seisnig yn cael sylw. I ddechrau, mae'r naratif yn gwahaniaethu trwy enwi criw o bobl yn 'Saeson': 'o'r dydd hwnnw, galwai'r Saeson ef yn *Pistol-proof*' (t. 94). Mae'r naratif yn creu arallrwydd yn syth felly – cyflwynir 'y Saeson' i'r darllenydd ifanc o Gymro. Ymhellach, rhaid cyfeirio yma at syniadau ôl-drefedigaethedd am y 'pŵer i enwi': 'To name the world is to 'understand' it, to know it and to have control over it' (Ashcroft et al. 1995, 283). Disgrifiodd Said y modd y mae'r hyn a galwodd yn *Occident* yn hawlio perchnogaeth dros wybodaeth am yr *Orient* (1978, 36). Dadleuodd Said bod perchen ar wybodaeth ddiwylliannol yn rhoi'r pŵer i'r *Occident* ail-enwi, ail-

ddiffinio, ac felly reoli'r *Orient*, eu lleoliadau a'u heiddo yn drefedigaethau ymerodrol (Sharp 2008, 24). Gan fod perchen ar wybodaeth yn gyfystyr â phŵer, a geiriau (boed yn ysgrifenedig neu'n llafar) yn gyfrwng cyfathrebu, mae defnyddio geiriau yn ennyn cyfrifoldeb. Mae'r naratif yn *Barti Ddu* yn dweud mai'r 'Saeson' sy'n rhoi'r label *pistol-proof* i Barti Ddu (t. 94), ac felly maent yn ei ail-enwi wedi iddo fod yn y cysgodion; trwy enwi maent yn dod â rhywbeth yn fwy byw, ac mae hynny er eu budd hwy. Rhoddir bri i'r Saeson yma sydd â'r hawl a phŵer 'uwchraddol' i enwi, gan eu bod mewn safle i benderfynu ar lysenw, ar label, i Barti.

I'r gwrthwyneb, cyflwynir syniadau am arallrwydd yn y modd y bychenir y Saeson ar unwaith yn y nofel gyda'u dyfodiad i Abergwaun. Ceir yma awgrym bod y Saeson yn ffôl am ddod i Gymru tra dylent fod yn ymosod ar y Sbaenwyr ar y môr. Yn ogystal, fe'u disgrifir fel dynion brwnt yr olwg gyda 'wynebau brown, garw' a 'rhywbeth mileinig' yn eu hwynebau (t. 6). Ceir disgrifiadau pellach yn y bennod gyntaf hon o fethiant y Saeson ac enw drwg y Llynges. Disgrifir y *Press Gang* fel dynion di-emosiwn sy'n hidio dim am yr hyn ddigwyddai i wragedd a phlant wedi iddynt gipio'r gwŷr lleol. Mae barn Barti am y Saeson yn eglur o ddechrau'r stori, mae 'y dihirod' (t. 24) yn 'ddigon haerllug' (t. 18) ac mae'n mynegi na fyddai 'dim yn well ganddo na chael cyfle i ymladd yn erbyn y Saeson cythraul' (t. 23). Ceir gwrthgyferbyniad cryf yn yr ail bennod wrth ddisgrifio'r dynion hyn a'u harogl cwrw a thybaco, a'u lliw budr, o gymharu â phersawr Megan, ei wraig, a'i chroen a gwallt o liwiau golau. Mae'r naratif, felly, yn ceisio arwain y darlennydd i ddrwgdybio ac o bosibl gasáu'r Saeson yn gyffredinol. Cawn ein hatgoffa dro ar ôl tro mai'r Saeson a gipiodd Barti (ac eraill diniwed) o Gymru a'i fywyd fel Cymro cyffredin, ac mae'r arwyr Cymraeg yn y nofel yn gyffredinol ddig tuag at y Saeson ac yn mwynhau cael cyfleoedd i ymladd yn eu herbyn a'u lladd. Gwelwn Barti Ddu a Chaptan Hywel Dafydd yn dangos dyhead am ladd Saeson yn fwy nag unrhyw un arall (tt. 23, 61), gan arddangos teimladau gelyniaethus.

Ymhellach, ceir rhai cyferbyniadau arwyddocaol rhwng y Cymry a'r Saeson yn y nofel. Enghraifft o hyn yw'r sylw i alcohol. Ceir disgrifiad negyddol o'r Sais Captan Warlow (captan y *Pembroke*) wrth yfed: 'yn ddiamynedd iawn ... yn ei dymer ddrwg trawodd y bwrdd o'i flaen â'i ddwrn tew' (t. 10). I'r gwrthwyneb, ceir disgrifiad yn nes ymlaen o Barti Ddu yn ymwrthod ag alcohol yn llwyr, ac Abram Tomos yn yfed llawer llai na'r môr-ladron eraill (t. 80). Yfed, hefyd, yw un o nodweddion amlycaf y cymeriad

Simpson.<sup>61</sup> Sais arall yw ef, sydd yn ymuno â Chaptan Warlow er mwyn 'drachtio'i chalon hi' (t. 80). Ceir golwg arall ar arfer y Cymry cyffredin o ymwrthod ag alcohol ar ddechrau'r gyfrol pan ymfalchïa pentref Abergwaun fod 'dau hen feddwyn garw a oedd wedi achosi llawer o ofid i lawer o bobl' wedi'u dal gan y *Press Gang* (t. 10). Portreedir yfed alcohol fel rhywbeth negyddol felly, ac ymhellach mae'n rhywbeth negyddol y mae *eraill* yn ei wneud – mae'r Cymry cyffredin, i'r gwrthwyneb, yn gallach ac felly'n uwchraddol a chyda'r pŵer i feirniadu. Gellid tybio mai ymateb i arferion cymdeithasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif a wna'r awdur yma, gan roi sylw i ddirwest yng Nghymru. Serch hynny, mae'r duedd i roi sylw negyddol cyson i'r ddiod feddwol yn y nofel yn arwyddocaol.

Un cymeriad sy'n amlygu ei hun fel 'arall' yn y nofel yw John Davies. Mae'n bosib mai ef yw gwir elyn y Cymry a Chymru yn y nofel – canys mae'n Gymro gwael, yn gweithredu fel gwenwyn i bopeth glân a gloyw. Ef a benderfynodd geisio criw i ymuno â 'Llynges Ei Mawrhydi'r Frenhines Anne' (t. 6) trwy gipio dynion o Gymru, a hynny o'r 'Fro Gymraeg'. Fe sicrhodd y pwysigion yn Swyddfa'r Llynges yn Llundain y byddai'n 'cael criw yn hawdd yng Nghymru ... ond iddo gael bod yn fêt ar y *Pembroke*' (t. 11). Oherwydd y weithred hon y mae Barti yn tyngu llw i ddial 'yn erbyn y Saeson cythraul [a] oedd yn gyfrifol am y ffaith ei fod yn garcharor ar ei ffordd i'r Gorllewin' (t. 23). Gwêl Barti ef fel Sais felly – y gelyn pennaf trwy gydol y stori.

Bychenir John Davies yn y naratif dro ar ôl tro. Yn gyntaf, rhoddir darlun negyddol ohono am ei weithred yn dwyn y Cymry diniwed, ac yn dilyn hyn ceir disgrifiadau negyddol o'i edrychiad, ei gymeriad, a'i ymddygiad. Fe'i bychenir yn y bennod gyntaf wrth ddisgrifio'i edrychiad – 'gwisgai ei het ar dro ar ei ben. Edrychai ei ddillad fel pe baent y mymryn lleiaf yn rhy fach i'w gorff cyhyrog' (t. 12) – darlun ohono fel cymeriad sydd yn israddol oherwydd yr olwg gomic, chwerthinllyd. Ar unwaith felly, mae megis yr Arall a ddisgrifiodd Said mor aml, sef person israddol, chwerthinllyd yr olwg, a pherson y gellid pwyntio bys ato a'i ffaeledau. Ar yr un pryd, fe fychenir y Saeson gan mai dan eu dylanwad nhw y mae wedi datblygu i edrych ac ymddwyn fel hyn, canys mae wedi byw yng ngwlad y Sais ers blynyddoedd lawer. Os yw'r cymeriad yn edrych

---

<sup>61</sup>Er na enwir Simpson yn Sais yn y nofel, gellir tybio mai yr un ydyw â'r Sais Lord David Sympson a hwyliodd gyda Bartholomew Roberts yn ôl adroddiadau Johnson (1998, 252), a'r Lord David Simpson a gyfeirir ato yn llyfr hanes Breverton (2004a, 90). Yn y nofel, ac mewn hanes, bu Simpson yn hwylio gyda Chaptan Dafydd cyn i Barti fod yn Gaptan arno.



yn chwerthinllyd, mae lle i bwyntio bys at ffaeiddau'r rhai a'i gwnaeth fel hyn, ac felly mae'r Saeson hefyd yn israddol a chwerthinllyd.

Un o'r geiriau eraill a ddefnyddiodd Said wrth gyfeirio at arallrwydd oedd 'anifeilaidd'. Wrth drafod y cysyniad o'r *Orient* casglodd bod y ddeuliaeth rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain yn allweddol. Pwysleisiodd y modd yr oedd/y mae'r Gorllewin yn pwyntio bys at yr hyn y maent yn ei weld yn wrthgyferbyniol – sef y Dwyrain, yr israddol, y negyddol a'r anfoesol. Dan ddylanwad Jacques Derrida a theori Dadadeiladwaith, casglodd syniadau am ddeuliaethau gwrthgyferbyniol sy'n rhan o'r meddwl Gorllewinol, ac megis y ddeuliaeth gwryw/benyw, ceir y ddeuliaeth dynol/gwyllt neu ddynol/anifeilaidd. Ceir yn y nofel ddisgrifiad o John Davies: 'roedd golwg mor anifeilaidd a chreulon arno' (t. 42) wrth iddo gam-drin Barti Ddu. Mae'r disgrifiad yma yn israddoli'r cymeriad, tra ar yr un pryd yn uwchraddio'r gwrthwyneb iddo – yn amlwg yn y rhan hon o'r stori, Barti Ddu yw'r cymeriad uwchraddol hwnnw.

Ceir mwy o gymariaethau deuol rhwng Barti a John mewn disgrifiadau pellach yn y nofel. Wrth gyfarfod Capten Dafydd am y tro cyntaf, disgrifia Barti y Cymro di-Gymraeg fel y 'dihiryn pennaf ar fwrdd y *Pembroke* ... fedra i ddim gwasanaethu ar yr un llong â'r dihiryn yna' (t. 61). Nid yw Barti fan yma yn sylweddoli felly y bydd ef yn ddihiryn tebyg i raddau yn y man, trwy ddatblygu'n fôr-leidr ei hun. Pan gaiff Barti gyfle i ddial, darlunnir ef megis arwr hyderus a di-ofn o'i gymharu â chymeriad ofnus a llai hyderus o lawer John Davies. Mae John Davies yn awr yn ymddwyn fel llwfrgi – gan ofyn i Barti anghofio'r gorffennol. Ymhellach, yng nghanol yr ysgarmes, caiff John Davies ei anafu ar ei foch, a phan wêl y gwaed mae'n taflu ei arf ac yn rhedeg am ei fywyd. Mae'r naratif a phob cymeriad arall erbyn hyn yn chwerthin am ei ben a'i weithred gachgiaidd: 'dechreuodd y môr-ladron weiddi'n wawdlyd a chwerthin am ben y dyn a oedd wedi troi'n llwfr' (t. 86). Ymhellach eto, caiff y cymeriad ei israddoli wrth iddo beidio â bod digon galluog i osgoi baglu dros blanhigyn a syrthio ar ei wyneb. Ymhellach eto fyth, clywn fod John Davies a'i wyneb yn y planhigion yn gwneud 'sŵn tebyg i grio ... roedd y bwli mawr – fel pob bwli – wedi troi'n llwfr' (t. 86), ac wrth i Barti ei chwipio megis y cafodd ei chwipio ganddo yntau, 'dechreuodd y dihiryn grio'n uchel' (t. 87).

Datblyga sefyllfa John Davies yn fwyfwy truenus yn yr olygfa hon, ac mae'r cyfan mewn cymhariaeth â'r Cymro Cymraeg sy'n ei drechu, ac sy'n arwr i'r stori. Yn wir, rhoddir pwyslais ar y gymhariaeth yma, wrth i Barti ei chwipio bob yn ail â rhestru rhesymau dros y chwipio, sy'n cyfiawnhau'r dial – sef oherwydd creulondeb a haerllugrwydd. Serch hynny, y mae'r rheswm olaf dros chwipio yn un na ellir ei ddileu trwy ddial yn y modd hwn. Fe chwipiodd John Davies Barti ugain o weithiau ar ddechrau'r nofel, ac mae'r creithiau dwfn yn parhau ar groen Barti Ddu. Mae effaith hirdymor felly i'r niwed mae John Davies yn ei wneud i'r Cymro arwrol. Megis trefedigaethwr, mae John Davies wedi gadael ei farc, yn llythrennol, ar y Cymro, ac mae hwnnw'n farc na ellir fyth gael ei wared. Cafodd y dyn hwn effaith seicolegol amlwg ar Barti Ddu hefyd. Wrth ystyried syniadau Fanon, gall y datblygiad yma yn y stori fod yn arwyddocaol o safbwynt ôl-drefedigaethedd. Megis trefedigaethwr, daeth John Davies i fyd Barti yn ddiwahoddiad, gan drawsnewid ei fywyd yn llwyr. Daeth Barti yn wrthrych trefedigaethedig mewn ffordd, dan gyfundrefn imperialaidd, a hynny yn bennaf oherwydd John Davies.

Nid oes sôn am fodolaeth John Davies go iawn mewn unrhyw ymdriniaeth hanesyddol am Barti Ddu neu fôr-ladron. Rhaid tybio felly fod gan T. Llew Jones reswm bwriadol dros gynnwys y cymeriad yn y nofel hon. Mae'n bosib mai bwriad storïol yn unig oedd ganddo, sef creu cymeriad er mwyn i'r stori gael mwy o gynnwys, ac i'r plot gynnwys mwy o ddigwyddiadau a chymeriadau realistig. Serch hynny, mae'n anodd credu mai dyma fyddai unig fwriad, os bwriad o gwbl, yr awdur dros greu a chynnwys y cymeriad dan sylw. Tua hanner ffordd drwy'r nofel, mae'r cymeriad yn diflannu o blot y stori wrth i Barti ei gam-drin, ac iddo gael ei adael ar ynys. Mae'n gwneud synnwyr i'r awdur gynnwys cymeriad annymunol i Barti gael ei **gasáu** a'i drechu. Yr hyn sy'n ddiddorol yw i'r awdur ddewis cymeriad all gael ei weld fel bradwr i'r Cymry ac i Gymru, gan ei fod wedi troi ei gefn ar ei wlad a'i hiaith er mwyn byw yn Llundain a gweithio i'r Ymerodraeth, ac wedi bradychu ei famwlad eilwaith trwy ddewis mynd yno i gipio dynion i ymuno gyda chriw Llynges Ei Mawrhydi. Mae'r holl fychanu a geir yn y nofel yn arwyddocaol ac yn adeiladu ar y darlun o'r bradwr sydd yn y bôn yn 'ddihyrn o Gymro' (t. 11). Mae i'r feirniadaeth amlwg hon elfen ôl-drefedigaethol amlwg.

Cymhariaeth amlwg arall a geir yn y nofel yw'r sylw i gydymdeimlad Barti Ddu gyda'r caethweision duon y mae'r Saeson yn eu masnachu. Ceir cip ar y weithred hon ym

Mhennod 11, wrth i Gaptan Dafydd sylweddoli bod papurau'r *Royal Ann*, dan arweiniad Capten Baxter o Lundain, yn dangos i'r llong gludo caethweision rhwng Affrica a'r Gorllewin sawl gwaith. Yn ddiweddarach, â Barti'n gaptan ar y môr-ladron bellach, dônt ar draws llong y *Greyhound* o Fryste: 'roedd y dec yn ddu i gyd, fel pe bai miloedd o chwilod yn ei cherdded' (t. 144). Caethweision duon yw'r rhain, ac fe ddisgrifir 'y llongau dychrynlyd hyn' (t. 144) a gweithred eu capteiniaid o'u cipio, a'u gwerthu i 'feistri gwynion' (t. 144) ar ddechrau Pennod 19. Teimla Barti gydymdeimlad a chysylltiad gyda'r bobl israddol hyn: 'teimlodd ei waed yn berwi wrth feddwl am gyflwr truenus y caethweision hyn. Yr oedd yr hyn oedd yn digwydd iddyn nhw, wedi digwydd iddo yntau ... Meddylodd Barti eto am y trueiniaid a oedd i lawr yn yr howld heb olau nac awyr iach, efallai yn marw wrth y dwsinau' (t. 145-7). Wedi clywed 'rhegfeydd uchel, a dynion yn siarad Saesneg' o fwrdd y *Greyhound*, teimla Barti 'ias yn ei gerdded' (t. 146) a phenderfyna ymosod ar y llong, ond mae angen gofal: 'fe allai gollwng brodseid i gorff y llong wneud llanast mawr iawn ymysg y caethweision' (t. 148).

Mae'r caethweision yn llwyddo i ddianc o berfeddion 'y slefer' (t. 144), a gwêl Barti olygfa sy'n gwneud i'w 'galon lamu' wrth i'r caethweision 'dorri'n rhydd' (t. 148), 'yn awr nid oedd chwip y Capten a'i griw gwyn yn mynd i'w rhwystro ddim' (t. 148). Ceir cyferbyniad cryf rhwng y lliw 'gwyn' a 'du' wrth i'r naratif ddisgrifio 'y dorf fawr dda' a'r 'llif du' (t. 148); y 'dynion gwynion' a'r 'dynion duon' mewn ysgarmes (t. 149); a'r 'don ddu yn symud yn araf tuag at y lan' tra bo 'nifer o gyrff morwyr gwynion yn fflotio yn y dŵr' (t. 149) – mae'r caethweision yn well nofwyr na chriw gwyn y llong. Dyma elfen wrthdrefedigaethol gref felly, wrth i gwch Barti lithro heibio'r cyrff gwynion yn y dŵr, ac wrth i'r naratif roi sylw pendant i liw croen y drwg ar un llaw, a'r diniwed ar y llaw arall.

Pan gaiff Barti afael ar Gaptan Fox, capten y llong gaethweision, gwelwn ei atgasedd at weithred y dynion hyn: 'nid oedd neb o'r môr-ladron wedi gweld Barti mor sarrug ac anghwrtais. Roedd hi'n hawdd gweld ei bod yn gas ganddo'r dynion yma ... a oedd wedi cam-drin y bechgyn 'ma' (t. 150). Yn ddiweddarach, mae Capten Fox yn cwyno am gael ei anfon i'r howld gan Barti, gan ddweud eu bod 'yn afiach iawn lawr fan na' gan fod 'nifer o'r caethweision wedi marw lawr fan na' (t.150) – ymateb Barti yw gwenu 'fel y Gŵr Drwg 'i hunan' (t. 150). Mae Barti'n gorchymyn criw'r *Greyhound* i lanhau'r llong, ac mae am weld y caethweision yn cael eu claddu'n "barchus yn y môr" (t. 151). Dengys Barti barch mawr tuag at y caethweision duon "oedd wedi'u cau fel anifeiliaid

yn yr howld”, gan ddweud y dylai grogi Capten Fox “wrth yr iardarm” am ei ddiffyg trugaredd tuag at y duon (t. 152). Mae Barti'n gadael i griw'r *Greyhound* fynd i'r dŵr, gyda'r tebygrwydd uchel o gael eu lladd gan y duon sydd wedi llwyddo i nofio i'r lan. Dyma arallrwydd cryf rhwng Barti Ddu a'r dynion hyn o Loegr, wrth i Barti ddangos **casineb** tuag at weithredoedd y trefedigaethwyr hyn, a **chydymdeimlo** gyda'r dynion duon trefedigaethedig.

Ond nid yw'r portread o'r Saeson a'u heffaith yn negyddol bob tro. Ar y cyfan, portreedir Simpson fel person call a hyddysg sy'n gwrtais tuag at Barti ac yn ei longyfarch pan gaiff ei ethol yn gapten (tt. 127, 131, 149). Yn ddiddorol iawn, nid ymddengys i deyrngarwch Simpson y nofel gyfateb i'r Simpson hanesyddol (fel y'i ceir yn adroddiadau Johnson, yn wreiddiol ym 1724), oherwydd wrth i Henri Dennis (Sais sy'n aelod pwysig o griw Capten Dafydd yn y nofel, ac yn ôl ffynonellau hanesyddol) fynegi ei gefnogaeth tros ethol Barti yn gapten, mae'n debyg i bawb heblaw Simpson ei gymeradwyo:

This speech was loudly applauded by all but Lord Sympson, who had secret expectations himself, but on this disappointment, grew sullen, and left them, swearing he, 'did not care who they chose captain, so [long as] it was not a papist ...' (Johnson 1998, 162)

Gallai T. Llew Jones fod wedi creu gelyn trwy gymeriad y Sais Simpson felly, ac mae'n ddiddorol iddo beidio â gwneud hyn. Portread tebyg hefyd a geir o gymeriad Dennis – mae'n Sais 'doeth a hirben' a 'chall' (tt. 95, 96), yn ufudd i Barti ac o blaid ei benderfyniadau. Ef sy'n awgrymu Barti fel olynydd i Gapten Dafydd, ac mae'r awdur yn cadw at ffeithiau hanesyddol yn hyn o beth.<sup>62</sup> Yn ychwanegol, portreedir y Sais Ashplant fel 'cyfaill' (t. 82) i Gapten Dafydd, ac un y mae Barti yn ymddiried ynddo: 'fe wyddai Barti na fyddai Ashplant byth yn gwneud dim y tu ôl i'w gefn ... nid dyna natur y dyn' (t. 121), ac mae Barti yn ymgynghori ag ef cyn gwneud penderfyniadau.<sup>63</sup> Yn y ddau achos ychwanegol hyn cadwodd yr awdur at yr hanes wrth ddarlunio ei

---

<sup>62</sup>Mae Dennis yn aelod o griw Capten Dafydd yn y nofel ac yn hanesyddol. Fe'i cyflwynir yn y nofel fel cymeriad sy'n fodlon gwneud gorchestion i Gapten Dafydd, mae'n uchel ei barch ar y llong, ac mae'n un o'r rhai sy'n addysgu Barti sut i osod llong ar gwrs. Yn adroddiadau hanesyddol Johnson, ceir araith Lord Henry Dennis o blaid dewis Bartholomew Roberts yn gapten newydd (1998, 162).

<sup>63</sup>Yn y nofel, daeth Ashplant yn fôr-leidr yn dilyn cipio'r llong *Courage* yr oedd yn hwylio arni oddi wrth Gapten Dafydd. Fwy nag unwaith, cyfeirir at Ashplant fel Tomos Ashplant ym Mhennod 13. Rhaid tybio mai wedi drysu'r cymeriad gyda Tomos Anstis yr oedd yr awdur, canys fe gyfeirir ato fel arall yn y nofel fel Valentine Ashplant – a dyma'r enw ar y cymeriad hanesyddol, a enwir yn 'Lord Valentine Ashplant' gan Breverton (2004a, 91) a Johnson (1998, 221).

gymeriadau. Gellid honni, felly, pe byddai'n fwriad gan yr awdur i bortreadu'r Saeson yn negyddol fel dihirod, byddai wedi gallu gwneud hynny'n rhwydd ond, yn hytrach, fe gadwodd at ffeithiau hanesyddol gan anwybyddu'r potensial hwnnw. Nid yw'r arallrwydd, a'r gwahaniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson, yn drawiadol iawn yn nhermau ôl-drefedigaethol, felly.

## ii) Y Benywaidd

Arallrwydd o fath gwahanol yn y nofel yw prinder bodolaeth y fenyw. Gall yr absenoldeb yma fod yn arwyddocaol yn nhermau ôl-drefedigaethedd, gan fod disgwrs theori ffeminyddiaeth yn rhannu llawer o'r un nodweddion â disgwrs theori ôl-drefedigaethedd (Young 2003, 5). Mae'r ddau faes yn wleidyddol ac yn gysylltiedig â'r ymdrech yn erbyn gorthrwm ac anghyfiawnder. Maent hefyd yn ymwrthod â system hierarchaidd a phatriarchaidd, ac yn gwadu goruchafiaeth pŵer ac awdurdod gwrywaidd. Mae imperialaeth, megis patriarchaeth, yn canolbwyntio ar ideoleg oruwchafol, wrywaidd sy'n dylanwadu ar ei wrthrychau (Caslin, d. d.). Yn ei hanfod, mae gweithredwyr ôl-drefedigaethedd yn ymateb yn groes i drefedigaethedd o natur wleidyddol tra bo gweithredwyr ffeminyddol yn ymwrthod â threfedigaethu o natur ryweddol. Mae'r eglurhad canlynol yn dangos cysylltiad ffeminyddiaeth ac ôl-drefedigaethedd:

The deepest foundation of the order of oppression is gendering, which names the male normal, dominant, active, and the female other, subject, passive. To begin to imagine freedom, the myths of gender, like the myths of race have to be exploded and discarded. (Le Guin 1993, 24)

Wrth edrych yn ôl ar thema'r stori antur, mae absenoldeb y fenyw yn gyffredin mewn llenyddiaeth o'r fath (Hourihan 1997, 29); wedi'r cwbl, cynhyrchwyd genre o lenyddiaeth a oedd yn addysgu bechgyn i fod yn fechgyn (hynny yw, yr hyn oedd/mae oedolion yn credu sy'n gwneud bechgyn yn fechgyn). Gwelwyd ym Mhennod 2 fod yr arwr yn wryw gwyn, yn arwr gonest, teyrngar i'r Frenhines, sy'n ymladd yn deg fel Prydeiniwr, gan amddiffyn y gweinion yn erbyn y cryfion. Mae'n arwr sy'n fodlon marw dros ei achos, ac mae ei rinweddau gwrywaidd yn annatod gysylltiedig ag ymerodraeth ac imperialaeth. Nid oes lle i gymeriadau benywaidd yn y math hwn o stori felly a bathodd Holst-Peterson a Rutherford y term *double colonisation* i ddisgrifio

sefyllfaoedd pan geir gwahaniaethu yn erbyn y benywaidd oherwydd eu sefyllfa trefedigaethedig a hefyd oherwydd eu bod yn fenywod, ac felly'n 'literally fighting for visibility' (1986, 9).

Fe gadwodd T. Llew Jones at y nodwedd hon i raddau helaeth, gan gynnwys cymeriad benywaidd sy'n cynrychioli cymeriad stoc ystrydebol – cymeriad sy'n ffitio i'r math hwn o lenyddiaeth. Serch hynny, fe heriodd y drefn i raddau yn ogystal, gan gyflwyno benyw ar ddechrau a diwedd y stori, ac yn fwy arwyddocaol, cyfeirir at y fenyw honno, a'i dylanwad ar arwr gwrywaidd y nofel drwyddi draw (tt. 22, 23, 28, 44, 123, 155, 156, 168, 171, 173, 175, 186). Dyma ddwy nodwedd sy'n amlygu'r nofel fel un ôl-drefedigaethol, felly, gan ymwrthod â dwy nodwedd amlwg yn y straeon antur a gysylltir â threfedigaethedd: mae menyw yma, ac mae hi yn ddylanwadol ar y stori drwyddi draw, ac felly mae ganddi lais, er mai ymylol ydyw.

Megan yw enw'r cymeriad benywaidd dan sylw, ac unig gymeriad benywaidd y nofel. Ar ddechrau'r nofel, rydym yng ngwledd briodasol Barti Roberts a Megan. Cyflwynir Megan fel merch dlos benfelen a allai fod wedi dewis unrhyw un o'r boneddigion fel gŵr – 'dyn a wŷr roedd sawl un o'r rheini wedi treulio llawer o'u hamser yng ngwesty Llwyn-gwair yn ceisio'i charu. Ond roedd hi wedi dewis pysgotwr! Pysgotwr o bob peth!' (t. 14). Barn tad anfodlon Megan a geir yma. Caiiff y darlun ystrydebol yma o ferch benfelen ei ymestyn ymhellach gyda disgrifiad o ystafell wely Megan (gyda 'bwrdd a drych arno', 'brws a chrib, blychau a photeli bychain'); yr arogl 'perffiw'; ei 'chroen glân fel ifori'; ei 'llygaid gloyw'; ei hwyneb 'del' (t. 17); ei 'bochau tlws ... yn goch fel tân'; ei 'hwyneb tlws a'i chorff bach, lluniaidd' (t. 22).<sup>64</sup>

Y syniad o falchder a'r darlun o wallt melyn a chroen clir, ynghyd ag eiddo ystrydebol benywaidd – darlun y mae beirniaid ffeminyddol wedi, ac yn, ceisio'i chwalu, gan geisio pwysleisio bod pob benyw, a'i hedrychiad a'i diddordebau, yn unigryw. Megis tegau

---

<sup>64</sup>Dyma ddarlun sy'n ein hatgoffa o ddol Barbie, rhywbeth sydd wedi achosi llawer iawn o feirniadaeth a thrafodaeth yn ystod yr ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain: 'Simply put, the feminist critique of the Barbie doll is grounded in the notion that dolls such as Barbie reconstitute the oppressions of patriarchy and the detrimental aspects of capitalism in the most dangerous manner in the guise of child's play. Feminist perspectives on beauty call attention to the high value that Western, patriarchal society places on attractiveness in women. Particularly in North American culture, the message to women and young girls is that beauty is a central feature of a woman's identity and worth is constantly reinscribed through the ever present media' (Lind & Brzuzy 2008, 26).

(fel doliau *Barbie*), mae llenyddiaeth yn rhywbeth y mae plant yn uniaethu ag ef, yn fodd i blentyn benderfynu beth sy'n bwysig i'w byd, ac yn ffordd o gadarnhau ac atgynhyrchu hunaniaeth (Meek 2001c, x). Trwy bortreadu Megan fel benyw sy'n atgynhyrchu ystrydebau benywaidd, y mae'r awdur yn hyrwyddo'r ystrydebau a'r hunaniaeth. Yn ogystal â'r darlleniad ffeministaidd, mae'r darlun ystrydebol yn pwysleisio arallrwydd y fenyw – mae Barti yn rhyfeddu at ei hedrychiad a'r elfennau eraill benywaidd amdani – y mae'r fenyw yn fod 'Arall', gwahanol i'r gwrywaidd, ac yn fod y mae gan y gwryw yr hawl i'w beirniadu o ran edrychiad, sy'n atgyfnerthu syniadau am wryw uwchraddol. Gellid dadlau bod llenyddiaeth, felly, yn fodd ar reoli cymdeithasol; yn ôl Dixon mae hyn yn golygu bod menywod yn cael eu rheoli gan y cyfryngau, ac felly gan eu gormeswyr gwrywaidd (2011, 2). Megis syniadau ôl-drefedigaethedd Fanon am y person croenddu, ni all menyw reoli ei hisraddoldeb oherwydd y mae'n rhan o'i hedrychiad: 'I am given no chance. I am overdetermined from without. I am the slave not of the "idea" that others have of me but of my own appearance' (1967a, 116).

Eir ymhellach gyda'r pwyslais ar arallrwydd wrth i'r cymeriadau sgwrsio am eu diwrnod. Mae rhywfaint o annealltwriaeth yn eu sgwrs wrth i Megan ddweud y bydd hi'n cofio'r diwrnod am byth. Mae Barti yn derbyn ei geiriau yn ysgafn, tra bo Megan yn egluro y bydd hi'n cofio 'pob digwyddiad bach, pob gair o'r gwasanaeth yn yr eglwys, a'r ffrog las 'ma a'r wledd briodas, ac fel oeddet ti'n edrych pan gerddaist ti mewn ...' (t. 17). Mae Barti yn synnu wrth glywed hyn, ac mae'r gwahaniaeth rhyngddynt, y polareiddio rhwng dau ryw, yn nodweddiadol o'r darlun benywaidd sy'n cyflwyno menywod fel bodau sy'n hoffi manylion a breuddwydion, tra bo'r gwrywaidd yn hoffi digwyddiadau a realaeth.

Ceir cyfeiriad at statws israddol y fenyw yn y bennod hon hefyd wrth i gymeriadau eraill ymddangos. Pan yw'r *Press Gang* ar fin torri'r drws i gyrraedd ystafell wely Megan a Barti, mae Barti'n cuddio dan y blancedi, tra bo Megan yn barod i'w hwynebu – mae'r ffaith i Barti wrando ar orchymyn ei wraig trwy guddio yn dangos amwysedd hierarchaidd eu perthynas. Ond, ar y llaw arall, mae statws israddol y fenyw fel person gwan yn cael ei ddarlunio: 'cyn i'r dihirod dorri i mewn roedd hi wedi penderfynu bod yn ddewr' (t. 19) – er bod ymgais fechan i gyflwyno Megan fel cymeriad arwrol dewr sy'n fodlon wynebu'r sefyllfa, mae hefyd yma'r ffaith bod yr awdur wedi pwysleisio bod

rhaid i hyn gael ei *benderfynu* – nid nodwedd naturiol ydyw felly – ac yn y frawddeg ddilynol caiff 'dewrder' Megan ei chwalu wrth iddi ddod wyneb yn wyneb â'r 'dihirod digywilydd' hyn (t. 19). Dyma gyffwrdd ar y cysyniad o gymysgrywedd felly – mae Megan yn pendilio rhwng bod yn gymeriad cryf a chymeriad gwan, ac mae cymysgwch y peth yn ei gwneud yn gymeriad ôl-drefedigaethol.

Ymhellach, caiff statws y ferch ei israddoli wrth i'r dynion ddweud bod ei thad wedi rhoi caniatâd iddynt ddod i'r ystafell wely. Dyma ddarlun felly o'r gwryw awdurdodol yn gorthrymu merch ddiniwed. Y mae hefyd yn arwydd o ffolineb a gwendid gwrywaidd, wrth i'r tad achub ei groen ei hun. Dilyna hyn eiriau Megan yn protestio y bydd ei thad yn gweithredu pan glyw am y digwyddiad – caiff ei distewi ar unwaith felly, ac wrth iddynt chwerthin ar ei phen caiff ei gobeithion a'i ffydd eu chwalu gan y gwrywod hyn a'i thad. Mae'r cysyniad o ddistewi yn un y bu'r theorïwraig Spivak yn ei drafod yn fynych, gan labelu'r dioddefwyr yn *subaltern*. Pwysleisiodd Spivak bod y *subaltern* trefedigaethedig yn rheng israddol, a'r fenyw drefedigaethedig hyd yn oed yn fwy israddedig oherwydd ei chenedl: 'If in the context of colonial production, the subaltern has no history, and cannot speak, the subaltern as female is even more deeply in shadow' (1988, 82-3).

Caiff Megan ei distewi gan ddynion y *Press Gang* a'i gwthio i'r cysgodion – does ganddi bellach ddim 'gofod' i siarad. Parhau mae israddoli'r fenyw wrth i'r dynion fynegi eu chwant rhywiol: 'dyma damaid bach blasus, ontife ffrindie ... fe allai fod yn gysur mawr i ni yn ystod y nosweithiau unig ar y môr!' (t. 19). Caiff ei cham-drin ymhellach wrth i 'un o'r morwyr [roi] pinsiad i Megan yn ei phen ôl. A cheisiodd un arall roi ei fraich am ei chanol. Tynnodd un mwy haerllug na'r lleill ei ffrog briodas o'i dwylo, a cheisiodd un arall ... roi cusan iddi. Roedd ei theimladau'n gawdel i gyd' (t. 20). Wrth iddynt ddarganfod Barti yn ei guddfan, ac i'r sefyllfa droi'n ffrwgd, mae rhywun yn taro yn erbyn Megan 'a'i thaflu i'r llawr' (t. 20). Mae'r fenyw, fel aelod o grŵp lleiafrifol, yn cael ei diffinio a'i thrin yn annheg gan y gwrywaidd, sy'n arddangos nodweddion patriarchaidd ac yn ogystal, nodweddion trefedigaethol 'gwahaniaethu'. Megis y trefedigaethedig, mae'r fenyw yma yn dioddef camdriniaeth a thrais gan y gwrywod hyn.



Ar wahân i'r uchod, ni ymddengys y cymeriad benywaidd yn y nofel nes y bennod olaf, pan ddychwel Barti 'Adre'n Ôl' (teitl y bennod, t. 168) i geisio bywyd gyda'i wraig yng Nghymru. Yma, gwelwn y ferch fel cymeriad gwan unwaith eto – yn crio pan sylweddola pwy ydyw Barti. Mae'r ffaith i Megan ail-briodi yn dangos cyn lleied o bŵer fu ganddi, gan orfod cydymffurfio â'r disgwyliadau i ail-briodi; y mae hi wedi arddangos diffyg teyrngarwch i'w gŵr, ac wedi'i dwyllo trwy ddechrau perthynas ag ail ŵr. Mae'r annealltwriaeth rhwng y fenyw a Barti yn arddangos arallrwydd unwaith eto, a chan mai Barti yw arwr tybiedig y nofel, Megan yw'r un sy'n ymddangos yn wahanol a rhyfedd. Dyma atgoffa'r darlennydd ôl-drefedigaethol am syniadau Said am bobl drefedigaethedig fel yr 'arall' sy'n cael eu portreadu fel bodau rhyfedd, gwahanol, a chanddynt lai o reolaeth dros eu bywydau eu hunain (1978, 43).

Serch hynny, ceir amwysedd yn y nofel wrth i Megan dderbyn statws uwch yn nes ymlaen gan arddangos awdurdod. Mae'n dweud wrth Barti am adael, ac mae ef yn ymateb iddi hi a'r newyddion am ei hail briodas a genedigaeth plentyn 'fel dyn wedi drysu' (t. 180) – mae'n troi'n 'ffyrnig' (t. 181) ac yn 'chwerw' (t. 182). Dengys Megan ei helpen awdurdodol ymhellach wrth i'w hail ŵr, Gilbert, ymddangos – mae ef hefyd yn gwrandao arni pan yw'n gweiddi arno i beidio nôl cymorth dynion eraill i ddal Barti. Mae'r cymeriad israddol, yr arall yma, yn awr yn arddangos awdurdod a statws uwch, ac felly'n dangos ei bod wedi trechu awdurdodau gwrywaidd eraill. Dyma droi'r *inferiority complex* y cyfeiriodd Fanon ato (1967a, 11), a'r stereoteip o fenyw wan, ben i waered, wrth i'r trefedigaethedig (os ystyriwn y benywaidd yn y termau hyn), yr israddol, droi'r ddysgl a chymryd yr awenau awdurdodol.

Tuag at ddiwedd y nofel, ceir beirniadaeth gan Barti ar fenywod wrth iddo glywed llais morwr yn canu cân fôr sy'n gyfarwydd iddo – am ferch o Amsterdam yn twyllo morwr a'i wneud yn dlawd: “Merched! O'r merched!” meddai Barti wrtho'i hun ... roedd yntau wedi cael ei dwyllo gan ferch. Y ferch o Amsterdam a'r ferch o Lwyn-gwair – adar o'r unlliw oedden nhw' (t. 186). Mae Barti yn stereoteipio'r rhyw fenywaidd yma, gan honni eu bod oll yn dwyllwyr. Wrth drafod 'hanfodaeth' (*essentialism*), dadleuodd Spivak bod perygl i leisiau'r israddol (*subaltern*) arwain at gyffredinolli, gan greu stereoteip. Yma, felly, mae Barti yn arddangos rhagfarn rywiaethol (*sexism*), gan weld merched mewn modd hanfodaidd, trwy honni bod twyllo yn rhywbeth y mae pob merch yn ei wneud. Ymhellach, teimla Barti ei fod wedi ei orchfygu gan gymeriad benywaidd,

ac mae'n flin am hynny. Dengys ei deimlad o fethiant, ac mae ei atgasedd at y sefyllfa yn amlwg wrth iddo edrych tua'r lleuad lawn wrth hwylio ymaith o Gymru a chwerthin yn uchel – mae'r môr-leidr Dennis yn ei glywed ac yn synnu gan nad oedd 'wedi clywed tinc mor galed a chwerw yn chwerthin y capten erioed o'r blaen' (t. 187). Mae'r hierarchaeth wedi ei droi ben i waered felly – nid y trefedigaethwr gwrywaidd sy'n rheoli'r sefyllfa bellach, ond y cymeriad israddol, ymylol, yr arall. Mae hynny yn ddisgrifiad o weithred ôl-drefedigaethol, mae'r israddol wedi cael llais yn y nofel, ac mae'r llais wedi bod yn ddigon cryf i anfon y cymeriad trefedigaethol o'r genedl drefedigaethedig. Mae'r ferch, felly, yn symbol o adfywio llais a bodolaeth yr israddol. Er mai Barti yw'r un sy'n ymddangos fel arwr naturiol y nofel, gellid dadlau bod gweithred y ferch o'i wrthod yn arddangos cryfder y fenyw, ac o bosib yn fodd o hyrwyddo llais y fenyw, yr arall israddol, i'r darllenwyr.

Mae'r amwysedd a'r cymysgrywedd yn amlwg yn y bennod olaf felly, wrth i statws ac awdurdod dau gariad simsanu. Awgrymir yn y bennod olaf y bydd y fenyw yn rhan o Barti hyd ei farwolaeth, ac mae'n wir ei bod hi wedi bod yn rhan ymylol ohono trwy gydol y nofel. Caiff ei atgoffa o'i wraig yn y cyfnodau cynnar ar y môr, ac mae'n hiraethu amdani, tra ar yr un pryd yn tyngu llw y bydd yn dial ar y Saeson am ei ddwyn oddi wrthi. Mae'r cymeriad benywaidd yn ei aflonyddu trwy gydol y nofel, mae hi i raddau yn faich arno gan fod ei bodolaeth yn ei blagio'n gyson, ac yn ei atgoffa'n fynych o'i addewid i ddial, a'i addewid i ddychwelyd i Gymru. Wrth drafod y genre antur, nododd Hourihan nad oes bodolaeth fenywaidd yn y straeon antur oni bai eu bod yn rhan o'r antur mewn modd ymylol: 'women are of no significance except when they make an impact upon men' (1997, 156). Ni all Barti fyw fel môr-leidr rhydd tra ei bod hi yn dylanwadu ei feddwl, ac felly gellid dweud iddo yntau gael ei drefedigaethu mewn modd seicolegol ganddi hithau – mae'n amharu ar ei ffordd o fyw, ac ar ei ffordd o feddwl. Ar y llaw arall, heblaw am ei bodolaeth, mae'n bosib iawn y byddai'r cymeriad Barti Ddu wedi anghofio'n gyfan gwbl am ei gynefin a'i bobl a'i iaith, canys mae'n mwynhau bywyd y môr-leidr cymaint. Ei wraig yw'r cyswllt pennaf sy'n ei dynnu'n ôl i Gymru, ac mae hyn yn y bôn yn rhoi statws uchel i'r fenyw gan mai hi yw hanfod ei Gymreictod a'i gydwbybod Gymreig, y mae hi'n cynrychioli Cymru iddo. Mae yma gymhlethdod, amwysedd a chymysgwch felly – mae anghysondeb ynglŷn â phwy sydd â'r llaw uchaf, ac yn y bôn mae'r elfen gymysgryw yma yn arddangos llais ôl-drefedigaethol sy'n gwrthdroi trefedigaethedd (Bhabha 1994, 114).

O ran motiff y môr-ladron, nid yw'n syndod na chynhwysir cymeriadau benywaidd eraill yn ystod y stori. Yr oedd yr awdur yn sicr wedi gwneud gwaith ymchwil i fywyd ac arferion y môr-leidr oherwydd yr oedd gan y môr-ladron god ymddygiad digamsyniol. Un o reolau'r cod ymddygiad ac un o arferion llawer o'r môr-ladron oedd nad oedd benyw i roi troed ar fwrdd y llong ar unrhyw gyfrif. 'Os oedden nhw'n dod â gwraig neu fenyw ar fwrdd y llong, mi roedd hynny'n anlwcus i'r fordaith' (Stevens 2012), a phe byddai benyw ryw ffordd yn cyrraedd bwrdd y llong, fe gâi hi warchodwr i'w hamddiffyn rhag ymosodiad gan unrhyw un o'r criw (Alleyne 1986, 70).<sup>65</sup> Yn wir, lluniodd Bartholomew Roberts gyfres o reolau yr oedd rhaid i bob aelod o'r criw eu harwyddo (Breverton 2004a, 102), ac yn rhan o'r cytundeb ceid:

VI: No Boy or Woman to be allow'd amongst them. If any Man were found seducing anny of the latter Sex, and carried her to Sea, disguised, he was to suffer Death. (Johnson 1998, 180)

Cadwodd yr awdur at nifer o ffeithiau hanesyddol, felly. Ar y llaw arall, nid oes sôn am Megan, nac unrhyw gariad arall, mewn unrhyw ffynonellau hanesyddol. Gall fod mai eisiau cynnwys ychydig o stori gariad yr oedd T. Llew Jones, gan gydymffurfio â norm y genre. Ar y llaw arall mae'n bosib fod ganddo reswm i gynnwys yr atyniad yn ôl i Gymru yn ei stori, a hwnnw'n rheswm ôl-drefedigaethol, sef bod yr arwr, yn wahanol i'r trefedigaethwyr a'r arwyr imperialaidd (a geid mewn straeon antur Saesneg traddodiadol) a oedd yn ymgartrefu ar diroedd trefedigaethedig, yn dychwelyd i'w famwlad er mwyn ceisio bywyd newydd, 'ôl-drefedigaethol' yno gyda'i wraig. Mae'r syniad yn mynd y tu hwnt i drefedigaethu eraill felly, ac mae yma fwriad i ddangos gwladgarwch trwy ddychwelyd i geisio bywyd gyda brodorion ei famwlad a'i wraig; mae amwysedd a chymysgwch y cyfan yn arddangos llais ôl-drefedigaethol. Mae'n bosib bod yr awdur wedi cynnwys y fenyw yn y nofel gan ei bod hi'n bwysig i'r prif gymeriad ddychwelyd i Gymru – hi oedd ei gyswllt pennaf â'i famwlad, ac yn dilyn ei ddychweliad mae hi'n troi'n gymeriad liminal wedi iddo ryddhau ei hun i'r môr.

---

<sup>65</sup>Mae'r ffaith i gynifer o longau môr-ladron weithredu'r rheol hon yn arwyddocaol. Serch hynny, roedd rhai o'r môr-ladron enwocaf a chreulonaf yn fenywod (e.e. Mary Read, Anne Bonny, Jeanne de Clisson, Mary Killigrew).

### iii) Cymysgrywedd (*Hybridity*) a Dynwared (*Mimicry*)

Soniwyd ychydig eisoes am gymysgrywedd wrth ymdrin â'r cymeriad benywaidd. Mae cymysgrywedd yn deillio o gyswllt rhwng diwylliannau (Bhabha); ac er y gall fod yn brofiad dolurus i unigolyn, mae'r gofod hwn o gyswllt yn fan cyffrous a chynhyrchiol yn nhermau cynhyrchu, ymestyn a chyflwyno diwylliant (Bohata 2004, 25). Trafodir cymysgrywedd yn nhermau gofod a lle yn nes ymlaen yn y bennod hon; ond yma, ceir dadansoddiad o'r hyn sy'n digwydd i ambell gymeriad mewn gofod rhwng-dau-le, sef y môr. Megis y môr hylifol ei hun, mae cymysgrywedd hefyd yn hylifol; yma gwelir unigolion yn cymysgu ag eraill mewn gofod newydd gan arwain at argyfwng hunaniaeth a chymysgrywedd Cymry-Prydeinwyr-Saeson.

Awgryma teitl cofiant Said (*Out of Place: A Memoir*, 1999) y synnwyr o fod 'out of place', a dyma'n union sut mae Barti, a'r Cymry eraill a ddygwyd o Gymru, yn teimlo ar ddechrau'r nofel. Yr hyn a geir yn *Barti Ddu* yw arwr sy'n datblygu'n gymeriad cymysgryw iawn wrth iddo ddod yn fôr-leidr, ond er iddo fod yn fôr-leidr llwyddiannus ac arddangos nodweddion trefedigaethol, Cymro ydyw, ac mae elfen ohono am ddychwelyd i fywyd distaw mewn cymdeithas Gymraeg yng Nghymru. Ar ddechrau'r nofel, mae byd Barti Ddu yn lleol iawn, hynny yw, mae ei fywyd du a gwyn yn un syml a distaw – Cymro mewn cymdeithas Gymraeg ar dir Cymru ydyw. Trwy gael ei gipio, ac yn ddiweddarach droi'n fôr-leidr, datblyga cymeriad Barti yn un cymysgryw nes mai cymeriad llwyd, mewn cymdeithas aml-hil ac amlieithyddol, ac mewn gofod ansefydlog ydyw. Yn ôl Bhabha (1994, 113-4): 'hybridity is a problematic ... that reverses the effects of the colonial disavowal'. Mae cymysgrywedd yn arwain at newid mewn awdurdod pŵer, a dyma'n union sy'n digwydd yn y nofel wrth i Barti ddatblygu'n Gaptan, dyma'r 'heroic victim' (Root 2007, 227), mae'r cymeriad israddol a ddiodefodd bellach yn uwchraddol a'r llais ôl-drefedigaethol yn gryf. Mae llwyddiant y môr-ladron yn dibynnu ar gyd-ddibyniaeth a chyd-weithio, ac nid ar system hierarchaidd, sy'n ein hatgoffa o fyth yr herwr, 'these mutual and democratic values remain an important and lasting element in the outlaw myth' (Knight 2003, 18). Mae Barti yn ddyn y bobl, fel petai'n naturiol wedi cyrraedd bywyd yr *outlaw* ar y môr, ond mae'n gymeriad hybrid hefyd, gan nad yw bob tro yn chwarae rôl awdurdodol, a chan ei fod yn pendilio rhwng caru, a **chasáu**, ei fywyd ar y môr.

Cymeriad arall hybrid yw John Davies. Mae'n gymeriad cymysgryw iawn yn y modd y mae'n Gymro, ond yn Gymro di-Gymraeg, ac yn Gymro sydd wedi byw yn Llundain ers blynyddoedd maith. Er mai gwreiddiau Cymro sydd iddo, nid oes unrhyw elfennau a gysylltir yn draddodiadol ac yn rhinweddol â Chymro iddo – nid yw'n siarad y Gymraeg, nac yn cyd-dynnu gyda'r Cymry eraill (sy'n ei bolareiddio ef â'r Cymry eraill yn y nofel). Fe'i portreedir fel cymeriad creulon, cymeriad sydd wedi ei drefedigaethu yn llwyr ydyw i raddau – mae wedi ei ddylanwadu'n llwyr gan y Prydeinwyr, ac wedi datblygu'n gymeriad Prydeinig sy'n brwydro dros yr Ymerodraeth ar y môr. Fel y nodwyd gan Bhabha ac eraill, mae cymysgrywedd yn newid awdurdod pŵer, ac mae rhoi'r pŵer yn nwylo cymeriad hybrid yn fygythiol i oddrych llai pwerus. Gellid dadlau bod agwedd negyddol y naratif tuag ato yn arf bwysig i'r awdur berswadio'i ddarllenwyr o effaith negyddol Prydeindod a threfedigaethedd. Ar y llaw arall, gellid dadlau i'r gwrthwyneb – mai Cymro sy'n dynwared y Sais ydyw John Davies yn y bôn, ac felly cymeriad sy'n tanseilio cyfundrefn imperialaidd trwy ddynwared ei gweithredoedd. Yn ôl y theori, arwain hyn at danseilio'r Sais a'i ymddygiad, gan roi rôl awdurdodol uwch i'r Cymro. Beth bynnag fo'r achos, y mae'n gymeriad sy'n duo'r darlun o'r Saeson.

Cymeriad arall sy'n haeddu sylw yw Abram Tomos. Nid oes sôn am fodolaeth Abram Tomos go iawn mewn unrhyw ffynonellau hanes ac felly mae'n amlwg fod yr awdur wedi creu'r cymeriad ffuglennol. Gellid dweud mai Abram yw gwir arwr y nofel gan fod ei stori ef yn dychwelyd yn gylch taclus, tra bo Barti ar y llaw arall yn cael ei wrthod gan ei famwlad, ac yn marw mewn brwydr ar y môr. Parhaodd Abram yn gymeriad unlliw, heb i fywyd y môr-leidr ei drawsnewid yn gymeriad hybrid. Ef yw'r cymeriad sy'n aros yn driw i'w hun fwyaf yn y nofel – mae'n Gymro ar ddechrau a diwedd y nofel, tra bo gweddill y stori yn grych bychan yn ei fywyd. Mae ei bersonoliaeth a'i deimladau yn unfryd trwy gydol y stori – yr unig beth y mae am ei wneud yw dychwelyd i'w fyd ei hun, yng Nghymru. Fe ddynwaredodd y môr-ladron pan oedd rhaid iddo wneud hynny er mwyn byw. Megis syniadau Fanon am y trefedigaethedig, fe wrthododd Abram y trawsnewid o fod yn Gymro i fod yn fôr-leidr, ac roedd rhaid gwrthod y trawsnewid hwn er mwyn dad-drawsnewid ei fywyd, ac fe wnaeth Abram hyn yn llwyddiannus. Os ystyriwn weithred y *Press Gang* fel un trefedigaethol, a bywyd ar y môr fel bywyd y trefedigaethwyr, fe amddiffynnodd Abram y defnydd o drais fel dull o frwydro am ei annibyniaeth, a thrwy frwydro fe hawliodd Abram ei fywyd a'i gynefin yn ôl, gan ddychwelyd adref i gyfnod 'ôl-drefedigaethol' ac annibynnol. Fe

frwydrodd er mwyn derbyn y genedl yn ôl yn ei fywyd, ac fe weithiodd er marwolaeth y 'trefedigaethwyr', sef y rhai oedd yn ei gadw o'i famwlad.

Yn ei lyfr cyntaf, *Black Skin, White Masks* (1952), dadleua Frantz Fanon fod pobloedd sy'n cael eu trefedigaethu yn anorfod droi eu cefnau ar eu diwylliant, eu hiaith, eu hanes, eu traddodiadau a'u credoau eu hunain. Er mwyn ennill annibyniaeth a chyfnod ôl-drefedigaethol cadarnhaol, dadleua mewn cyfrol arall (*The Wretched of the Earth*, 1961) fod angen deall y broses o gefnu ar y gorffennol er mwyn trawsnewid y gorffennol hwnnw, a'i adennill. Gellid dadlau mai dyma yw profiad Abram Tomos yn y nofel – yn anorfod mae'n troi ei gefn ar ei wlad, ond mae'n llwyddo i ddeall y newidiadau yn ei fywyd, ac yn llwyddo i drawsnewid ei sefyllfa trwy ddychwelyd i'w famwlad yn berson cyflawn a mwy profiadol gan roi ymgais ar ail-hawlio'r gorffennol er mwyn dechrau ar gyfnod annibynnol a chadarnhaol. Dadleua Fanon hefyd dros drais fel modd o ennill annibyniaeth ôl-drefedigaethol. Fel môr-leidr llwyddiannus, yn wir fe hyrwyddodd Barti Ddu (yr hanesyddol a'r cymeriad yn y nofel) y defnydd o drais, a thrwy ddisgrifiadau T. Llew Jones ohono, deallwn ei fod ar gyfnodau yn mwynhau lladd a threchu eraill, gweithred sy'n dynwared trefedigaethwyr. Gellid hefyd gwestiynu i ba raddau y mae modd darllen yr arwyr Cymraeg yng ngoleuni syniadau Fanon am y 'black skin with white masks'. Disgrifia Fanon ei syniadau am bobl groenddu yn cael eu trawsnewid yn seicolegol trwy gael eu gorfodi i deimlo israddoldeb yn ystod y broses o drefedigaethu. Cred Fanon fod yr orfodaeth ar bobl groenddu i droi eu cefnau ar eu rhinweddau unigryw eu hunain wedi eu trawsnewid yn bobl groenddu dan fasgiau neu orchudd gwynion. Gellid ystyried Barti Ddu yn benodol fel person a chanddo groen "du" y trefedigaethedig dan "fasg gwyn" y trefedigaethwr. I raddau, cafodd Barti ei 'drefedigaethu' yn llwyddiannus gan y môr-ladron – trawsnewidiwyd ei gymeriad a'i fydolwg. Gan ei fod yn berson a gafodd ei wthio i'r ymylon ond sydd bellach yn ymddwyn fel un o'r arwyr Saesneg bachgennaidd imperialaidd traddodiadol mae'n dangos ei fod yn fodlon bod yn fôr-leidr, a hyd yn oed arwain môr-ladron gan chwarae rôl y trefedigaethwr. Yr hyn a wna Barti yw derbyn ei sefyllfa, unwaith yn fôr-leidr, gyda brwdfrydedd, ac mae'n fwy na bodlon i ddilyn a dynwared gweithredoedd bachgennaidd wrth i'r naratif ei arwain trwy anturiaethau sy'n dynwared rhai imperialaidd traddodiadol.

### c) Iaith

Mae'r ffaith i'r awdur ddewis ysgrifennu'r nofel hon (a gweithiau eraill) yn y Gymraeg yn arwyddocaol ynddo'i hun: 'the language choices we make are a central element of our conception of ourselves not just as members of social groups but as self-contained individuals distinct from all others' (Watt 2010, 76). Cyhoeddwyd y nofel mewn cyfnod pan nad oedd statws swyddogol i'r iaith, ac mae ei bodolaeth, yn y Gymraeg, yn cyfleu arallrwydd ynddi'i hun. Boed y penderfyniad o ysgrifennu yn y Gymraeg yn un naturiol (nad oedd yn benderfyniad mewn gwirionedd), neu'n benderfyniad gwleidyddol ieithyddol, mae'r dewis iaith yn elfen bwysig wrth ymdrin â theori ôl-drefedigaethol gan y gellid dadlau bod y weithred o ysgrifennu mewn iaith is ei statws yn rhan o'r broses ôl-drefedigaethol. Fel y nodir gan Ascroft et al. (1989, 7) mae'r weithred o ddefnyddio iaith lleoliad a drefedigaethwyd yn arddangos llais ôl-drefedigaethol effeithiol wrth i gysyniadau pŵer simsanu.

Enghraifft enwog o'r weithred hon yw ymdrech nofelydd o Genia, Ngũgĩ wa Thiong'o, wrth iddo wneud penderfyniad arwyddocaol i roi'r gorau i ysgrifennu'n greadigol yn yr iaith Saesneg. Cred wa Thiong'o oedd bod y Saesneg yn annatod glwm wrth drefedigaethu niweidiol, ac oherwydd ei greddau gwleidyddol a chenedlaetholgar, nid oedd ef eisiau bod yn rhan o'r broses niweidiol hon. Trodd ei gefn ar ysgrifennu yn yr iaith drefedigaethol gan ymroi i ysgrifennu yn ei ieithoedd brodorol, Gĩkũkũ a Swahili.<sup>66</sup> Wrth ddadlau dros ei ddewis ieithyddol, pwysleisiodd wa Thiong'o bwysigrwydd cynulleidfa: 'the choice of a language already pre-determines the answer to the most important question for producers of imaginative literature: For whom do I write? Who is my audience?' (1981, 51). Dadl wa Thiong'o yw y dylai Affricanwr ysgrifennu yn ei iaith ei hun, nid yn unig oherwydd ei pherthnasedd i bobloedd Affrica, ond hefyd gan ei fod o'r farn mai swyddogaeth ysgrifennwr Affricanaidd yw annerch y bobl, y werin bobl, mewn iaith sy'n ddealladwy iddynt, yn hytrach nag yn iaith y trefedigaethwyr, yr *élite* (1981, 53-64). Roedd ei weithred yn un ôl-drefedigaethol felly; gellid dadlau bod gweithredoedd tebyg mewn ieithoedd eraill llai eu defnydd hefyd yn

---

<sup>66</sup>Yn yr un modd, trodd ei gefn at Gristnogaeth a'i enw bedydd James Ngugi gan eu bod yn drefedigaethol yn ei dyb ef. Ysgrifennodd nifer fawr o nofelau, ac ymysg ei weithiau pwysig ym maes ôl-drefedigaethedd mae: *Detained* (1981), sef ei ddyddiadur carchar, a *Decolonising the Mind: The Politics of Language in African Literature* (1986).

rhan o'r broses ôl-drefedigaethol, boed yn benderfyniad ymwybodol pwrpasol neu beidio. Trwy ysgrifennu mewn iaith benodol, mae awdur yn awtomatig yn cyfiawnhau bodolaeth hunaniaeth genedlaethol wahanol, ac felly'n herio grymoedd trefedigaethol; gall hyn arwain at ddylanwad mawr, yn enwedig ar ddarllenwyr ifainc:

Language is the primary mode through which colonizers and colonized encountered one another, and it is the principal means whereby relations of power are challenged and altered. The language of children's books performs and embodies ideologies of all kinds, since children's texts purposively intervene in children's lives to prepare ways of being in the world. (Bradford 2007, 6)

Wrth ystyried sefyllfa Cymru a'r iaith Gymraeg, felly, gellid dadlau bod llenyddiaeth Gymraeg i blant yn gynnrych ôl-drefedigaethol oherwydd y defnydd o'r iaith Gymraeg, yn ogystal ag oherwydd y cyflwynir bodolaeth yr iaith a llenyddiaeth Gymraeg i'r ifainc. Mae llenyddiaeth plant yn rhywbeth sy'n cyfrannu at ddatblygiad dealltwriaeth plentyn o'r hyn ydyw, hynny yw, ei 'hunaniaeth genedlaethol' (Meek 2001c, vii). Trwy allu darllen iaith benodol, mae plentyn yn dod yn ymwybodol o'i debygrwydd neu ei annhebygrwydd i eraill, ac felly'n datblygu syniadau am ei hun. Nododd Reynolds bwysigrwydd iaith mewn llenyddiaeth plant yn y modd y creir hunaniaeth:

children's literature [is] important in the construction of self-identity since the self is a product of language, language is the medium of fiction, and so, while reading, children are simultaneously involved in learning and experimenting with language and constructing their identities. (2001, 45)

Trwy gyflwyno llenyddiaeth i blant mewn un iaith (gan ymwrthod ag iaith y trefedigaethwyr), gall y llenyddiaeth honno gyfrannu at y syniadau yma o'r hunan; ac mewn cenedloedd a ystyrir yn ôl-drefedigaethol, mae llenyddiaeth o'r fath yn cael ei hystyried yn llenyddiaeth ôl-drefedigaethol. Fel y sylwodd D. Foster Evans (2006, 49), 'fel iaith sydd wedi goroesi ar ynys Prydain er gwaethaf tra-arglwyddiaeth y Saesneg, ac yn wir dwf a thranc ymerodraeth Lloegr, y mae bodolaeth y Gymraeg yn ffenomen ryfedd, os nad bygythiol, ar lawer cyfri'. Mae dewis iaith is ei statws ar gyfer llenyddiaeth mewn cenedl y gellid ei galw'n drefedigaethedig ar un adeg, yn weithred sy'n bygwth awdurdod yr iaith drefedigaethol, ac felly'n rhan gref o'r broses o ôl-drefedigaethu neu ddad-drefedigaethu.

Yn ychwanegol at y dewis sylfaenol o iaith, mae T. Llew Jones wedi dewis defnyddio



rhywfaint o dafodiaith yn y nofel dan sylw. Trwy wneud hyn, mae'r llenyddiaeth yn mynd ymhellach oddi wrth y trefedigaethwyr trwy bwysleisio arallrwydd. Gwelir y defnydd o iaith lafar, iaith dafodieithol neu iaith acennog (geiriau sy'n dangos acen ac ynganiad lleol) yn y naratif yn ogystal ag yn y ddeialog, gyda defnydd o ymadroddion megis 'gwato' (t. 13) a 'p'un' (t. 8). Mae'n ddiddorol nodi hefyd i'r awdur ddewis elfen o iaith lafar yn nheithl y nofel yn ogystal, gan hepgor yr 'dd' yn yr enw 'Casnewy' Bach'. Mewn adolygiad o'r nofel, bu i W. J. Jones (1973, 64) gwyno am ddiffyg cysondeb sillgollau a dyfynodi, ac mae'n wir nad oes cysondeb o fewn y naratif na'r ddeialog, nac ychwaith gysondeb rhyngddynt. Er enghraifft, wrth gyfeirio at gymeriad o'r enw Dafydd, ceir o fewn ychydig baragraffau ddefnydd amrywiol o'r collnod: 'Dafydd Rhydlydan' (t. 36), 'Dafy' Rhydlydan' (t. 36) o fewn y naratif, a "'Dafy' Rhydlydan'" (t. 30) o fewn y ddeialog; ac fe gynhwysir y collnod gyda geiriau megis "'na'" (yna, t. 30) neu "'ma'" (yma, t. 30), tra na chynhwysir y collnod gyda geiriau megis "be sy" (beth sydd, be' sy', t. 30).

Ymhellach, mae'n ddiddorol sylwi ar y dewisiadau ieithyddol ar gyfer deialog. Yn wir, Saesneg yw'r geiriau cyntaf a siaredir yn y nofel: "*Man o' War* yw hi!" (t. 5). Sylwer fod yr awdur yn dewis cynnwys y term Saesneg yma, term am long ymosod sy'n gysylltiedig â threfedigaethu, ond fe bwysleisir arallrwydd trwy italeiddio'r term.<sup>67</sup>

Ar y cyfan, Cymraeg yw cyfrwng y nofel, ond mae'n ddiffr i'r awdur ddewis cynnwys cymysgwch ieithyddol ymysg ei gymeriadau hefyd. Wrth gwrs, nofel Gymraeg yw hi, ac felly mae'n gwneud synnwyr fod y cymeriadau'n cael eu dyfynnu'n siarad Cymraeg, ond nid yw'r awdur bob tro'n cadw at yr arfer hon; ar adegau fe eglurir mai yn y Saesneg yr yngenir y geiriau, ond nid oes eglurhad o'r fath bob tro. Er enghraifft ceir sgwrs yn y Gymraeg (t. 12) rhwng y Capten di-Gymraeg yn y bennod gyntaf, a John Davies – Cymro sy'n byw y tu allan i Gymru – cymeriad na wyddys a yw'n siarad Cymraeg ai peidio. Yn naturiol, mae'r cymeriadau sy'n Gymry Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y ddeialog. Ond nid yw pob cymeriad yn siarad yr iaith ddisgwyliedig bob tro, hynny yw, nid yw'r cymeriadau sy'n Saeson bob tro yn siarad Saesneg (ac yn yr un modd gyda chymeriadau o Sbaen, Yr Alban, ac Iwerddon), er bod

---

<sup>67</sup> Yn yr *Oxford English Dictionary* diffinnir 'man-of-war' fel enw hanesyddol am long hwylio arfog, fe nodir hefyd 'man-o'-war'. Ceir defnydd cyson yn y nofel o'r Saesneg mewn enwau priod, er enghraifft enwau llongau fel *Royal Fortune* a *Pembroke* – eto, enwau sy'n gysylltiedig â rhyfel, ymosod a threfedigaethu – bid sicr mai cadw at ffeithiau hanesyddol y mae'r awdur yma.

disgwyl i'r darllynydd ddeall rhai brawddegau a thermau Saesneg ar adegau eraill. Enghraifft o hyn yw pan ddywed y Sais, Dennis, "“gore”" (t. 100) a "“ffrindie”" (t. 103), a'r Sais, Simpson, "“heddi”" (t. 101) ac "“eisie”" (t. 105) gan lwyddo i arddangos acen Gymraeg hyd yn oed!

Mewn gwrthgyferbyniad â'r arfer uchod, pan fo Albanwr yn siarad yn nes ymlaen, caiff ei ddyfynnu yn y ddeialog, nid yn unig yn y Saesneg, ond hefyd gada thafodiaith ac acen Albanwr – "“Have ye seen a weavilly ship’s biscuit, lad? ...”" (t. 30). Pam felly fod yr Albanwr yn cael ei ddyfynnu'n Saesneg, tra bo cymeriadau Saesneg o Loegr yn cael eu dyfynnu'n Gymraeg (ambell waith gydag eglurhad mai yn Saesneg yr yngenir y geiriau)? Ar adegau eraill, ceir yr un cymeriad di-Gymraeg yn siarad yn Saesneg a Chymraeg heb eglurhad; er enghraifft, egyr Pennod 5 gyda'r bosn yn gweiddi'n Saesneg, yna try at Barti Ddu, gan siarad Cymraeg. Tybed a ydy'r awdur yn ceisio dangos mai Saesneg yw'r iaith forwrol, ac mai iaith israddol, ar gyfer sgwrs yn unig, yw'r Gymraeg? A oes rheswm penodol dros y dewis ieithyddol hwn, er enghraifft er mwyn rhoi blas o ddwyieithrwydd a thafodieithoedd, neu ai anghysondeb yw hyn yn unig?

Rhaid rhoi sylw i gymysgrywedd o'r fath, oherwydd gallai'r awdur fod wedi dangos grym ac awdurdod trwy'r dewis iaith, hynny yw, gallai ddangos awdurdod y trefedigaethwyr dros y trefedigaethedig trwy gyflwyno sgysiau dwyieithog (fel y gwnaeth yn *Cri'r Dylluan* i bwysleisio arallrwydd y *gentry* o'u cymharu â'r werin bobl); wedi'r cwbl mae disgwyl i'r darllynydd ddeall Saesneg ar sawl achos yn y nofel beth bynnag. Yr hyn a geir yn y nofel dan sylw, felly, yw ymwrthod â'r rhaniad rhwng y Saesneg a'r Gymraeg – trwy gymysgu'r cwbl, a pheidio â dilyn unrhyw drefn amlwg – gan simsanu cysyniadau am bŵer sy'n gysylltiedig ag iaith y trefedigaethwr neu'r trefedigaethedig. Trwy simsanu'r pŵer rhwng yr 'iaith israddol' a'r 'iaith uwchraddol', tanseilir bodolaeth y rhaniad trwy wrthod y ddeuoliaeth a chreu amwysedd – gweithred ôl-drefedigaethol ynddi'i hun.

Mae'r defnydd anghyson a chymysgryw o'r Saesneg yn y nofel yn nodwedd hybrid felly – nid oes system ddu a gwyn i'w defnydd. Mae'n arwyddocaol yn nhermau ôl-drefedigaethol oherwydd dim ond y rhai sy'n byw y tu mewn a'r tu allan i'r iaith (hynny

yw, yn deall y Gymraeg a'r Saesneg) sy'n gallu deall y cynnwys. Gwelodd yr adolygydd W. J. Jones y defnydd cymysgryw o'r Saesneg a'r Gymraeg yn *Barti Ddu* yn 'chwithig', er cydnabod y 'myn rhai y dylai sgwrs Cymro sy'n fratiog ei hiaith gael ei chroniclo'n onest o ran geirfa. Myn eraill ei bod yn ddyletswydd ar awdur i arwain – a thrwy hynny helpu pobl i buro'u hiaith' (1973, 64). Â yn ei flaen i bwysleisio bod T. Llew Jones mewn sefyllfa 'ffodus (neu anffodus!) o fod yn awdur a all ddylanwadu ar ei ddarllenwyr gan fod cymaint o ddarllen ar ei waith yn ein hysgolion' (W. J. Jones 1973, 64). Bu eraill yn feirniadol o ddewisiadau ieithyddol yr awdur. Yn wir, cyfeiria T. Llew Jones at ei wrthwynebiad i newid ei destunau er mwyn eu Cymreigio:

Cael cais i newid tipyn ar un bennod o'r nofel "Cri'r Dylluan" a anfonais i'r Cydbwyllgor Addysg (er iddi gael "cymeradwyaeth uchel" – yn ôl y llythyr a ddaeth gyda hi []). Mae'r gwyn [*sic*] yn erbyn y ffaith imi ddefnyddio gormod o Saesneg yn un bennod lle mae "gentry" mân Sir Benfro a godre Ceredigion mewn cinio. Mae'n anodd gen i newid dim ar gais pobl nad ydynt eu hunain wedi cyflawni dim. Cawn weld ... Sgrifennu at y Cydbwyllgor Addysg yn dweud na fedrwn i newid y ddeialog yn y nofel "Cri'r Dylluan" i blesio neb. Caiff fod yn nrôr fy nesg os ydynt am ymyrryd â'm gwaith fel yna ... Cael llythyr oddi wrth y Cydbwyllgor yn cytuno i adael "Cri'r Dylluan" heb ei newid. (5-14 Tachwedd 1973)

Trwy gynnwys rhywfaint o eirfa Saesneg, mae'r awdur yn cymryd yn ganiataol bod ei ddarllenydd yn deall yr iaith honno. Mae'n arddangos y berthynas amwys a'r ddeuoliaeth rhwng y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig, ac mae'r arwyddocâd yn dwysáu wrth gofio mai geirfa gysylltiedig â thraddodiad morwrol Lloegr ydynt gan amlaf, traddodiad sy'n gysylltiedig ag imperialaeth Brydeinig ac adeiladu ymerodraeth. Wrth gwrs, cadw at realiti ieithyddol y mae'r awdur ar adegau – gellid tybio mai Saesneg fyddai'r iaith a ddefnyddid ar gyfer termau ac enwau nas cyfieithwyd i'r Gymraeg yn y nofel, megis *Man of War*, 'ahoy' (t. 35), 'topmen aloft' (t. 35), 'board' (t. 74).

Wrth i'r stori symud o'r tir i'r môr, mae'r lleoliad anghyfarwydd yn arwain at fwllch yn y defnydd ieithyddol sy'n cael ei lenwi â geiriau benthyg:

The gap which opens between the experience of place and the language available to describe it forms a classic and all-pervasive feature of post-colonial texts. This gap occurs for those whose language seems inadequate to describe a new place, for those whose language is systematically destroyed by enslavement, and for those whose language has been rendered unprivileged by the imposition of the language of a

colonizing power ... (Ashcroft et al. 1989, 9-10)

Ym mha fodd mae 'bwlch' ieithyddol yn *Barti Ddu*, felly, ac ym mha fodd mae T. Llew Jones yn ymgeisio i gau'r bwlch hwnnw? O bosib, gan nad oes geirfa Gymraeg yn cyfateb i'r eirfa Saesneg ar adegau, defnyddir geiriau morwrol megis "orlop" ac "along-seid". Yn wir, 'language is at the heart of any discussion of national identity ... Bilingualism is normal, common, in countries with land frontiers' (Meek 2001c, xii). Mae Cymru'n genedl sydd ag arfordir y môr ar fwyafri ei ffiniau, a ffin Lloegr ar ei hochr Ddwyreiniol – mae ond yn naturiol felly i'r defnydd iaith fod yn gymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Gellir cwestiynu a ydy'r awdur yn fwriadol ddefnyddio termau Saesneg er mwyn tynnu sylw'r darllynydd ifanc at ddiffyg y Gymraeg fel iaith gyflawn? Neu ddiffyg y Cymry rhag defnyddio llawn gyfoeth yr iaith Gymraeg? Ar y llaw arall, gall y defnydd fod yn fygythiad i'r iaith ddylanwadol drefedigaethol, oherwydd mae 'dynwared' yn un o brif syniadau ôl-drefedigaethedd. Trwy ddefnyddio'r Saesneg mewn sgwrs naturiol Gymraeg, mae'r Cymro'n profi statws uwch oherwydd mae ganddo'r gallu i ddefnyddio'r iaith drefedigaethol, ac felly i ddynwared trefedigaethwyr. Arwain hyn at elfen fygythiol amlwg wrth i'r grym gael ei fygwth a pheidio â bod yn rym unochrog bellach (Bhabha, 1984). Eglura Ashcroft et al., wrth i'r trefedigaethedig ddynwared iaith (neu weithredoedd) y trefedigaethwr:

the result is never a simple reproduction ... Rather, the result is a 'blurred copy' of the colonizer that can be quite threatening. This is because mimicry is never far from mockery, since it can appear to parody whatever it mimics. Mimicry therefore locates a crack in the certainty of colonial dominance, an uncertainty in its control of the behaviour of the colonized. (1998, 139)

Mae'r awdur yn gyson yn creu 'blurred copy' o iaith y trefedigaethwyr trwy Gymreigio geiriau Saesneg. Mewn adolygiad o'r nofel, penderfynodd I. W. Williams mai da yw'r defnydd hwn: 'Hoffais ... fel y defnyddiwyd hen dermau'r môr wedi'u Cymreigeiddio'n naturiol; geiriau fel 'pŵp-dec', 'iardarm', 'bilô' ... mor esmwyth maen nhw'n ffitio mewn brawddeg' (1974, 36). Yn wir, cyfeiriodd T. Llew Jones at y broblem hon ei hun: 'Rwy'n cael trafferth mawr i fynd ymlaen a 'Barti Ddu' – stori anodd i'w sgrifennu yw hi – yn un peth mae termau morwyr i gyd yn Saesneg ac mae'n anodd gwybod beth i'w wneud â nhw – eu cadw fel y maent neu beidio' (09 Chwefror 1972). Ond wedyn, cynhwysir rhai geiriau megis "peiret" (t. 54) a "treinio" (t. 70) er bod cyfieithiadau Gymraeg ohonynt mewn rhannau eraill o'r nofel ("môr-leidr" ac "ymarfer/hyfforddi"). Dro arall, mae'r

awdur yn cyfieithu term, ond yn teimlo bod angen i'r darllenydd gael cyfieithiad Saesneg ohono hefyd, er enghraifft "haearn bachu (*grappling iron*)" (t. 136). Yn ôl Price, 'nid mwrddro iaith y mae'r rhai sy'n benthyg a bathu pan fo angen gwneud hynny, ond cadw iaith yn fyw' (1997, 22). Trwy Gymreigio rhai termau, mae'r awdur yn ymwrthod â pherchnogaeth diwylliant ac iaith y trefedigaethwr gorchfygol. Mae llenwi'r bylchau ieithyddol gyda geiriau sydd wedi'u Cymreigio yn cyd-fynd â'r broses a ddisgrifiodd Spivak (1990, 69) fel 'reversing, displacing, and seizing the apparatus of value-coding'. Mae'r math yma o ysgrifennu cymysg yn chwarae dwy rôl allweddol o fewn syniadaeth ôl-drefedigaethol, sef ail-greu iaith y rhai na all siarad (*subaltern*) a dad-drefedigaethu diwylliant ieithyddol y gorchfygwyr.

Mae'r ffaith fod y nofel wedi'i lleoli, yn bennaf, ar y môr, ac felly nid mewn un lleoliad tirol arbennig yn arwyddocaol o ran yr iaith a ddefnyddir. Sylwodd sawl un ar y cyswllt amlwg rhwng daearyddiaeth ac iaith – yn amlwg mae rhai ieithoedd yn brif ieithoedd, neu'n ieithoedd swyddogol, mewn mannau penodol ar y ddaear. Serch hynny, sylwyd fod ffiniau'r unedau daearyddol hyn yn cynnwys cysylltiadau cryfach rhwng iaith a hunaniaeth genedlaethol. Gan mai'r ffiniau daearyddol hyn sydd fel arfer yn dynodi terfynau diwylliant a hunaniaeth, mae arddangos hunaniaeth benodol unai yn llawer cryfach neu'n llawer gwannach yn y perifferi na'r ardaloedd sy'n fwy canolog i'r uned ddaearyddol (Beal 2010, 227). Pan yw unigolyn yng nghanol yr ardal ddaearyddol, nid oes raid iddo arddangos ei hunaniaeth mewn ffyrdd amlwg gan ei fod ymysg eraill sy'n rhannu'r hunaniaeth honno, ond pan yw unigolyn ar y perifferi mae'n rhaid iddo wneud mwy o ymdrech i arddangos ei hunaniaeth. Felly, yn amlwg, mae'r hunaniaeth honno un ai am fod yn gryfach oherwydd yr ymdrech, neu'n wannach oherwydd y diffyg ymdrech. Mae'r syniad hwn yn dal dŵr hefyd o safbwynt defnyddio iaith – wrth i'r cyswllt rhwng iaith a chenedlaetholdeb fod gryfaf, neu wannaf, ar y perifferi neu'r ymylon. Yn achos Cymru, yn draddodiadol mae'r perifferi Gorllewinol sy'n ffinio â'r môr yn gryf ei hunaniaeth Gymreig, tra bo'r perifferi sy'n ffinio â diwylliant arall (diwylliant y trefedigaethwyr) yn wan. Mae arddangos hunaniaeth trwy ddefnydd iaith yn digwydd ar y môr yn y nofel, ac mae'r môr fel y gwelir yn y rhan nesaf o'r bennod hon, yn uned ddaearyddol ymylol megis y ffiniau perifferi tirol. Gwelir y cymeriadau Cymraeg yn arddangos eu hunaniaeth tra mewn lleoliad perifferi, y môr rhwng tiroedd gwledydd, trwy siarad Cymraeg, siarad am Gymru, a chlosio at ei gilydd oherwydd hynny. Serch hynny, gan mai môr-ladron yn byw ar y môr yw'r cymeriadau, mae'r

hunaniaeth a arddangosir ganddynt yn un benodol i'r grŵp môr-ladron, fel y nodwyd eisoes gyda'r defnydd o iaith sy'n gysylltiedig â'r byd morwrol neu fôr-ladron yn unig.

Ysgrifennwyd y nofel ar gyfer plant yn eu harddegau, ac mae'n rhaid nodi yma fod cyswllt posibl rhwng y grŵp hwn o bobl a'r grŵp môr-ladron. Mae'r môr-ladron yn allanolion i gymdeithas arferol, ond yn grŵp penodol cryf eu hunaniaeth (o ran golygwedd, edrychiad, agweddau at drais *etc.*). Mae'r ardegwyr hefyd yn grŵp penodol o bobl, a grŵp sy'n aml yn teimlo nad ydynt yn rhan o gymdeithas arferol gan deimlo arallrwydd tebyg i'r allanolion o fôr-ladron. Yn wir, mae'r ardegwyr yn aml yn teimlo nad yw pobl yn eu deall, ac maent yn nodweddiadol o deimlo'n ddiog tuag at y byd a'i threfn gymdeithasol. Megis môr-ladron, ceir ardegwyr yn herio'r drefn dro ar ôl tro wrth fynd trwy'r broses o aeddfedu. Eto, yn debyg i fôr-ladron, ceir yr ardegwyr dro ar ôl tro yn defnyddio geirfa fel modd i ddangos eu bod yn perthyn i grŵp arbennig. Mae'r ffaith i'r awdur ddewis thema'r môr-ladron ar gyfer ei nofel yn arwyddocaol yn hyn o beth gan eu bod yn grŵp tebyg o bobl i'r ardegwyr – yn dewis defnyddio iaith benodol a gwahanol na all eraill ei deall, neu o leiaf ddeall eu holl ystyron cymdeithasol. Mae'r darllenwyr ifainc, felly, yn gallu teimlo cyswllt gyda'r grŵp yma o bobl. Cyfnod yr ardegau yw'r unig gyfnod ym mywyd rhywun pan fo newid amlwg yn y defnydd ieithyddol (newid ymwybodol hynny yw), ac mae hynny er mwyn adlewyrchu hunaniaeth gymdeithasol (Bowie 2010, 55).

Un modd y mae cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o ardegwyr wedi arddangos ei harallrwydd yw trwy ddefnyddio iaith tabŵ neu regfeydd, ac mae'n ddiddorol cwestiynu ai dyma a geir yn y llinell a ddaw o enau'r cymeriad Kennedy: "The grappling hooks, you ----s!" (t. 73). Nid oes cyfeiriadaeth at y llinell hon mewn unrhyw ffynonellau eilaidd, a gellir dyfalu yn unig yr ystyr a'r rheswm dros beidio â chynnwys y gair cyfan. Tybed ai rheg sy'n cael ei guddio yma? Tybed penderfyniad pwy oedd hepgor argraffu'r gair? Mae'n sicr yn ymddangos fel rheg neu air na ellir ei argraffu am ryw reswm. Ymhellach, dyfynnir y Gwyddel, Kennedy, yn defnyddio'r rheg "blydi" ddwywaith (t. 107), yn ogystal â therm y gellid ei dderbyn fel rheg: "bejesus" (t. 107). Gall hyn fod yn strategaeth (er mor fychan yw'r enghreifftiau) o ddenu sylw'r darlennydd (a'i ddiddordeb), tra'n atgyfnerthu'r cysyniad o gyswllt rhwng y môr-ladron ac ardegwyr. Ar y llaw arall, gall wneud y gwrthwyneb, trwy roi sylw ychwanegol i'r gair: 'the cardinal sin is asterisks or dashes – they disturb the flow of reading, and so have the

opposite effect to that intended, since they focus the reader's disrupted attention on the censored word' (Russell Williams 2010).<sup>68</sup>

Mae'n bosib nad oedd yr awdur wedi rhoi gormod o ystyriaeth i'w ddewisiadau ieithyddol, ond gellir yn sicr ddadlau bod ei ddewis yn cael effaith ar y darllenwyr. Tua'r un cyfnod (1960au-1970au) ag yr ysgrifennwyd y nofel hon y datblygodd y term 'Commonwealth Literature' i ddisgrifio'r llenyddiaeth Saesneg o wledydd a fu ar un adeg yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig. Mae gwaith yr awdur i raddau yn cyd-gerdded â'r gweithiau hyn yn y cenhedloedd ôl-drefedigaethol, ond mae gwaith T. Llew Jones yn mynd gam ymhellach yn y broses o ôl-drefedigaethu trwy ysgrifennu yn yr iaith frodorol. Mae'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn elfen allweddol o'n profiad o fod yn fodau dynol:

Language not only reflects who we are but in some sense it *is* who we are ... Language-mediated attribution of identity to individuals is so ingrained in human social affairs that we consider a person lacking a name to also lack an identity. (Llamas & Watt 2010a, 1)

Ar ben yr hunaniaeth bersonol, rydym hefyd yn fodau cymdeithasol gyda hunaniaethau cymdeithasol:

The variations in our dress, appearance and behaviour, and the constant variability in our language use, mark us out as belonging to groups, be they local or global, whose membership is reflected in our shared linguistic behaviour ... language users are not passive, but are in fact agents capable of deploying language variation for identity-making and -marking purposes. (Llamas & Watt 2010a, 1-2)

Mae'n bosib egluro'r defnydd amrywiol o eirfa forwrol – yn Gymraeg, yn Saesneg, yn eiriau wedi'u Cymreigio, yn Saesneg wedi'u hitaleiddio ac yn y blaen – fel arwydd o berthyn i grŵp penodol, ac felly hunaniaeth benodol. Ar y llaw arall, gall iaith fod yn

---

<sup>68</sup> Roedd rhegi mewn llyfrau plant, a hyd yn oed lyfrau i'r ardegwyr, yn anweledig nes yn ddiweddar iawn. Ym 1975 cafwyd ymateb cymysglyd i lyfr enillydd Medal Carnegie (a ddyfernir yn flynyddol i awdur am lyfr plant nodedig): *The Machine-Gunners* oherwydd iddo gynnwys y gair *bloody* – cam yn rhy bell i realaeth yn ôl rhieni ac athrawon y cyfnod. Yn fwy diweddar, dominyddwyd y byd llên plant gan fodolaeth cyfres boblogaidd *Harry Potter*. Mae'r awdures gan amlaf yn osgoi cynnwys rhegfeydd, gan nodi bod cymeriadau yn rhegi, e.e. '[Harry] employs a few of Uncle Vernon's choicest swear words' (*Deathly Hallows* 2007, 45); ond dro arall yn cynnwys y term 'effing' (*Deathly Hallows* 2007, 222, 307, 374), ac yn defnyddio dull tebyg i T. Llew Jones yn y cymal: 'start pulling a bunch of flower out of his —' (*Deathly Hallows* 2007, 143), er bod yr awgrym o'r gair yn llawer cryfach na geir gan T. Llew Jones. Ceir sawl enghraifft o lôn plant sy'n cynnwys nifer o achosion o regi, e.e. 80 rhag yn *Pretty Little Liars* (2006) Sara Shepard, a 175 rhag yn *Gossip Girls, The Carlyles #1* (2008) Cecily von Ziegesar (Weiss 2012).

arf i bwysleisio arallrwydd pendant: '[language] allows you to say a great deal about yourself ... it allows you to convey in numerous subtle ways something about your reliability as an ally or friend' (Dunber 1996, 78).

Cynigwyd gan arbenigwyr tarddiad iaith mai dyma brif symbyliad esblygiad iaith, sef yr angen nid yn unig i drosglwyddo neges, ond i adnabod cynghreiriad a gelynyion posibl. Ymhellach, datblygodd siarad iaith fel modd o gyfathrebu gan ein cyndeidiau, 'who found themselves faced with the necessity, if they were to survive and procreate, of forming sizeable coalition. Language then arose as a way in which individuals might show off their value as members of these' (Dessalles 2007, 63).

Mae'n ddiddorol felly fod y môr-ladron ar y naill law yn cyd-dynnu ar y llong oherwydd gorfodaeth i wneud hynny, ac felly'n cyfathrebu mewn iaith ddealladwy, ond ar y llaw arall, mae'n ddiddorol fod y môr-ladron (neu o bosib yr awdur) ar adegau yn awyddus i arddangos eu harallrwydd mewn cymhariaeth a'i gilydd trwy ynganu geiriau mewn amrywiol ieithoedd. Ar ddechrau'r nofel mae'r gwahaniaeth ieithyddol rhwng cymeriadau yn amlwg, gyda'r dynion 'drwg' yn siarad Saesneg, a'r Cymry 'diniwed' ar y lan yn siarad Cymraeg. Ond mae'n ddiddorol na ddewisodd yr awdur wneud mwy o'r arfer yma trwy gydol y nofel er mwyn polareiddio rhwng ffrindiau a gelynyion.

Gan symud ymlaen at gywair/bersbectif iaith y nofel, mae'r awdur yn amlwg am i'r darllynydd deimlo'n rhan o'r stori, neu deimlo fod y stori'n rhan o'i ddiwylliant. Mae'n arferiad cyffredin mewn llenyddiaeth i blant yn eu harddegau i'r naratif gael ei adrodd yn y person-cyntaf, a hynny yn aml fel strategaeth er annog y darllynydd i ymuniaethu â'r prif gymeriad a dwysáu'r argraff fod y llyfr yn 'real' (Pearson 2011, 80). Mae'n ddiddorol felly, os derbyniwn fod T. Llew Jones yn fwriadol am ddylanwadu ar ei gynulleidfa, mai yn y trydydd-person yr adroddir *Barti Ddu*. Serch hynny, gwna hyn mewn modd sy'n atynnu'r darllynydd i deimlo rhyw fath o gysylltiad, agorir Pennod 'Diwedd glo' fel hyn: 'Mae ein stori wedi gorffen, a does dim rhaid i neb ddarllen y darn ychwanegol yma' (t. 188). Yn gyntaf, mae'r gair 'rhaid' yn awgrymu y dylai pob un ddarllen gweddill y nofel, sy'n eironig; ac yn ail, ni ellir peidio â sylwi ar yr elfen o berchnogaeth a geir yn y gair 'ein'. Rhaid cwestiynu felly ai perchen ar ran o hanes cenedl sydd yma? Neu yw'n cyfeirio at berchen ar 'ein harwr'? Ni ellir peidio â sylwi ar yr elfen ôl-drefedigaethol hon, yr elfen o gynnwys y darllynydd fel rhan o'r



llynyddiaeth. Mae'n rhan o'r syniad o ail-greu ac adfywio cenedl, trwy berswadio neu annog yr ifainc i weld gwerth yn eu hanes eu hunain a hanes eu cenedl. Yn syml, mae'n ddull o greu ymwybyddiaeth o hunaniaeth genedlaethol carfan benodol. Mewn un adolygiad o'r nofel, mynegodd Glyn Evans ei bryder am y defnydd o gyfarch y darllynydd yn uniongyrchol:

Un peth a'm tarodd i ychydig yn chwithig efallai yw ei arfer ambell waith o siarad â'r darllynydd. Byddai'n well gen i ei weld yn adrodd y stori yn gwbl wrthrychol. Mae hyn amlycaf ar gychwyn y stori. Ceir cyfeiriadau fel: "Pe baech chi'n aros ar y cei ... buasai gennych ddigon o gwmni ...". Ac mewn lle arall dywed: Ddwedais i fod PAWB yn llawen? Wel i fod yn hollol gywir, yr oedd yno un nad oedd ...". Gwell gen i fyddai ei weld yn adrodd yr hanes heb gyfeiriadau fel hyn gan nad yw'r stori ei hun yn y person cyntaf ond yn cael ei hadrodd gan drydydd person. (1974, 5)

Eglura Nodelman bod adroddwr trydydd-person yn hollwybodus ar adegau: 'they know the thoughts of some or all of the characters, and sometimes they may even know more about the characters' feelings than the character themselves are willing to acknowledge' (1996, 59). I gyfrif am holl bosibiliadau naratif, ac er mwyn cydnabod y gwahaniaethau rhwng y siaradwr a'r gwrandaŵr, mae theorïwyr wedi bathu'r term *focalization* i gyfeirio at yr un sy'n *gweld* y digwyddiadau a ddisgrifir yn hytrach na'r un sy'n *siarad* amdanynt (Nodelman 1996, 59). Mae'r naratif yn *Barti Ddu* yn adrodd yn wrthrychol ar adegau, a thro arall yn dewis dangos teimladau cymeriadau. Trwy wneud hyn, gall yr awdur ddefnyddio *focalization* i reoli ein dealltwriaeth o ymddygiad cymeriad, gan godi cwestiynau a chynnig atebion trwy benderfynu cynnwys neu beidio â chynnwys teimladau cymeriad. Mae'r nofel yn amlwg gyflwyno Barti Ddu fel prif arwr y stori, ac fe geir y naratif yn aml o safbwynt y cymeriad hwnnw, er enghraifft: 'roedd Barti Roberts yn barnu ...' (t. 118). Trwy wneud hyn, mae'r darllynydd yn naturiol ddigon yn ochri gyda'r arwr hwnnw, ac felly'n debygol o gytuno gyda'i farn ef – barn gref am y Sais yn gyffredinol. Er hynny, ar adegau fe gyflwynir gwybodaeth yn y naratif nad yw'r cymeriad dan sylw'n ymwybodol ohono, ac felly fe gyflwynir barn eraill ar bethau, yn ogystal â barn eraill ar y cymeriad ei hun. Un enghraifft ydyw cyflwyno i'r darllynydd fod bywyd Capten Dafydd yn fuan am ddod i ben – 'roedd dyddiau Capten Hywel Dafydd wedi eu rhifo' (t. 89) – a hynny ymhell cyn i'w farwolaeth ddigwydd yn y stori. Ail enghraifft ydyw'r modd y mae'r naratif yn datblygu i gefnogi'r môr-ladron a'u ffyrdd yn yr un modd ag y mae Barti – newidir o ansoddeiriau megis 'brawychus' (t. 49) i 'delfrydol' (t. 155) wrth ddisgrifio llong fôr-ladron. Mae'r ffordd yr adroddir stori a'r ffordd y ffocysir digwyddiadau yn effeithio ar ddealltwriaeth y darllynydd o'r testun

(Nodelman 1996, 59). Mae defnydd hybrid o naratif trydydd person, a chyfarch y darlennydd yn uniongyrchol droeon eraill, yn fodd o reoli ymateb darlennydd felly, ac felly'n fodd o ddylanwadu'n uniongyrchol arno.

Ni chyfieithwyd *Barti Ddu* i'r Saesneg, yn wahanol i rai o nofelau eraill T. Llew Jones. Rhaid ystyried pam na chyfieithwyd y nofel. Ai'n syml oherwydd poblogrwydd y nofelau eraill dros y nofel hon? Neu a oes rhesymau sy'n ymwneud ag elfennau o hiliaeth neu gyswllt hunaniaethol. Mae'n bosib y byddai cyfieithu'r testun yn creu problemau i'r darlennydd Saesneg oherwydd y darlun tywyll o'r Saeson, ond rhaid cofio bod y portreadau o gymeriadau o hiliau eraill ar adegau yn llawer mwy negyddol. Rhaid cwestiynu hefyd a fyddai modd i ddarlennydd nad yw'n Gymro neu Gymraes fwynhau'r stori. A oes gormod o elfennau cenedlaetholgar Cymreig yma i un o'r tu allan i'r hunaniaeth Gymreig eu mwynhau a'u deall? O ran yr ieithwedd a ddefnyddir, rhaid ystyried a fyddai'r tafodieithoedd yn anodd eu cyfleu trwy gyfieithiad? A fyddai modd i berson di-Gymraeg gydymdeimlo â'r arwyr Cymraeg? Mae'n ddiddorol ystyried y cwestiynau hyn wrth feddwl am y syniadau a ddatblygwyd gan Wolfgang Iser am yr *implied reader*. Nid yn unig pwnc llenyddiaeth sydd ymhlyg, ond hefyd yr arddull a'r ieithwedd – fe all y rhain arddangos y math o ddarlennydd sy'n fwyaf tebygol o ymateb yn gadarnhaol iddynt. Gellid dadlau bod y defnydd iaith yn y nofel hon yn cau drws ar gynulleidfaoedd nad ydynt yn blant Cymraeg o Gymru, felly.

## ch) Gofod a Lle

Byddai rhai'n dadlau fod y nofel dan sylw yn rhy leol i'w chyfieithu a'i chyflwyno i bobloedd y tu allan i Gymru. Mae rhan o deitl y nofel yn enwi man penodol, sef Casnewydd Bach: ar dudalen deitl y nofel ceir y teitl *Barti Ddu o Gasnewy' Bach*, er mai *Barti Ddu* yn unig a geir ar y clawr. Fel y nodwyd eisoes, mae'r awdur wedi dewis cyfeirio at enw'r pentref mewn modd mwy lleol fyth trwy ddangos yr ynganiad lleol o'r enw a cholli'r 'dd' i'w drosi'n 'Casnewy' Bach'. Mae'n bosib bod elfen yma o ddieithrio'r di-Gymraeg, neu hyd yn oed y rhai nad ydynt yn gyfarwydd ag iaith lafar o'r fath, gan wneud yr iaith leol, sef y Gymraeg dafodieithol, yn norm.

Nid Casnewydd Bach yw'r unig leoliad yng Nghymru a enwir yn y nofel. Yn y bennod gyntaf yn unig fe enwir Abergwaun, Sir Benfro, Trefdraeth, a Chymru – hyd at gyfanswm o wyth ar hugain gwaith – oll o fewn tair tudalen ar ddeg. Ynghyd â chyfeiriadau cyson at yr uchod drwy'r nofel, enwir hefyd Ddyfed, Rhydlydan, Milffwrt a Phen Dinas. Sylwer bod y rhain oll yn lleoliadau lleol i'r awdur, yn Sir Aberteifi a Phenfro, ac o fewn 'Y Fro Gymraeg' – mae pwyslais amlwg felly ar wreiddiau Cymreig Barti Ddu a'i stori. Bathwyd y term gwleidyddol 'Y Fro Gymraeg' ym 1964 pan gyhoeddodd Owain Owain fap o'r fro yn *Nhafod y Ddraig* (Ionawr, Rhif 4). Dyma'r term a ddefnyddir hyd heddiw gan rai i ddisgrifio'r ardaloedd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Mewn ysgrif yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cyflwynodd Owain Owain y frawddeg enwog: 'Enillwn y Fro Gymraeg, ac fe enillir Cymru, ac oni enillir y Fro Gymraeg, nid Cymru a enillir'. Ni chydabyddir y Fro Gymraeg yn swyddogol fel tiriogaeth ieithyddol a diwylliannol megis y Gaeltacht yn Iwerddon, a'r Gàidhealtachd yn Yr Alban. Serch hynny, diddorol nodi cefnogaeth T. Llew Jones i diriogaeth swyddogol o'r fath yn ei ddyddiadur:

yr Iaith: Rwyf fi o'r farn bendant erbyn hyn mai un peth yn unig all ei hachub – sef yw hwnnw – arian wedi ei fuddsoddi ynddi ... mae'n bryd bellach anghofio'r frwydr boliticaidd am hunanlywodraeth – a mynd ati i gasglu £1,000,000 i sefydlu “Gaeltacht Gymraeg”. Prynu ffermydd a thyddynnod a thai mewn un ardal a'u gosod i Gymry ifainc a'u ffydd yn gadarn. Lledu allan o'r ardal honno wedyn fel y bo tir a thai yn dod ar y farchnad. Amhosibl? Dim ond 100,000 o Gymry i roi £10 yr un sydd eisiau. (14 Medi 1971)

Roedd gan yr awdur gyswllt personol â'r ardal hon, ac felly ni ellir tybio mai penderfyniad gwleidyddol oedd lleoli dechrau a diwedd y nofel yno. Dyma ardal enedigol Bartholomew Roberts a gwyddai'r awdur am yr hanesion lleol amdano. Mae'n ddiddorol nodi hefyd nad dim ond enwi a chyfeirio at y llefydd hyn a wneir, ond dangosir hefyd hiraeth a chariad tuag atynt, yn ogystal â disgrifiadau cadarnhaol o fewn y naratif. Agorir y nofel gyda darlun rhamantaidd o Abergwaun, Sir Benfro fel lle prydferth a thawel, lle mae'r haul yn tywynnu. Eir ymlaen i ddisgrifio'r bobl yno fel aelodau o gymuned **glòs**, cymuned y byddai'n amhosib teimlo'n unig ynddi. Mae'r gymuned oll yn gwylio llong yn dynesu at yr harbwr, ac wrth sylwi ar ei henw, *Pembroke*, teimplant ryw berchnogaeth drosti. Dyma'r gymuned y mae Barti, Abram ac eraill yn dymuno mynd yn ôl iddi pan gânt eu cipio oddi yno; er ei bod, mewn gwirionedd, yn gymuned na all warchod ei phobl rhag grymoedd o'r tu allan megis yr un a newidiodd fywydau Barti ac Abram. Ceir cymalau megis 'Yr oedd am fod yn ôl yn Nhrefdraeth' (t. 22); 'hiraeth am Drefdraeth' (t. 44); 'rhaid chwilio ... am long i'w cludo'n ôl i Gymru' (t. 52); 'Rwy'i eisie mynd adre i Drefdraeth' (t. 61); 'y sir annwyl' (t. 65); 'roedd ei feddwl wedi hedeg yn ôl i Gymru ac i Drefdraeth' (t. 123); 'roedd e'n benderfynol o fynd yn ôl i fyw yn Nhrefdraeth beth bynnag a safai yn ei erbyn' (t. 123); 'fe fyddai'n dianc yn ôl i Gymru' (t. 123); 'pe bawn i'n cael mynd adre' (t. 138); ac 'Fe garwn i fynd 'nôl' (t. 165). Dro ar ôl tro ceir pwyslais ar Gymru fel man delfrydol, man lle mae'r dyheu yn fawr am gael ail-gartrefu yno. Rhamantir Cymru, ac fe'i darlunnir fel man gwyn, cartref a hafan, lle sy'n cynnal y cymeriadau o Gymru tra ar y môr, ond yn y pen draw mae'r lle yn gwrthod dychweliad Barti Ddu. Tybed a ydyw'n fwriad i'r darllenwyr deimlo'r un angerdd at eu cynefin Cymreig, angerdd gwladgarol a chenedlaetholgar? Ai arwyddocâd gwrthod Barti ar ddiwedd y nofel yw bod rhai sy'n troi eu cefnau ar eu cynefin yn haeddu cael eu troi'n estron ac alltud? Nid o ddewis yr aeth Barti i'r môr, ond fel y gwyddys, datblygodd ei gymeriad i fod yn un a oedd yn wirioneddol fwynhau bywyd y môr-ladron, y dial, y lladd, a'r goresgyn.

Yn aml yn y nofel, cyfeirir at Gymru fel uned ar wahân. Fel y gwyddys eisoes, y mae cyswllt arbennig rhwng tir a phobl, a'r cyswllt yn fwy arwyddocaol pan ystyrir pobl a drefedigaethwyd – tir yw'r gwerth mwyaf hanfodol (Fanon 1963, 9). Yn yr un modd, cyfeirir at Loegr a'r Saeson fel cenedl a phobl ar wahân i Gymru a'i phobl – nid Prydain a Phrydeinwyr sydd yma. Mae'n syndod i'r Cymry weld 'Llynges Ei Mawrhydi'r Frenhines Anne ... yn Abergwaun ... Oni ddylai hi fod ar y môr yn ymladd â Sbaenwyr?'

(t. 6) – mae'r llong yn ymddangos yn ddieithr a rhyfedd ar arfordir Cymru felly, nid oes cyswllt ganddi â Chymru, ac mi ddylai fod ymhell i ffwrdd yn creu helynt i'r Sbaenwyr. Hefyd, cyfeirir at 'Swyddfa'r Llynges yn Llundain' (t. 11), a'u bod yn tybio 'y byddai'n hawdd cael criw yng Nghymru' (t. 11), gan bwysleisio arwahanrwydd Llundain a Chymru. O bwysleisio arwahanrwydd ac arallrwydd ar ddechrau'r nofel, fe wahaniaethir rhwng cenedl, ac felly rhwng pobl a hunaniaeth.

Serch hynny, nid yw'r lleoliad bob tro mor amlwg benodol wrth i'r cymeriadau deithio o'r tir i'r môr. Yn ôl Ashcroft et al. (1989, 8-9): 'A major feature of post-colonial literatures is the concern with place and displacement. It is here that the special post-colonial crises of identity comes into being; the concern with the development or recovery of an effective identifying relationship between self and place'. Caiff Barti ac eraill eu dadleoli yn y broses hon. Trafodwyd y newid mewn personoliaeth a hunaniaeth eisoes, ond gellir yma bwysleisio effaith gofod, lleoliad, a dadleoliad ar yr hunan, wrth i Barti arddangos elfennau o'r hyn alwodd Ashcroft et al. (1989, 9) yn 'crises in self-image which this displacement produces'. Wrth deithio o'r tir i'r môr, caiff lleoliad ei ddileu mewn ffordd, gan gysylltu'r prif gymeriadau gyda chysyniadau ôl-drefedigaethol o alltudiaeth sy'n cynnwys 'the idea of a separation and distancing from either a literal homeland or from a cultural and ethnic origin' (Ashcroft et al. 2000, 92). Wynebodd y Cymry nifer o achosion tebyg o golli tir, ac i raddau, gellid disgrifio effaith y broses o gipio pobl o'u cynefin fel y gwnaeth J. D. Owen wrth drafod colled Epynt.<sup>69</sup>

The despoliation means uprooting part of our nation which has been here for generations. They will be exiled from their own land and homes. It is obvious that behind this catalogue of the destruction of our patrimony there is one over-riding intent, and that is nothing less than an attempt to destroy our nationality. We are face to face with a power which, in the end, will strangle the personality, the soul and the religion of our nation. (dyfynnwyd yn Hughes, H. 1998, 98)

Mae'r diwreiddio hwn yn cyfateb, i raddau, i broses alltudiaeth Barti Ddu (ac eraill yn y nofel). Gellid dehongli'r broses fel symbol o ddatgymalu cenedl a hunaniaeth, ac mae'r

---

<sup>69</sup>Er gwaethaf ymdrechion Undeb Cymru Fydd i warchod yr ardal a rhwystro llywodraeth Prydain, cafodd Epynt, yn Ne Powys, ei feddiannu gan y Swyddfa Ryfel ym 1940, er mwyn creu safle ymarfer saethu. Dadleolwyd 400 o Gymry a fu'n ffermio yno: 'symudwyd ffin y Gymraeg bymtheg cilomedr i'r gorllewin' (Davies, J. 1990, 580). Ail enghraifft amlwg o golli tir a chymdeithas yw methiant Plaid Cymru rwystro Corfforaeth Dŵr Lerpwl rhag boddi pentref Capel Celyn ym 1955 er mwyn creu cronfa ddŵr ar gyfer trigolion Lerpwl. Boddwyd ysgol, capel swyddfa bost, deuddeg o ffermydd a thus 800 erw o dir, gan orfodi 48 o drigolion i ad-leoli.

ffaith nad yw'n bosibl i Barti dychwelyd i'w wreiddiau yn symbol, o bosib, o'r modd y mae'r trefedigaethwyr wedi tagu personoliaeth, enaid a bodolaeth cenedl.

Gan fynd yn ôl at ddiffyg enwi lleoliadau penodol unwaith mae'r stori yn symud i'r môr, gellid dadlau bod yma stori hybrid gan fod 'puzzle about the hero's location' (Knight 2003, 20). Defnyddiodd J. R. Jones (gweler Phillips, D. Z. 1995) y term 'cydymdreiddiad' i ddisgrifio'r hyn sy'n datblygu 'between a territory and its people and their language creating a sense of belonging to a particular stretch of the earth's surface' (Thomas, N. 1980, 25). Rhaid gofyn, felly, beth sy'n digwydd pan mai'r môr yw'r lleoliad dan sylw, os derbyniwn fod pobl, gwlad a thir yn cerdded law yn llaw, fel y nodwyd eisoes (Glissant, Braithwaite et al.). Dadleua Ashcroft (2001, 197): 'one of the consequences of the disruption and displacements of colonization has been that 'home', like 'place', becomes freed from a simple spatial concept of location' – megis y broses ôl-drefedigaethu ei hun felly, mae'r cymeriadau yn y nofel hefyd yn cael eu rhyddhau o leoliad penodol, ac mae 'cartref' yn troi'n amwys. Gall mai'r llong yw'r 'cartref' newydd, neu'r môr a'i donnau yn gyffredinol. Disgrifiodd McLeod y syniad o 'gartref' fel a ganlyn:

The concept of 'home' often performs an important function in our lives. It can act as a valuable means of orientation by giving us a sense of our place in the world. It tells us where we originated from and where we belong. As an *idea* it stands for shelter, stability, security and comfort ... To be 'at home' is to occupy a location where we are welcome, where we can be with people very much like ourselves. (2000, 210)

Mae unigolyn sydd i ffwrdd o'i 'gartref' yn teimlo 'arallrwydd' daearyddol felly; mae diffyg dilyniant rhwng y gorffennol a'r presennol, ac mae teimlad o golled oherwydd arallrwydd y lleoliad (Rushdie 1991, 12). Mae datgysylltu rhwng y presennol a'r gorffennol, rhwng yma ac acw, yn gwneud i 'gartref' deimlo ymhell o ran amser a gofod, a gellir ond dychwelyd yn y dychymyg (McLeod 2000, 211). Dyma'n union a wna Barti Ddu wrth gwrs – mae ei feddwl ar Gymru a'i gynefin yn aml, ond amhosib yw'r dychwelyd. Nid oes cadernid i long na'r môr, maent fel ei gilydd yn ddi-wreiddiau, ac wrth gwrs mae colli gwreiddiau yn annatod gysylltiedig â cholli hunaniaeth. Gellid cymharu symbolaeth y môr fel lleoliad gyda symbolaeth 'arallfyd' fel lleoliad mewn llenyddiaeth, lleoliad amwys sy'n bodoli gyfochr â'r byd cyffredin go iawn, ond eto'n anweladwy i'r byd hwnnw gan amlaf.

Mae'r môr yn lleoliad amwys a liminal felly. Yn y nofel dan sylw ceir deuoliaeth amlwg ar adegau – weithiau'n gweithreda fel lleoliad prydferth, hapus, tawel, ac agored; bryd arall fel lle peryglus, trist, tywyll a chaeedig. Wrth drafod y nofelau antur i blant *The Sign of the Beaver* (E. G. Speare, 1983) a *Take the Long Path* (J. De Hamel, 1978), mae Bradford yn disgrifio lleoliad y goedwig, a lleoliad y môr fel 'places where events occur ... [and] characters solve problems and attain self-hood' (2007, 135). Yn yr un modd â lleoliadau amwys yn y Mabinogion, mae'r môr yn lleoliad rhwng dau fyd lle mae llawer o bethau'n digwydd; yn ogystal mae'n lleoliad lle mae cymeriadau'n cael rhyddid meddwl a rheolaeth, a chan mai lleoliad dieithr ydyw, mae'n gyfle i unigolion ddarganfod eu hunain a'u hunaniaeth. Mae'n gyfle hefyd i'r cymeriadau weld eu byd fel nad ydynt wedi ei weld o'r blaen – o'r tu allan. Mae'r cysylltiad rhwng tir a rheolaeth a hunaniaeth yn cael ei golli pan nad oes tir, ac felly mae'r lleoliad gwag, agored, heb frodorion sydd â pherchnogaeth dros ofod, yn cynnig posibiliadau diddiwedd i ddyfodol yr hunan.

Nodwyd mewn sawl astudiaeth (e.e. Donnan & Williams 1999) y ffyrdd y mae lleoliadau ar y cyrion (neu'r perifferi, ffin, ymylon) yn arwyddocaol o ran digwyddiadau a sefydlu hunaniaeth: 'references to borders, boundaries, and frontiers permeate colonial discourses, providing potent metaphors for distinctions between races and for the imperial project itself ... in many texts, negotiations between cultures are mapped through narratives involving journeys and border crossings' (Bradford 2007, 147-8). Fel y nodwyd eisoes, gellir ystyried y môr fel lleoliad ymylol o'r fath, a lleoliad sy'n byrlymu o weithgarwch a newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, hunaniaethol a seicolegol. Gellir diffinio gofod ffiniau fel hyn:

set up to define the places that are safe and unsafe ... to distinguish us from them. A border is a dividing line, a narrow strip along a steep edge. A borderland is a vague and undetermined place created by the emotional residue of an unnatural boundary. It is a constant state of transition. The prohibited and the forbidden are its inhabitants. (Anzaldúa 1978, 3)

Mae lleoli'r dihirod o fôr-ladron yn addas yn hyn o beth, gan fod lleoliad y môr yn caniatáu i bethau gwaharddedig ddigwydd – nid oes rheolau megis sydd mewn gwlad a chanddi lywodraethiant. Serch hynny, ceir tystiolaeth hanesyddol i gefnogi'r wybodaeth yn y nofel am drefn, rheolau a system hierarchaeth y llongau môr-ladron – mae elfen

gymysgryw ac amwys i'w gweld, felly. Byddent yn rhoi trefn ar eu lleoliad amwys trwy greu rheolau llym iawn. Yn wir, mae'r Barti Ddu go iawn yn enwog am y rhestr o reolau a greodd, rheolau a fu'n ddylanwadol ar restr rheolau'r mwyafrif o'r môr-ladron (Johnson 1998, 180-1). Un o reolau'r Barti Ddu go iawn, a adleisir yn y nofel hefyd, yw'r rheol am ganiatâd i ymladd a dial ar aelod arall o'r criw pan yn cyrraedd tir yn unig:

Rheol VIII: No striking one another on Board, but every Man's Quarrels to be ended on Shore ... (Johnson 1998, 181)

Derbynia Barti Ddu y nofel y llong fôr-ladron a'i threfn yn gartref iddo'i hun, ac ar ddiwedd y nofel mae'n rhaid iddo wynebu mai dyma'i unig gartref bellach. Mae bywyd delfrydol gartref gyda'i wraig yn amhosib, ac mae unrhyw leoliad sefydlog arall ar dir sych yn beryglus iddo. Deellir ar adegau fod sicrwydd i'w gael ar fwrdd llong môr-ladron – oherwydd y rheolau cadarn a'r drefn, mae modd i'r dynion deimlo sefydlogrwydd a rhyw fath o ddiogelwch. Ceir ymdeimlad o undod rhwng y môr-ladron a'u lleoliad naturiol, rhyw fath o gytundeb neu harmoni rhwng yr herwyr a'r môr. Mae'r harmoni hwnnw'n cael ei ddinistrio gan awdurdodau o'r tu allan. Nid yw trefn yn dychwelyd i'r llong nes i'r brwydrau ddod i ben. Gellid cymharu'r môr i'r goedwig yn hyn o beth, a disgrifiodd Knight (2003, 13) y goedwig i Robin Hood a'r herwyr eraill fel hyn: 'the story uses the forest not as a natural and readily accessible part of everyday life ... but as a symbolic location for a type of freedom not available in the towns'. Yn yr un modd, ni chyflwynir y môr fel lle naturiol sy'n rhan o fywyd cyffredin y bobl, ond yn hytrach fel lleoliad symbolaidd o ryw fath o ryddid nas ceir yn y pentrefi a'r trefi. Ond gwyddys ar dir am yr hyn sy'n digwydd ar y môr i raddau (mae Megan, er enghraifft, wedi clywed am anturiaethau Barti Ddu), felly gellir cwestiynu faint o ryddid sydd ganddynt mewn gwirionedd. Yn syml, maent yn ymgorfforiad o ysbryd rhyddid, yn dianc o grafangau rheolaeth llywodraeth, tra'n parhau i weld gwerth mewn trefn a rheolau. Mae'r llong ei hun yn lleoliad amwys, felly. Mae'r llong rhwng dau fyd – yn sefydlog ac ar yr un pryd yn ansefydlog; yn yr awyr agored, ond ar yr un pryd dan do; yn gartref tra ar yr un pryd oddi cartref; yn gyfrinachol tra ar yr un pryd yn agored – mae'n lleoliad sydd rhwng diwylliant a natur. Adlewyrchir amwysedd mawr yn ansefydlogrwydd y cymeriadau, ac yn enwedig Barti ei hun fel y nodwyd uchod.

Creadigaeth y môr yw môr-ladron, ac maent yn y nofel, megis mewn hanes, yn



arddangos hunaniaeth arbennig sy'n amlwg wahanol. Gan nad yw'r môr-ladron oll o'r un dras, ceir cymysgedd o bobl wahanol, sydd oll yn unigryw yn eu ffyrdd eu hunain, yn cymysgu ar un llong neu dan reolaeth un capten. Mae creu ac adeiladu hunaniaeth newydd o'r fath yn un ffordd i wynebu cyfnod ôl-drefedigaethol wrth i bobl anwybyddu'r gymdeithas drefedigaethol a'r trefedigaethedig, a llunio hunaniaeth a threfn newydd sy'n cydymffurfio â'u harferion byw a'u gobeithion – troi cefn ar y gorffennol a'r presennol, a chreu presennol a dyfodol newydd. Yn ôl Fanon, mae dad-drefedigaethu fel hyn yn 'liberation which leads the nation to play its part on the stage of history' (1963, 247) – mae'r môr-leidr yn rhydd o grafangau llywodraethiant a grymoedd, ac felly'n cael cyfle i chwarae rhan hanesyddol i'w 'genedl' (yma, y llong a'r môr), gan adeiladu cyfnod ôl-drefedigaethol iddo ef ei hun.

Sylwodd Bhabha ar y modd y mae'r lleoliad ymylol yn fodd i bobl 'israddol' ac 'uwchraddol' gymysgu, a'r cymysgu hwnnw'n gallu bod mor fyrlymus fel nad oes bodolaeth system o awdurdod:

The stairwell as liminal space, in between the designations of identity, becomes the process of symbolic interaction, the connective tissue that constructs the difference between upper and lower, black and white. This interstitial passage between fixed identifications opens up the possibility of a cultural hybridity that entertains difference without an assumed or imposed hierarchy. (Bhabha 1994, 4)

Mae lle ar y môr, felly, i ddiwylliant cymysgryw sy'n cynnal amrywiadau a gwahaniaethau tra'n eu cymysgu fel nad oes un diwylliant nac arfer yn uwchraddol i un arall. Dyma a geir yn y nofel – enwir hunaniaethau a chefnidiroedd gwahanol, ond nid yw hynny (i raddau helaeth iawn, beth bynnag) yn amharu ar y modd y mae'r grŵp o fôr-ladron yn ymddwyn. Yr unig eithriad i hyn yw awydd Capten Dafydd, ac yn ei ddilyn ef, Barti Ddu, i ymosod ar longau Lloegr a'r Saeson. Ond nid yw'r awydd yma i wahaniaethu hunaniaeth a chefnidir yn bodoli ar long y môr-ladron ei hun. Mae'r gymysgrywedd ar long y môr-ladron yn creu ei huned hunaniaethol unigryw ei hun, gan ddatblygu'n hunaniaeth mor gryf nes mai'r 'arall' yw unrhyw un nad yw'n fôr-leidr – y fodolaeth wahanol, israddol a rhyfedd.

Gellir mynd â'r syniad o arallrwydd ymhellach wrth ystyried geiriau Said: 'the source of the world's significant action and life is in the West ... the outlying regions of the world

have no life, history, or culture to speak of, no independence or integrity worth representing without the West' (1993, xix). Os mai'r môr yw'r *outlying region*, yna mae'n ddibynnol ar fodolaeth y *West* lle mae bywyd a gweithgarwch. Yn wir, ni all y môr-ladron fyw heb y bobl eraill hyn canys ni fyddai ganddynt dargedau sy'n darparu eu bwyd a'u cyfoeth – mae eu bodolaeth yn gwbl ddibynnol ar economi trefedigaethu. Mae'r broses o gasglu arian ynghlwm wrth y broses o symud, wrth symud ar draws y moroedd gallant ymosod ar longau ac ar diroedd er mwyn dwyn arian a chynnyrch. Mae'r ffordd yma o fyw yn amlygu symbolaeth negyddol arian fel rhywbeth sy'n annog barusrwydd a materoliaeth. Y môr-ladron yw'r dihirod, felly, y rhai gwahanol ac israddol sy'n gwneud pethau 'drwg'; ond maent ar y cyfan yn ddihirod sy'n gweithredu ar y tu allan, hynny yw, ar y môr gan amlaf ac nid ar dir, ac mae eu hyder a'u balchder, yr hyn a ddisgrifiodd Knight fel 'proud outlaw' (2003, 28), yn cymhlethu'r cysyniad ohonynt fel dihirod israddol, gwyllt.

## Casgliad

Ysgrifennwyd y nofel dan sylw rhwng Ionawr 1971 a Mai 1972, cyn ei chyhoeddi yn Nhachwedd 1973 (Dyddiaduron 1971, 1972, 1973). Ysgrifennwyd a chyhoeddwyd y nofel, felly, yn ystod cyfnod o adfywiad cenedlaethol. Yng Nghymru'r 1960au a'r 1970au, gwelwyd gweithgarwch gwleidyddol ar ei eithaf, gyda phrotestiadau a charchariadau yn dilyn hynny. Rhwng 1962 a 1992 treuliodd 1,105 o unigolion dros 1,200 o ddiwrnodau mewn llysoedd barn, a dedfrydwyd 171 o bobl i gyfnodau mewn carchar – 'a'r cyfan er mwyn ceisio adfer y Gymraeg i'w phriod le fel iaith genedlaethol Cymru' (Phillips, D. 1998). Yn nechrau'r 1970au yr oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mewn bodolaeth ers deng mlynedd (fe'i sefydlwyd ym 1962, yn dilyn darlith radio enwog Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*), ond rhaid fyddai i'r Cymry aros deng mlynedd arall cyn derbyn sianel deledu Gymraeg (S4C, dechreuodd ddarlledu ym 1982). Mae'n deg ystyried felly bod cyflwyno nofel Gymraeg i ddarllenwyr ifainc Cymru ar ddechrau'r 1970au yn un modd o gyfrannu at y frwydr am fodolaeth a dyfodol i'r Gymraeg.

Ym 1909, yn yr ysgrif 'Angen Mwyaf Cymru' yn ei gyfrol *Er Mwyn Cymru*, dadleuodd O. M. Edwards: 'os ydyw Cymru i fyw, rhaid i rywrai ymdaflu i waith dros y plant. Nid ar faes y gad, ond mewn llenyddiaeth' (gweler Jones, M. & G. 1983b, ix). Teimlai O. M. Edwards mai angen mwyaf Cymru oedd llenyddiaeth fyw a apeliai at blant, ac 'ni waeth heb sôn am ddyfodol Cymru ac am obaith y dyfodol tra'r plant heb wybod dim ond yr hen hanesiaeth rhagfarnllyd a chamarweiniol fyddai mewn llyfrau Seisnig' (geiriau O. M. Edwards yn Jones, G. A. 1983, 88). Dyma ddatganiad ôl-drefedigaethol felly, wrth ymwrthod â'r hanesyddiaeth a ysgrifennir gan y trefedigaethwyr, ac ail-ysgrifennu'r hanes trwy lygaid y trefedigaethedig. Roedd yr awydd ynddo i godi ymwybyddiaeth o hanes a thraddodiadau Cymru mor gryf nes nad oes 'raid craffu'n hir i ganfod un ddelfryd sylfaenol yn rhedeg fel edefyn arian drwy ei holl waith, sef delfryd achub cenedl fechan' (Jones, G. A. 1983, 89). Mae llenyddiaeth plant wedi ei hadnabod fel elfen angenrheidiol yn yr ymdrech i gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a gwelwyd awduron ar hyd y degawdau yn ymroi i ysgrifennu ar gyfer plant oherwydd eu pryder am ddyfodol yr iaith (Rosser 2012, 2). Ym 1983, aeth un awdur mor bell â disgrifio'r rheidrwydd hwn fel 'crwsâd':

Y mae ysgrifennu ar gyfer plant yng Nghymru yn grwsâd, yn grefft, neu'n gelfyddyd. I lawer, crwsâd ydyw. Cariad at iaith sy'n ysbrydoli'r awduron hyn ac yn eu cynhyrfu. Maent yn ymroi ati mewn oriau hamdden prin i leihau rywfaint ar y prinder affwysol sydd yn y maes hwn. Ânt i'r gad mor ddibris ysgafala â milwyr y croesgadau yn ymgyrchu i Gaersalem. (Prichard, E. 1983, 60)

Ymestynnwyd yr ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb tuag at oroesiad yr iaith at fyd y cyhoeddwr. Yn y 1970au dechreuodd Roger Boore gyhoeddi llyfrau i blant gan osod ei lyfrau ei hun yng nghyd-destun adfywiad ieithyddol:

Dyletswydd gyntaf pob diwylliant yw sicrhau ei barhad ei hunan. Yr unig ffordd i sicrhau parhad diwylliant yw trwy fagu plant oddi mewn iddo. Rhaid rhoi'r flaenoriaeth i anghenion ein plant ... prif ddyletswydd ein diwydiant cyhoeddi yw cynnig darpariaeth ddigonol o lyfrau plant. (1978, 6)

Rhan ganolog o'r llif yma oedd T. Llew Jones a'i nofelau plant. Yr oedd am weld plant Cymru'n derbyn straeon cyffrous yn eu hiaith eu hunain (Jones, T. Ll. 1968, 5). Gresynodd fod cyfres deledu *Treasure Island* yn cael ei darlledu'n wythnosol ar y pryd, tra na chai'r Cymry Cymraeg ddarpariaeth debyg yn eu hiaith eu hunain: 'mae'n dristwch i mi na chaiff plant Cymru byth mo'r cyfle i weld Harri Morgan yn ei lordio hi ar fwrdd y *Santa Maria* ar fôr y Caribî, a 'morwyr Sbaen yn ffoi o'i flaen' ... A bydd y diffyg hwn yn hoel arall yn arch y Gymraeg' (1968, 6). Wrth ddarllen dyddiaduron T. Llew Jones, darganfyddir ei bryder at ddirywiad yr iaith Gymraeg, a'i boendod o weld iaith ysgolion yn prysur drawsnewid i'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Wrth drafod athrawon yn troi eu cefnau ar undeb Gymraeg U.C.A.C. ac yn ymuno ag undebau Saesneg, mynega ei ddryswch a'i dristwch: 'Wfft iddyn nhw – a druan o'r hen iaith sydd wedi mynd yn cocyn [*sic*] hitio i bawb' (27 Mai 1971). Fe sonia yn aml am ddirywiad y Gymraeg, a hynny gan amlaf wrth drafod iaith plant mewn ysgolion: 'Fi'n meddwl llawer y dyddiau hyn am gyflwr yr Iaith Gymraeg. Mae hi mewn stad beryglus yn awr – a'r ardaloedd gwledig yn cael eu gorlifo gan Saeson a'u plant ... Ac eto nid oes fawr o neb yn gweld pa mor arswydus yw'r dirywiad' (13 Medi 1971). Teg honni'r posibilrwydd, felly, fod ei bryder am ddyfodol yr iaith, ac yn benodol y defnydd o'r iaith ymysg plant, yn un rheswm dros ysgrifennu nofelau i blant yn y Gymraeg.

Yr oedd T. Llew Jones yn rhan o'r ymdrech i adfer hawliau ieithyddol, ac mae'n wir fod darparu cynnyrch i blant yn eu mamiaith yn un modd y gweithredodd er dyfodol yr

iaith, ei llenyddiaeth a'i diwylliant. Dengys ei ddyddiaduron personol ei gefnogaeth i weithredoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, hefyd.<sup>70</sup> Ym 1971, dengys ei gefnogaeth i'r ymgyrch arwyddion ffyrdd, gan ddyfynnu a chefnogi geiriau Dafydd Iwan yn y llys: 'Go lew boi! ... Tipyn o dalent ... Wfft i'r Llys a'r ddedfryd boliticaidd!' (10-13 Mai 1971). Yn wir, er nad oes sôn am T. Llew Jones yn gweithredu'n uniongyrchol, fe sonia yn nyddiadur 1972 am gadw cwmni i'w gyfaill Emyr Howel wrth fynd o flaen ei well am 'dorri mewn i'r B.B.C. a dinistrio ffeils'; sonia T. Llew Jones am fynd 'gydag ef i ddadlau ei ddadl ... Y Cyfarwyddwr yn bur ffaidd ac awdurdodol. Rhoesom ein troed i lawr fodd bynnag – doedd dim ymddiheuro i fod ar lafar nac ar bapur' (21 Tachwedd 1972).

Ymhellach, fe'i ceir ar adegau yn cyfeirio at Blaid Cymru a'i gefnogaeth i Fudiad Adfer. Yr oedd ei fab, Emyr Llewelyn yn un o sefydlwyr Mudiad Adfer yn y 1970au, ac fe sonia am ymwelydd a fu'n casglu arian ar gyfer y Blaid: 'pe bai'n gwneud hynny i Adfer byddai'n gallach' (20 Ionawr 1972). Yn wir, carcharwyd Emyr Llewelyn ym 1963 am achosi difrod i safle adeiladu argae Tryweryn. I sawl un, yr oedd Emyr Llew ac eraill a oedd yn gweithredu, boed yn ddi-drais neu beidio, yn arwyr cenedlaethol, ac maent yn parhau felly yn llygaid nifer o Gymry. Yr hyn a wnaeth T. Llew Jones felly oedd defnyddio cymeriadau Cymreig o'r gorffennol i ymateb i sefyllfa, pwnc llog, a brwydrau'r presennol, a'u cyflwyno mewn nofelau i blant – darllenwyr sy'n aelodau o gymdeithas y dyfodol.

Wrth drafod perthnasedd y defnydd o'r gorffennol mewn llenyddiaeth plant i'r cyfnod presennol, sylwodd Lucas: 'children's literature, in presenting the past, often communicate opinions. These opinions tend to be relevant to their own era rather than the one described; such narrators are indeed didactic for they aim to teach a better future' (2003, xvii). Felly, nid yw'r testunau sy'n defnyddio'r gorffennol, megis Barti Ddu, o reidrwydd yn disgrifio syniadau'r cyfnod y seilir y nofel ynddi, ond yn hytrach cyflwynir syniadau i'r darllenwyr sy'n berthnasol i'r presennol a'r dyfodol, a gall y syniadau hynny ddylanwadu ar syniadaeth a barn y darllenwyr, ac felly ar ddyfodol

---

<sup>70</sup>Diddorol nodi hefyd aelodaeth a chefnogaeth athrawon i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, yng ngeiriau Alan Butt Philip (wrth drafod y rhai a ymrwymodd, ym 1969, i wrthod arddangos disg treth ffordd uniaith Saesneg hyd nes y ceid rhai Cymraeg): 'once again it was the schoolmasters and ministers who formed the backbone of the protest, as they have formed the backbone of so many aspects of the nationalist movement in Wales' (1975, 247). Ni wyddys a oedd T. Llew Jones yn un o'r rhain, ond diddorol yw nodi'r ffaith ei fod yn ysgolfeistr ac yn gefnogol i'r achos.

cymdeithas, iaith, a diwylliant. Megis chwedl Robin Hood, '[which] operated in times of political stress as a means of expression for people conscious of kinds of oppression' (Knight 2003, 207), ysgrifennwyd y nofel dan sylw mewn cyfnod lle'r oedd y Llywodraeth yn ormesol ar y Cymry a'u diwylliant, ac yng Nghymru cafwyd cyfnod o geisio adfer a hyrwyddo hawliau ieithyddol mewn ymateb i'r drefn wleidyddol. Megis yr arwyr a oedd y protestio'n wleidyddol yn erbyn y drefn, ceir arwyr y nofel dan sylw hefyd yn protestio yn erbyn y drefn trwy fod yn ddihirod o fôr-ladron. Gwneir arwr o fôr-leidr o orffennol Cymru trwy'r nofel dan sylw. Yn ôl McGillis: 'The past has the allure of desire. Those were the good old days before fear and responsibility, and the desire for a return to those days haunts our culture' (1999, 224).

Tybed ai dyhead am ddychwelyd i gyfnod cyn-drefedigaethol sydd yma, felly? Ar y llaw arall, cwestiyna beirniaid llenyddol megis John Eglinton werth arwyr y gorffennol i'r byd llenyddol modern, arwyr na ellir yn ei dyb ef eu trawsblannu 'into the world of modern sympathies. The proper mode of treating them is a secret lost with the subjects themselves' (1973, 10). Dadleua nad oes modd eu defnyddio yn llwyddiannus i hyrwyddo syniadau cyfoes, ac y dylai'r arwyr hynny aros yn y gorffennol, mewn llyfrau hanes yn unig. Ond mae beirniaid megis Fanon wedi dangos bod ailafael ac ail-hawlio'r gorffennol trwy fyth yn rhan hanfodol o'r broses o ddad-drefedigaethu. Dadleuodd Fanon fod rheidrwydd ar gymuned drefedigaethedig i ail-ymweld â'r gorffennol er mwyn dechrau ar gyfnod cadarnhaol ac annibynnol o ddad- ac ôl-drefedigaethu. Cred fod modd i awduron ddadorchuddio cyfnod yn y gorffennol a all roi gobaith i'r dyfodol, gan ddatgelu 'beyond the misery of today ... some very beautiful and splendid era ... whose existence rehabilitates the nation ... and serves as a justification for the hope of a future national culture' (1963, 210). Yn ei astudiaeth o ddadansoddiad strwythurol Levi-Strauss o fyth, pwysleisiodd Edmund Leach (1974) bwysigrwydd rôl y myth wrth gyfleu doethineb hynafol cymdeithas i aelodau ifainc y gymdeithas fodern honno. Fel teclyn di-dor rhwng cyndeidiau a disgynyddion tras neu genedl, mae myth yn wrthwenwyn pwerus i bŵer aflonyddus trefedigaethedd (Ni Bhroin 2005a, 17).

Fel ysgrifenwyr y *Revival* yn Iwerddon, gellid dadlau bod T. Llew Jones hefyd yn ail-gysylltu'r Cymry gyda'u gorffennol, yn ogystal â chyda'u tir brodorol, mewn ymgais i ddeffro'r enaid cenedlaethol. Aeth Lucas ymhellach wrth drafod arwyddocâd y defnydd o'r gorffennol mewn llenyddiaeth:

The present, indeed like the past, is always with us. But if our understanding of the present is limited and fragile, our relationship with the past is ten times more tenuous while simultaneously both crucial and vital ... We are now aware that we, consciously or unconsciously, “construct,” create or “invent” the past ... we also destroy the past ... In so doing we destroy ourselves, for the past is our identity, our *raison d'être*. (2003, xiv)

Mae'r gorffennol, felly, yn rhan annatod ohonom. Y gorffennol yw'n hunaniaeth yn ôl Lucas, ein rheswm dros fodoli. Os derbyniwn y farn hon, mae unrhyw lenyddiaeth plant sy'n trafod y gorffennol neu hanes yn hollbwysig wrth i ni drafod y cyswllt rhwng llenyddiaeth a hunaniaeth. Os yw'r gorffennol i'w weld mewn llenyddiaeth, yna mae'n dilyn bod hunaniaeth i'w gweld yn y llenyddiaeth honno hefyd.

Teimlai T. Llew Jones 'mai'r hyn oedd eisiau fwyaf ar blant Cymru oedd *arwyr* – fel Robin Hood a Dick Turpin a Long John Silver' (1968, 5), a sylwodd fod stoc o gyfoeth storïol ar gael trwy edrych yn ôl ar hanes pobl megis Barti Ddu a Harri Morgan, a chyda Barti Ddu mae'n 'llwyddo i wneud cymeriad ... ffyrnig a gwaedlyd yn arwr Cymreig – camp go anodd' (Williams, I. W. 1974, 35). Mae methiant Barti ar ddiwedd y nofel yn atgoffa'r darlennydd o'r hyn na ddylid ei ail-fyw. Mae Barti wedi'r cwbl yn enghraifft o gymeriad a adawodd i rym eraill drawsnewid ei gymeriad a'i fyd-olwg. Mae'r nofel yn anfarwoli cyfnod o ymdrech a thrafferth a all gael ei gysylltu ag ymdrechion cenedl y Cymry, tra ar yr un pryd yn arddangos ysfa unigolyn ar gyfer hunan-gynhaliaeth. Mae'n amhosib i Barti ddychwelyd i Gymru at yr hyn a adawodd ar ei ôl, yn yr un modd ag y mae'n amhosib i genedl ôl-drefedigaethol ddychwelyd i sefyllfa cyn-drefedigaethol. Er bod Barti yn ysu am ddychwelyd i fyw gyda'i wraig yng nghefn gwlad Cymru, mae'r ysfa honno y tu hwnt i'w gyrraedd, yn union fel y gall un ysu am ddychwelyd i fywyd cyn-drefedigaethol gan wybod nad yw'n bosib. Efallai mai un o'r prif syniadau a ddaw o'r nofel yw bod edrych i'r gorffennol yn achos pryder, ac mai edrych i'r dyfodol yw'r ffordd ymlaen.

Mae amser yn broses ôl-weithredol (*retrospective*) sy'n rhedeg drwy gydol y nofel. Mae'r disgwrn yn sefydlu ymbellhad arbennig sy'n ddibynnol ar ddealltwriaeth y naratif o'r digwyddiadau ac ymateb y cymeriadau, ac yn ddibynnol ar gof y gorffennol, sy'n aml yn wasgaredig iawn. Mae'r digwyddiadau yn cymryd lle dros gyfnod maith o amser, ac mae'r awdur yn cadw at ffeithiau hanesyddol yn hyn o beth; ond mae'n bosib

fod yma elfen o gyswllt hanesyddol o ran datblygiad cenedl yn ogystal. Gellid dadlau bod dryswch a chymhlethdod y cymeriad a'i bersonoliaeth, a'r datblygiad yn ei gymeriad a'i fywyd, yn debyg mewn ffordd i ddatblygiad cenedl megis Cymru. Gellid dadlau bod angen yr holl adegau aflwyddiannus, yn ogystal â'r cyfnodau cadarnhaol, er mwyn i genedl ddatblygu yn un llwyddiannus. Fe brofir bod rhaid dysgu o gamgymeriadau, ac yna symud ymlaen tua'r dyfodol yn dilyn hynny. Wrth gwrs, mae Barti'n aflwyddiannus yn y diwedd, ac mae'r dyfyniad canlynol yn egluro'r cysyniad o ddefnyddio'r gorffennol fel techneg nofel ôl-drefedigaethol sy'n ceisio cyflwyno cadernid meddwl i'r dyfodol: 'Postcoloniality looks backward only to remind us of that to which we cannot return and of that which we ought not repeat in some other form' (McGillis 1999a, 223). Gan gofio am sefyllfa Cymru a'r Gymraeg pan ysgrifennwyd y nofel, mae'n bosib bod y darllenydd yn gweld yn y testun bod yr ymdrech yn un ddeuol – mae anghenion y gorffennol a'r presennol yn gymysg (Ní Bhroin 2011, 18), a'r cymysgwch hwnnw yn uniongyrchol ddylanwadu ar y dyfodol. Mae'r gorffennol felly'n cael ei ail-ddarganfod trwy lygaid y dyfodol.

Mae llenyddiaeth yn un ffordd y mae darllenydd yn dysgu ac yn dod i gyswllt â'r byd o'i gwmpas. Mae'n un ffordd o gyfrannu tuag at ddatblygiad hunaniaeth unigolyn. Yn ôl Culler (1997, 112-3): 'Literature has not only made identity a theme; it has played a significant role in the construction of the identity of readers. The value of literature has long been linked to the vicarious experiences it gives readers, enabling them to know how it feels to be in particular situations and thus to acquire dispositions to act and feel in certain ways. Literary works encourage identification with characters ... **we become who we are** by identifying with figures we read about'. Felly, mae llenyddiaeth o bob math yn haeddu sylw academiaidd, ac efallai bod llenyddiaeth i blant yn haeddu mwy o sylw gan fod plant yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu'n hawdd. Trwy ddefnyddio theori ôl-drefedigaethol mae'r traethawd hwn wedi amlygu'r cyswllt agos rhwng hunaniaeth a llenyddiaeth.

Yr hyn a geir yn *Barti Ddu* T. Llew Jones yw cymysgedd o ddau beth penodol a chymhleth. Yn gyntaf, mae'r nofel yn arddangos llais trefedigaethol – dyma nofel y genre antur traddodiadol a gysylltir yn agos â'r Ymerodraeth Brydeinig. Yn ail, mae'r nofel yn arddangos llais ôl-drefedigaethol – dyma nofel Gymreig mewn sawl ffordd, nofel sy'n cyflwyno cysyniadau ôl-drefedigaethol cryf, megis arallrwydd, cymysgrywedd a dynwared. Gwelwyd nad du a gwyn yw'r hyn a gyflwynir yn y nofel,



ac mae cymysgwch yr elfennau trefedigaethol a'r ôl-drefedigaethol yn adlewyrchu cymysgwch y Gymru a greodd y nofel, a'r Gymru gyfoes hefyd. Mae'r nofel yn cyflwyno dau beth diddorol trwy ddarlleniad dadansoddol. Yn gyntaf, dywed yr hyn a geir yn y nofel lawer am yr awdur, ac yn fwy arwyddocaol, am gyfnod creu'r nofel. Yn ail, mae'r nofel yn cyflwyno syniadau i'r darlennydd am hunaniaeth, ac felly'n fodd o ddyllanwadu ar y gynulleidfa. Yr hyn sy'n gwneud y nofel yn drawiadol o bwysig o ran haeddiant sylw academaidd ydyw mai nofel a fwriadwyd ar gyfer plant yw hi, ac felly mae dylanwadu ar feddylfryd darllenwyr ifainc yn fodd o ddyllanwadu ar genedlaethau'r dyfodol.

Y mae'r traethawd hwn wedi dangos bod darlleniad dadansoddol o nofel sy'n cyfuno naratif draddodiadol y stori antur ac elfennau gwrth- ac ôl- drefedigaethol yn fodd o amlygu'r cyswllt **clòs** rhwng llenyddiaeth a hunaniaeth – cyswllt sydd yn ei dro yn gallu dylanwadu ar genedlaethau o blant ac oedolion, ac felly ddyfodol iaith, diwylliant, hunaniaeth a chenedl.

# Llyfryddiaeth

- Aaron, J. 2005. Bardic Anti-colonialism. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 137-58.
- & Williams, C. gol. 2005. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr.
- Adam, I. & Tiffin, H. 1991. *Theorizing Post-Colonialism and Post-Modernism*.  
Calgary: University of Calgary Press.
- Ahmed, A. 1995. The Politics of Literary Postcoloniality. *Race and Class*, 36, tt. 1-20.
- Alleyne, W. 1986. *Caribbean Pirates*. London: Macmillan.
- Anderson, B. R. 1983. *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism*. London: Verso.
- Anzaldúa, G. 1978. *Borderlands/La Frontera: The New Mestiza*. San Francisco: Aunt Lute.
- Aries, P. 1962. *Centuries of Childhood*. London: Pimlico.
- Ashcroft, B. 2001. *Post-colonial Transformation*. London: Routledge.
- & Griffiths, G. & Tiffin, H. gol. 1989. *The Empire Writes Back: Theory and Practice in Post-Colonial Literatures*. London: Routledge.
- 1995. *The Post-Colonial Studies Reader*. London: Routledge.
- 1998. *Key Concepts in Post-Colonial Studies*. London: Routledge.
- 2000. *Postcolonial Studies: The Key Concepts*. London: Routledge.
- Beal, J. 2010. Shifting Borders and Shifting Regional Identities. Yn: Llamas, C. & Watt, D. gol. *Language and Identities*. Edinburgh: Edinburgh University Press. tt. 217-226.
- Bala, I. 2005. Horizon Wales: Visual Art and the Postcolonial. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 234-50.
- Batchelor, J. 1982. *The Edwardian Novelists*. London: Duckworth.
- Bhabha, H. 1984. Of Mimicry and Man: The Ambivalence of Colonial Discourse. *October*, 28, tt. 125-33.
- 1990. *Nation and Narration*. London: Routledge.
- 1992. Postcolonial Criticism. Yn: Greenblatt & Gunn gol. *Redrawing the Boundaries: The Transformation of English and American Literary Studies*. New York: MLA,

- tt. 437-65.
- 1994. *The Location of Culture*. London: Routledge.
  - 1997. Life at the border: hybrid identities of the present. *New Perspective Quarterly*, 14, tt. 30-1.
- Boehmer, E. 1995. *Colonial and Postcolonial Literature*. New York: Oxford University Press.
- Bohata, K. 2004. *Postcolonialism Revisited*. Cardiff: University of Wales Press.
- Boore, R. 1978. *Llyfrau Plant Mewn Ieithoedd Lleiafrifol*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Bowie, D. 2010. The Ageing Voice: Changing Identity Over Time. Yn: Llamas, C. & Watt, D. gol. *Language and Identities*. Edinburgh: Edinburgh University Press, tt. 55-66.
- Bradford, C. 2007. *Unsettling Narratives: Postcolonial Readings of Children's Literature*. Waterloo: Wilfrid Laurier University Press.
- Braithwaite, E. K. 1979. *The History of the Voice*. London: New Beacon Books.
- Breverton, T. 2004a. *Black Bart Roberts: The Greatest Pirate Of Them All*. Llandybie: Glyndŵr Publishing.
- 2004b. *The Pirate Handbook: A Dictionary of Pirate Terms & Places*. Llandybie: Glyndŵr Publishing.
- Bristow, J. 2009. Empire Boys. Yn: Maybin, J. & Watson, N. J. gol. *Children's Literature: Approaches and Territories*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 130-42.
- Brockliss, L. & Eastwood, D. 1997. *A Union of Multiple Identities: The British Isles 1750-1850*. Manchester: Manchester University Press.
- Burl, A. 1997. *Black Barty: The Real Pirate of the Caribbean*. Sparkford: Sutton Publishing.
- Butts, D. 1996. Shaping Boyhood: Empire Builders and Adventurers. Yn: Hunt, P. gol. *International Companion of Children's Literature*. London: Routledge, tt. 326-37.
- Campbell, J. 1949. *The Hero with a Thousand Faces*. New Jersey: Princeton University Press.
- Caslin, S. d. d. *Feminism and Post-Colonialism*. [Ar-lein]. Ar gael:  
<http://www.qub.ac.uk/imperial/key-concepts/feminism-and-postcolonialism.htm>

[Gwelwyd 14 Mawrth 2012].

- CBAC. *Pobl y Llyfrau*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Childs, P. & Williams, P. 1997. *An Introduction to Post-Colonial Theory*. Cornwall: T. J. Press.
- Chun, A. 2000. Introduction: (post)colonialism and its discontents, or the future of practice. *Cultural Studies*, 14, tt. 379-84.
- Classen, A. gol. 2005. *Childhood in the Middle Ages and the Renaissance: The Results of a Paradigm Shift in the History of Mentality*. Berlin: Walter de Gruyter.
- Coghlán, V. & O'Sullivan, K. gol. 2011. *Irish Children's Literature and Culture: New Perspectives on Contemporary Writing*. London: Routledge.
- Connell, R. W. 1995. *Masculinities*. Cambridge: Polity Press.
- Cordingly, D. 1995a. *Life Among The Pirates: The Romance and the Reality*. London: Abacus.
- 1995b. *Under The Black Flag: The Romance and the Reality of Life Among the Pirates*. London: Harcourt Brace and Company.
- Culler, J. 1997. *Literary Theory: A Very Short Introduction*. Oxford: Oxford University Press.
- Cunningham, H. 2006. *The Invention of Childhood*. London: BBC Books.
- Da Silva, S. R. 2010. Atlantic Vocation: Manuel António Pina's Os Pirates. *Bookbird*, vol. 48, no. 4, tt. 35-45.
- Davies, J. 1990. *Hanes Cymru*. London: Penguin.
- Davies, R. R. 1974. Colonial Wales. *Past and Present*, 65, tt. 3-23.
- de Vries, Jan. 1963. *Heroic Song and Heroic Legend*. Oxford: Oxford University Press.
- Deane, S. gol. 1991. *The Field Day Anthology of Irish Writing II*. Derry: Field Day Publications.
- Dessalles, J-L. 2007. *Why We Talk? The Evolutionary Origins of Language*. Oxford: Oxford University Press.
- di Michele, L. 1993. Autobiography and the "structure of feeling" in Border Country. Yn: Dworkin, D. L. & Roman, L. G. gol. *Views Beyond the Border Country: Raymond Williams and Cultural Politics*. New York: Routledge, tt. 21-37.
- Di-enw. 1997. *Llyfrau Plant: Children's Books in Welsh 1900-1991*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cyngor Llyfrau Cymru; Adran Astudiaethau

Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Prifysgol Cymru.

- Dirlik, A. 1994. The Postcolonial Aura: Third World Criticism in the Age of Global Capitalism. *Critical Inquiry*, vol. 20, no. 2, Winter 1994, tt. 328-56.
- Dixon, V. K. 2011. Western Feminism in a Global Perspective. *Student Pulse*, vol. 3, no. 2, tt. 2-3. Ar gael: <http://www.studentpulse.com/articles/395/2/western-feminism-in-a-global-perspective>.
- Donnan, H. & Williams, T. M. 1999. *Borders: Frontiers of Identity, Nation and State*. King's Lynn: Biddles Ltd.
- Dryden, L. 2000. *Joseph Conrad and the Imperial Romance*. Basingstoke: Macmillan Press.
- Dunbar, R. 1996. *Grooming, Gossip and Evolution of Language*. Harvard: Harvard University Press.
- Dworkin, D. L. & Roman, L. G. gol. 1993. *Views Beyond the Border Country: Raymond Williams and Cultural Politics*. New York: Routledge.
- Edwards, O. M. 1909. *Er Mwyn Cymru*. Wrecsam: Hughes A'i Fab.
- Eglinton, J. 1973. *Literary Ideals in Ireland*. New York: Lemma Publishing Corporation.
- Elfyn, M. 1992. Trwy Lygaid Ffeministaidd. Yn: Rowlands, J. gol. *Sglefrio ar Eiriau*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 22-41.
- Evans, G. 1974. Dihiryn i'w Ganmol. *Y Cymro*. Mawrth 5, t. 5.
- Fanon, F. 1963. *The Wretched of the Earth*, cyfieithiad Constance Farrington. New York: Grove Press.
- 1967a. *Black Skin, White Masks*, cyfieithiad Charles Lam Markmann. New York: Grove Press.
- 1967b. *A Dying Colonialism*, cyfieithiad Haakon Chevalier. New York: Grove Press.
- 1988. *Toward the African Revolution*, cyfieithiad Haakon Chevalier. New York: Grove Press.
- Foster Evans, D. 2006. 'Bardd arallwlad': Dafydd ap Gwilym a Theori Ôl-Drefedigaethol. Yn: Thomas, O. gol. *Llenyddiaeth Mewn Thoeri*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 39-72.
- Fussell, E. 1965. Frontier: American Literature and the American West. *Nineteenth-Century Fiction* Vol. 21, No. 1 (June), tt. 97-101.

- Galway, E. A. 2008. *From Nursery Rhymes to Nationhood: Children's Literature and the Construction of Canadian Identity*. London: Routledge.
- Glissant, E. 1989. *Caribbean Discourse: Selected Essays*, cyfieithiad J. Michael Dash. Charlottesville: University Press of Virginia.
- Green, M. 1980. *Dreams of Adventure, Deeds of Empire*. London: Routledge.
- 1990. *The Robinson Crusoe Story*. Pennsylvania: Pennsylvania State University Press.
- Greenblatt & Gunn gol. 1992. *Redrawing the Boundaries: The Transformation of English and American Literary Studies*. New York: MLA.
- Grenby, M. O. 2008. *Children's Literature*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Haggard, H. R. 1887. *Allan Quatermain*. London: Longman.
- Hall, S. 1992. The question of cultural identity. Yn: Hall, S. & Held, D. & McGrew, T. gol. *Modernity and its Futures*. Cambridge: Polity Press, tt. 274-316.
- & Held, D. & McGrew, T. gol. 1992. *Modernity and its Futures*. Cambridge: Polity Press.
- Hollindale, P. 1997. *Signs of Childness in Children's Books*. Stroud: Thimble Press.
- Holst-Peterson, K. & Rhutherford, A. 1986. *A Double Colonization: Colonial and Post-Colonial Women's Writing*. Michigan: Dangaroo Press.
- Hourihan, M. 1997. *Deconstructing the Hero: Literary Theory and Children's Literature*. London: Routledge.
- Hughes, G. 1983. Y Cylchgronau: O 'Yr Addysged' i 'Hwyl'. Yn: Jones, M. Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 74-86.
- Hughes, H. 1998. *An Uprooted Community: A History of Epynt*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Humphreys, E. M. 1911. *Dirgelwch yr Anialwch ac ystraeon ereill*. Caernarfon: Cwmni y Cyheddwyr Cymreig.
- Hunt, P. 1991. 1994. *An Introduction to Children's Literature*. Oxford: Oxford University Press.
- gol. 1996. *International Companion Encyclopedia of Children's Literature*. London: Routledge.
- gol. 1999. *Understanding Children's Literature*. London: Routledge.
- Huws, G. 1997. Rhagair. Yn: Di-enw. *Llyfrau Plant: Children's Books in Welsh 1900-*

1991. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cyngor Llyfrau Cymru; Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Prifysgol Cymru, tt. v-viii.
- Isaac, N. 1983. Y Cychwyn. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 1-13.
- JanMohamed, A. 1985. The Economy of Manichean Allegory: The Function of Racial Difference in Colonial Fiction. *Critical Inquiry*, vol. 12, no. 1, tt.59-87.
- Johnson, Capt. C. (gyda Cordingly, D.).1998. *A General History of the Robberies & Murders of the Most notorious Pirates*. Chatham: Conway Maritime Press.
- Jones, B. L. 1983. E. Morgan Humphreys. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 47-53.
- Jones, E. 2008. *FfugLen: Y Ddelwedd o Gymru yn y nofel Gymraeg o Ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, G. 1983a. Joseph Jenkins. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 104-6.
- 1983b. Robert Lloyd Jones 1876-1959. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 107-9.
- Jones, G. A. 1983. Owen M. Edwards. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 87-96.
- Jones, G. W. 2003. T. Llew Jones. Yn: CBAC. *Pobl y Llyfrau*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 3-8.
- Jones, G. D. 1997. Llenyddiaeth Gymraeg i blant: arolwg o'r sefyllfa bresennol. *Llais Llyfrau*, Hydref, tt. 9-10.
- Jones, L. P. 1977. Llenwi Bwlch. *Barn*. Gorffennaf/Awst, Rhif 174/175, tt. 279-80.
- Jones, M. & Jones, G. gol. 1983. *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, P. H. & Rees, E. 1998. *A Nation and its Books: a history of the book in Wales*. Aberystwyth: The National Library of Wales
- Jones, R. M. 1992. Y Ddraig Lwyd. Yn: Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol XVIII*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 160-92.
- Jones, R. T. 1974. Darganfod Plant Bach: Sylwadau ar Lenyddiaeth Plant yn oes Victoria. Yn: Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol VIII*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 160-204.

- Jones, R. W. 2005. In the Shadow of the First-born: The Colonial Legacy in Welsh Politics. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 23-38.
- Jones, T. Ll. 1968. Ar Drywydd Arwyr – A Dihirod. *Llais Llyfrau*, Rhif 10, Gaeaf, tt. 4-6.
- 1969. Ar Drywydd Awdur [sgwrs gyda Gwilym J. Thomas]. *Hamdden*, Cyfrol V, Rhif 46, Chwefror, tt. 127-8.
- 1971. *Dyddiadur*. LIGC Llsg 23816B.
- 1972. *Dyddiadur*. LIGC Llsg 23817B.
- 1973. *Dyddiadur*. LIGC Llsg 23818C.
- 1974. *Dyddiadur*. LIGC Llsg 23819C.
- 1980. Holi'r Prifardd T. Llew Jones a Mr J. Selwyn Lloyd. *Barn*, Gorff/Awst, Rhif 210/211, tt. 238-41.
- 1995. *Barti Ddu*. Abertawe: Christopher Davies Cyf.
- Jones, W. J. 1973. Adolygiad: Barti Ddu. *Y Genhinen*, Cyfrol XXIV, Gaeaf, tt. 63-4.
- Jordan, G. 2005. 'We Never Really noticed You Were Coloured': Postcolonialist Reflections on Immigrants and Minorities in Wales. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 55-81.
- Keelan, C. & Thompson, M. S. gol. 2005. *Studies in Children's Literature 1500-2000*. Dublin: Four Courts Press.
- Kestner, J. A. 2012. *Masculinities in British Adventure Fiction, 1880-1915*. London: Ashgate Publishing.
- Kidd, K. 2000. Boyology in the Twentieth Century. *Children's Literature*, 28, tt. 44-72.
- Kleinfeld, J. 2012. *The Frontier Romance*. Alaska: University of Alaska Press.
- Knight, S. 2003. *Robin Hood: A Mythic Biography*. London: Cornell University Press.
- 2004. *A Hundred Years of Fiction*. Cardiff: University of Wales Press.
- Lassén-Seger, M. 2006. *Adventures into Otherness*. Åbo: Åbo Akademi University Press.
- Le Guin, U. 1993. *Earthsea Revisited*. Cambridge: MA Children's Literature.
- Leach, E. 1974. *Levi-Strauss*. London: Collins.
- Lind, A. & Brzuzny, S. gol. 2008. *Battleground, Women, Gender and Sexuality*. vol. 1. Westport: Greenwood.



- Llamas, C. & Watt, D. 2010a. Introduction. Yn: Llamas, C. & Watt, D. gol. *Language and Identities*. Edinburgh: Edinburgh University Press, tt. 1-5.
- gol. 2010b. *Language and Identities*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Lucas, A. L. 2003. The Past in the Present of Children's Literature. Yn: Lucas, A. L. gol. *The Presence of the Past in Children's Literature*. London: Praeger, tt. xiii-xxi.
- gol. 2003. *The Presence of the Past in Children's Literature*. London: Praeger.
- Lye, J. 1997. *Some Issues in Postcolonial theory* [Ar-lein]. Ar gael:  
<http://www.brocku.ca/english/courses/4F70/postcol.php> [Gwelwyd: 27 Chwefror 2011].
- Mallan. K. 2002. Picturing the Male: Representatives of Masculinity in Picture Books. Yn: Stephens, J. gol. *Ways of Being Male: Representing Masculinities in Children's Literature and Film*. London: Routledge, tt. 15-37.
- Maybin, J. & Watson, N. J. gol. 2009. *Children's Literature: Approaches and Territories*. Basingstoke: Palgrave Macmillan
- McClintock, A. 1993. The Angel of Progress: Pitfalls of the term "Post-colonialism". Yn: Williams, P. & Chrisman, L. gol. *Colonial Discourse and Post-Colonial Theory: A Reader*. London: Longman, tt. 84-98.
- McGillis, R. 1999a. "And the Celt Knew the Indian": Knowingness, Postcolonialism, Children's Literature. Yn: McGillis, R. gol. *Voices of the Other: Children's Literature and the Postcolonial Context*. London: Garland Publishing, tt. 223-35.
- 1999b. Introduction. Yn: McGillis, R. gol. *Voices of the Other: Children's Literature and the Postcolonial Context*. London: Garland Publishing, tt. xix-xxxii.
- gol. 1999. *Voices of the Other: Children's Literature and the Postcolonial Context*. London: Garland Publishing.
- McLead, J. 2000. *Beginning Postcolonialism*. Manchester: Manchester University Press.
- Meek, M. 1996. Introduction. Yn: Hunt, P. gol. *International Companion Encyclopedia of Children's Literature*. London: Routledge, tt. 1-13.
- 2001. Preface. Yn: Meek, M. gol. *Children's Literature and National Identity*. Stoke on Trent: Trentham Books, tt. vii-xvii.
- gol. 2001. *Children's Literature and National Identity*. Stoke on Trent: Trentham Books.
- Millward, E. G. 1973. Ffugchwedlau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. *Llên Cymru*, 12, tt.

- Mishra, V. & Hodge, B. 1993. What is post(-)colonialism?. Yn: Williams, P. & Chrisman, L. gol. *Colonial Discourse and Post-Colonial Theory: A Reader*. London: Longman, tt. 399-414.
- Nelson, C. & Grossberg, L. gol. 1988. *Marxism and the Interpretation of Culture*. Basingstoke: Macmillan Education.
- Ní Bhroin, C. 2005a. Championing Irish Literature: A Postcolonial Critique of Lady Augusta Gregory's Cuchulainn of Muirthemme. *Bookbird*, vol. 43, no. 2, tt. 13-21.
- 2005b. Forging national identity: the adventure stories of Eilís Dillon. Yn: Keelan, C. & Thompson, M. S. gol. *Studies in Children's Literature 1500-2000*. Dublin: Four Courts Press, tt. 112-9.
- 2011. Mythologizing Ireland. Yn: Coghlan V. & O'Sullivan, K. gol. *Irish Children's Literature and Culture: new Perspectives on Contemporary Writing*. London: Routledge, tt. 7-27.
- Ní Dhuibhne, É. 2001. Borderlands: Dead Boy and Living Landscape. Yn: Coghlan V. & O'Sullivan, K. gol. *Irish Children's Literature and Culture: new Perspectives on Contemporary Writing*. London: Routledge, tt. 29-39.
- Nic Congáil, R. gol. 2012. *Codladh Céad Bliain: Cnuasach Aistí ar Litríocht na nÓg*. Baile Atha Cliath: LeabhairCOMHAR
- Nodelman, P. 1996. *The Pleasures of Children's Literature*. New York: Longmans Publishing USA.
- 2002. Making Boys Appear: The Masculinity of Children's Literature. Yn: Stephens, J. gol. *Ways of Being Male: Representing Masculinities in Children's Literature and Film*. London: Routledge, tt. 1-14.
- Owen, D. 1983. Edward Tegla Davies 1880-1967. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 97-103.
- Pearson, L. (gyda Hunt, P.). 2011. *Children's Literature*. London: York Press.
- Perumalil, A. 2009. *History of women in philosophy*. London: Global Vision Publishing House.
- Phillip, A. B. 1975. *The Welsh Question: Nationalism in Welsh Politics, 1945-1970*. Cardiff: University of Wales Press.
- Phillips, D. 1998. *Trwy Ddulliau Chwyldro ...? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*

- 1962-1992. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Phillips, D. Z. 1995. *J.R. Jones*. Cardiff: University of Wales Press.
- Phillips, M. 1998. Children's Literature in Welsh to 1950. Yn: Jones, P. H. & Rees, E. *A Nation and its Books: a history of the book in Wales*. Aberystwyth: The National Library of Wales, tt. 379-85.
- Phillips, R. 2005. Island Stories and Border Crossings: School History and the Discursive Creation of National Identity in Wales. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 39-54.
- Phillips, Richard. 1997. *Mapping Men and Empire: A Geography of Adventure*. London: Routledge.
- Porter, B. 1985. *The Lion's Share: A Short History of British Imperialism*. Harlow: Longman.
- Price, A. 1997. Cyfoeth Cyfieithu. *Taliesin*, Rhif 100, Gaeaf, tt. 21-26.
- Prichard, E. 1983. John Ellis Williams 1901-1975. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 58-61.
- Pringle, P. 1953. *Jolly Roger: The Story Of The Great Age Of Piracy*. Dover: Dover Maritime.
- Reynolds, K. 2011. *Children's Literature: A Very Short Introduction*. Oxford: Oxford University Press.
- Root, D. 1997. 'White Indians': Appropriations and the Politics of Display. Yn: Ziff, B. & Rao, P. V. gol. *Borrowed Power: Essays on Cultural Appropriation*. New Brunswick: Rutgers University Press, tt. 225-33.
- Rose, J. 1984. *The Case of Peter Pan, or, The Impossibility of Children's Fiction*. London: Macmillan.
- Rosser, S. M. 2009. 'Albert Maywood': Brodorion America, Thomas Levi a Dechreuadau'r Stori Antur i Blant. *Y Traethodydd*. Gorffennaf, tt. 133-47.
- 2012. Language, Culture and Identity in Welsh Children's Literature: O. M. Edwards and *Cymru'r Plant 1892-1920*. Yn: Nic Congáil, R. gol. *Codladh Céad Bliain: Cnuasach Aistí ar Litríocht na nÓg*. Baile Atha Cliath: LeabhairCOMHAR, tt. 223-51.
- Rousseau, J-J. 1762 [1979]. *Émile: or, On Education*. New York: Basic Books.
- Rushdie, S. 1991. *Imaginary Homelands: Essays and Criticism 1981-1991*. London:

Granta.

Ruskin, J. 1865. *Sesame and Lilies: Two Lectures, Delivered at Manchester in 1864*.

London: Smith, Elder.

Russell-Williams, I. 2010. *The curse of swearing in children's books*. [Ar-lein].

[http://www.guardian.co.uk/books/booksblog/2010/sep/08/swearing-childrens-books?fb=ative#\\_=\\_](http://www.guardian.co.uk/books/booksblog/2010/sep/08/swearing-childrens-books?fb=ative#_=_). [Gwelwyd 13 Ebrill 2013].

Rowlands, J. gol. 1992. *Sgleftrio ar Eiriau*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Said, E. 1978. *Orientalism*. London: Routledge.

- 1990. *Nationalism, Colonialism and Literature*. Minnesota: University of Minnesota Press.

- 1993. *Culture and Imperialism*. London: Chatto.

- 1995. *The Politics of Dispossession*. New York: Vintage.

- 1999. *Out Of Place: A Memoir*. London: Granta.

Salmon, E. G. 1986. What Boys Read. *Fortnightly Review*. XXXIX, tt. 248-59.

Salmon, E. 1888. *Juvenile Literature As It Is*. Harvard: Harvard University.

Samuel, R. 1998. *Island Stories: Theatres of Memory*. London: Verso.

Sanders, R. 2007. *If a Pirate I must be ...: The True Story of Bartholomew Roberts, King of the Caribbean*. Bodmin: Aurum.

Sharp, J. 2008. *Geographies of Postcolonialism*. London: Sage Publications.

Shohat, E. 1992. Notes on the Post-Colonial. *Social Text*, 10, 2-3, tt. 99-113.

Slemon, S. 1991. Modernism's Last Post. Yn: Adam, I. & Tiffin, H. *Theorizing Post-Colonialism and Post-Modernism*. Calgary: University of Calgary Press, tt. 3-17.

Spivak, G. 1988. Can the Subaltern Speak?. Yn: Nelson, C. & Grossberg, L. gol. *Marxism and the Interpretation of Culture*. Basingstoke: Macmillan Education, tt. 271-313.

- 1990. *The Post-Colonial Critic: Interviews, Strategies, Dialogues*. London: Routledge.

Stephens, J. 2002a. "A Page Just Waiting to Be Written On": Masculinity Schemata and the Dynamics of Subjective Agency in Junior Fiction. Yn: Stephens, J. gol. *Ways of Being Male: Representing Masculinities in Children's Literature and Film*. London: Routledge, tt. 38-54.

- gol. 2002b. *Ways of Being Male: Representing Masculinities in Children's Literature and Film*. London: Routledge.

- Stevens, C. 2011. *Hanes Atgas: Dihirod Diflas a Chymeriadau Chwithig*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- 2012. *Sgwrs am Fôr-Ladron: Rhaglen Nia Roberts*. Radio, BBC Radio Cymru, 16 Chwefror 2012, 10:30-12:00.
- Stevenson, R. L. *Treasure Island*. London: Sovereign.
- Teifi, Siân. 1982. *Cyfaredd y Cyfarwydd: Astudiaeth o fywyd a gwaith y Prifardd T. Llew Jones*. Aberystwyth: Gwasg Cambria.
- Thomas, A. 2005. 'Maîtres chez nous'? Awaiting the Quiet Revolution in Wales. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybïe: Gwasg Dinefwr, tt. 85-99.
- Thomas, D. A. 1974. Llyfrau Newydd T. Llew Jones. *Y Tyst*, Chwefror 14, t. 7.
- Thomas, N. 1980. *Derek Walcott: Poet of the Island*. Cardiff: Welsh Arts Council.
- Thomas, O. gol. 2006. *Llenyddiaeth Mewn Theori*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, R. M. 1983. Elizabeth Watkin Jones. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 54-7.
- Townsend, J. R. 1965. *Written For Children*. Harmondsworth: Penguin.
- Trease, G. 1965. *Tales Out of School*. London: Heinemann.
- Turner, F. G. 2007. *The Frontier in American History*. New York: Henry Holt.
- wa Thiong'o, Ng. 1981. *Writers in Politics: a Re-Engagement with Issues of Literature and Society*. London: Heinemann.
- Watt, D. 2010. The Identification of the Individual Through Speech. Yn: Llamas, C. & Watt, D. gol. *Language and Identities*. Edinburgh: Edinburgh University Press, tt. 76-85.
- Weiss, L. B. 2013. YA Books Rife With Profanity, Study Finds. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.slj.com/2012/05/research/ya-books-rife-with-profanity-study-finds/> [Gwelwyd 30 May 2012].
- Whitaker, J. 2002. Nineteenth-Century Representations of Native Americans: Introduction. *Nineteenth-Century Literary Criticism*, 104.1. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.enotes.com/nineteenth-century-representations-native-essays/nineteenth-century-representations-native/introduction> [Gwelwyd 10 Rhagfyr 2012].
- Williams, C. 2005. *Problematizing Wales: An Exploration in Historiography and*

- Postcoloniality. Yn: Aaron, J. & Williams, C. gol. *Postcolonial Wales*. Llandybie: Gwasg Dinefwr, tt. 3-22.
- Williams, I. W. 1974. Gwneud Môr-Leidr yn Arwr. *Barn*, Ionawr, Rhif 135, tt. 35-6.
- Williams, J. E. C. gol. 1974. *Ysgrifau Beirniadol VIII*. Dinbych: Gwasg Gee.
- 1992. *Ysgrifau Beirniadol XVIII*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Williams, M. W. 1997. Gadewch i'n Plant fod yn Blant. *Barn*, 411, tt. 40-1.
- Williams, P. & Chrisman, L. gol. 1993. *Colonial Discourse and Post-Colonial Theory: A Reader*. London: Longman.
- Williams, R. 2003. *Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, R. B. 1974. Gwaith Llenor Proffesiynol. *Y Faner*. Chwefror 22, t. 5.
- Williams, R. J. 1983. Elizabeth Mary Jones (Moelona) 1877-1953. Yn: Jones, M. & Jones, G. gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 38-42.
- Wodak, R. & de Cillia, R. & Reisgl, M. & Liebhart, K. (cyfieithiad Hirsch, A. & Mitten, R.). 1999. *The Discursive Construction of National Identity*. London: Routledge.
- Young, R. J. C. 1995. *Colonial Desire: Hybridity in Theory, Culture and Race*. London: Routledge.
- 2003. *Postcolonialism: A Very Short Introduction*. Oxford: Oxford University Press.
- Ziff, B. & Rao, P. V. gol. 1997. *Borrowed Power: Essays on Cultural Appropriation*. New Brunswick: Rutgers University Press
- Zweig, C. 1990. *To Be a Woman: Birth of the Conscious Feminine*. New York: Tarcher.
- Zweig, P. 1974. *The Adventurer: The Fate of Adventure in the Western World*. London: Dent.